RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
02/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
10/01/2023

# Gwerthusiad o Bartneriaeth Arloesi Ewrop Cymru Cyfnod 2: Adroddiad Gwerthuso Interim

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-244-0

Gwerthusiad o Bartneriaeth Arloesi Ewrop Cymru
Cam 2: Adroddiad Gwerthuso Interim

Awdur(on): Teifi, I; Griffiths, E

Adroddiad Ymchwil Llawn: Teifi, I; Griffiths, E; (2023). *Cam 2 Gwerthusiad Partneriaeth Arloesi Ewrop Cymru: Adroddiad Gwerthuso Interim* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 02/2023.

Ar gael fan yma: https://www.llyw.cymru/partneriaeth-arloesi-ewrop-cymru-gwerthuso-interim

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Tîm Ymchwilio, Monitro a Gwerthuso
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Gwerthuso.ymchwil@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau ..... 1
Rhestr o ffigurau ..... 2
Geirfa ..... 3
1. Cyflwyniad ..... 4
2. Methodoleg ..... 9
3. Proffil y busnesau a gynorthwywyd ..... 13
4. Asesiad o berfformiad cyflawni ac agweddau ar y dyluniad ..... 23
5. Adolygiad o’r prosiectau a gyflawnwyd a'u heffaith ..... 42
6. Lledaenu’r canfyddiadau ..... 52
7. Casgliadau ac argymhellion ..... 56
Atodiad 1: Cwestiynau gwerthuso ..... 63
Atodiad 2: Theori newid ar gyfer EIP Cymru ..... 65
Atodiad 3: Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol ..... 66
Atodiad 4: Arolwg o ymgeiswyr aflwyddiannus ..... 77
Atodiad 5: Canllaw trafod y tîm cyflawni ..... 83
Atodiad 6: Trosolwg o’r prosiectau ..... 87

**Rhestr o dablau**

Tabl 4.1: Opsiynau model cyflawni ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol ..... **Error! Bookmark not defined.**

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 3.1: Lleoliad daearyddol ymgeiswyr arweiniol EIP Cymru, holl ffermwyr/coedwigwyr y Grwpiau Gweithredol, a holl ffermydd Cymru ........ 13
Ffigur 3.3: Maint y fferm (ha) – cymhariaeth rhwng aelodau’r Grwpiau Gweithredol a'r cyfartaledd cenedlaethol ........ 16
Ffigur 3.4: Bandiau trosiant aelodau’r Grwpiau Gweithredol (ffermwyr yn unig) ........ 16
Ffigur 3.5: Model segmentau ar gyfer diwydiant amaethyddol Cymru ........ 19
Ffigur 3.6: 'Pa mor bwysig yw siarad â ffermwyr eraill fel ffynhonnell gwybodaeth a chyngor i chi'n bersonol?' ........ 19
Ffigur 3.7: 'Faint o ddiddordeb sydd gennych mewn cael mynediad i wybodaeth neu gyngor am ffermio ar y Rhyngrwyd?' ........ 19
Ffigur 3.8: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol?' ........ 21
Ffigur 3.9: 'Allwch chi ddisgrifio pam roeddech chi eisiau datblygu prosiect drwy EIP Cymru?' ........ 22
Ffigur 4.1: 'A allwch ddweud wrthym sut y daethoch yn ymwybodol o'r cymorth?' ........ 24
Ffigur 4.2: Amlinelliad o chwe cham y broses ymgeisio ac arfarnu ........ 25
Ffigur 4.3: 'Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi wedi bod â'r prosesau Mynegi Diddordeb, y cais a'r prosesau arfarnu?' ........ 26
Ffigur 5.1: Y themâu a restrwyd ar gyfer pob prosiect yn nata monitro EIP Cymru ........ 42
Ffigur 5.2: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno bod bod yn rhan o EIP Cymru wedi ...?' ........ 48

**Geirfa**

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| EIP | Partneriaeth Arloesi Ewrop (European Innovation Partnership) |
| EIP-AGRI | Partneriaeth Arloesi Ewrop ar gyfer Cynhyrchiant a Chynaliadwyedd Amaethyddol (European Innovation Partnership for Agricultural Productivity and Sustainability) |
| IBERS | Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences) |
| RSPB | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (Royal Society for the Protection of Birds) |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Lansiwyd Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) Cymru ym mis Ionawr 2016 ac fe'i hariannwyd o dan Bartneriaeth Arloesi Ewrop ar gyfer Cynhyrchiant a Chynaliadwyedd Amaethyddol (EIP-AGRI), a hithau wedi lansio yn 2012. Mae ychydig llai na £2m ar gael gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (2014–2020) i gyflawni'r cynllun hwn. Darperir EIP Cymru gan Fenter a Busnes ochr yn ochr â chymorth gan Cyswllt Ffermio, Broceriaid Arloesi, a'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth — cydweithrediad rhwng Cyswllt Ffermio ac IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth. Swyddogaeth EIP Cymru yw hwyluso syniadau arloesol a newydd ar gyfer busnesau ffermio a choedwigaeth.

1.2 Comisiynwyd y gwerthusiad hwn gan Lywodraeth Cymru i asesu gweithrediad ac effaith EIP Cymru. Yn benodol, rhoddwyd yr wyth amcan allweddol canlynol i'n gwerthusiad:

- asesu lefel yr ymgysylltu/gwasanaethau a ddarperir drwy Gyswllt Ffermio
- archwilio effeithiolrwydd proses ymgeisio'r prosiectau, a'r prosesau penderfynu ac arfarnu
- asesu rôl y Brocer Arloesi o ran ansawdd, perthnasedd, hyblygrwydd, a gwerth am arian
- asesu agweddau dylunio penodol y cynllun EIP
- asesu a gwerthuso'r modd y mae canfyddiadau'r grŵp wedi'u lledaenu i'r cyhoedd ehangach sy'n defnyddio Cyswllt Ffermio
- asesu pa mor arloesol yw'r prosiectau
- asesu a gwerthuso effaith gyffredinol prosiectau EIP Cymru ar gyfer aelodau'r Grwpiau Gweithredol sy'n cymryd rhan
- i ba raddau y mae EIP Cymru wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â thair thema drawsbynciol Llywodraeth Cymru ac amcanion trawsbynciol arloesi a'r amgylchedd a lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd?

1.3 Mae'r gwerthusiad yn cael ei gyflawni dros dri cham. Y cyntaf o'r rhain oedd cwmpasu a datblygu'r Fframwaith Gwerthuso ac fe'i cynhaliwyd yn 2021. Amlinellodd y Fframwaith gyfres o gwestiynau gwerthuso, yn seiliedig ar yr

amcanion a grybwyllwyd uchod, a ddefnyddiwyd i lywio'r gweithgarwch gwerthuso (gellir gweld y cwestiynau gwerthuso yn Atodiad 1). Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno gwerthusiad interim EIP Cymru, sy’n ymwneud yn bennaf â gwerthuso’r broses weithredu, ac rydym hefyd yn ystyried effaith y prosiectau a gwblhawyd hyd yma. Bydd yr adroddiad gwerthuso terfynol yn cael ei gwblhau yn 2023 ac yn bennaf bydd yn ceisio darparu asesiad effaith o brosiectau’r EIP a'r cynllun yn ei gyfanrwydd o ran y nodau cyffredinol, y dangosyddion perfformiad, a'r canlyniadau.

1.4 Nod y gwerthusiadau interim a therfynol fydd helpu i lywio’r gwaith cyflawni parhaus a chynlluniau partneriaeth arloesi yn y dyfodol yng Nghymru yn dilyn Brexit drwy ddarparu argymhellion allweddol a gwersi a ddysgwyd.

**Trosolwg o Bartneriaeth Arloesi Ewrop yng Nghymru**

1.5 Yng Nghymru, mae £1.8m ar gael fel cyllid grant uniongyrchol o 100 y cant i gyflawni 46 o brosiectau dros chwe blynedd o 1 Awst 2016 i 30 Mehefin 2023. Mae’r prosiectau hyn yn cael eu darparu gan Grwpiau Gweithredol ac fe’u dyluniwyd i gael eu harwain gan ffermwyr neu goedwigwyr (yn cynnwys grŵp ohonynt yn aml) ar y cyd â rhanddeiliaid eraill fel sefydliadau ymchwil, sefydliadau anllywodraethol, cynghorwyr, neu fusnesau eraill.

1.6 Mae’r cynllun wedi’i ddylunio i gynorthwyo ffermwyr a choedwigwyr (yn bennaf) i gael mynediad at gyllid er mwyn profi technolegau neu syniadau arloesol o fewn eu busnesau mewn modd rheoledig gyda chymorth arbenigwyr. Ar ôl cynnal yr ymchwil dan reolaeth, gall yr arbenigwyr wedyn gynghori cyfranogwyr ar y ffordd orau i roi arferion newydd ar waith yn eu systemau eu hunain. Mae sicrhau bod unrhyw arferion newydd yn cael eu mabwysiadu o fewn systemau cyfranogwyr yn cael ei ystyried yn alluogwr allweddol i gynaliadwyedd yr effeithiau.

1.7 Mae’r cymorth nid yn unig yn cynnwys y cyllid ei hun (caiff uchafswm o £40k ei ddyrannu), ond hefyd gwybodaeth a chyngor ar ddylunio prosiectau drwy’r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth, cymorth gyda gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth drwy Gyswllt Ffermio, a staff ymroddedig (Broceriaid Arloesi allanol a staff wedi’u lleoli ym Menter a Busnes) i hwyluso’r Grwpiau Gweithredol drwy'r broses ymgeisio ac yn ystod oes y prosiect.

1.8 Menter a Busnes sy'n gyfrifol am reolaeth lefel uchel y cynllun, gan gynnwys monitro'r prosiectau a gweithgarwch y Broceriaid Arloesi yn rheolaidd, casglu canlyniadau, a chynorthwyo i gynllunio’r gwaith lledaenu. Mae’r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn darparu ymchwil ategol i ymgeiswyr ar eu syniadau ar gyfer prosiectau, sy'n rhan hanfodol o'r broses arfarnu. Mae’r Broceriaid Arloesi yn cefnogi ymgeiswyr drwy'r broses ymgeisio a byddant yn aml yn arwain ar ysgrifennu'r ceisiadau, er y dylai'r prosiect fod yn seiliedig ar syniadau’r ffermwyr arweiniol. Mae’r Broceriaid Arloesi yn aml yn arwain ar ffurfio’r Grwpiau Gweithredol ac yn gyffredinol mae ganddynt rôl hwyluso bwysig wrth gyflawni prosiectau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni â thrylwyredd gwyddonol digonol. Er bod pob prosiect wedi'i annog i ddefnyddio cymorth Broceriaid Arloesi, mae chwe phrosiect wedi'u cyflawni heb eu cyfranogiad.

1.9 Er mai diben cynllun EIP Cymru yw profi syniadau newydd, (yn yr un modd) ni all y cynllun ariannu ymchwil sylfaenol ac nid yw wedi'i anelu at hynny. Y bwriad yw adeiladu ar ganlyniadau ymchwil presennol i'w cymhwyso ar lefel ymarferol. Rydym yn deall nad oes unrhyw gymorth arall wedi’i dargedu ar gael sy’n annog ffermwyr a choedwigwyr yn benodol i roi cynnig ar ganlyniadau ymchwil ar lefel ymarferol. Drwy sicrhau na ellir defnyddio’r cyllid ar gyfer ymchwil sylfaenol, mae’r ceisiadau a’r prosiectau yn fwy tebygol o fod yn seiliedig ar anghenion ffermwyr a choedwigwyr (yn hytrach na denu ceisiadau gan ymchwilwyr sydd â mynediad at ffrydiau ariannu eraill). Mae hon yn egwyddor allweddol yng nghynllun EIP Cymru. Mae nodweddion dylunio eraill hefyd wedi’u cyflwyno i sicrhau bod yr ymchwil yn cyflawni ar anghenion ffermwyr a choedwigwyr, gan gynnwys maint y grant. (Y dybiaeth yw y byddai ffermwyr/coedwigwyr yn fwy cyfforddus i wneud cais am grantiau cymharol fach, tra byddai llai o gymhelliad i grwpiau ymchwil mwy ymgeisio.) Mae’r EIP yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng canolbwyntio’n bennaf ar brosiectau ymarferol y gall ffermwyr eu rhedeg eu hunain ac yn seiliedig ar eu hanghenion, tra hefyd yn sicrhau digon o drylwyredd gwyddonol i gynhyrchu dysgu y gellir ei gymhwyso ar draws y sector.

1.10 Mae gan Gyswllt Ffermio rôl hollbwysig, gan ddefnyddio ei rwydwaith (yn enwedig y Rhwydwaith Arddangos) i ledaenu canfyddiadau'r prosiectau ymchwil a chysylltu'r prosiectau â gweithgarwch trosglwyddo gwybodaeth arall yn y sectorau hyn yng Nghymru. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau effaith sectoraidd ehangach, gan ledaenu’r

hyn a ddysgwyd o’r prosiectau hyn o ychydig o fusnesau ffermio a choedwigaeth dethol i weddill y sectorau fel bod arferion newydd yn cael eu mabwysiadu’n ehangach.

1.11 Mae pum prif gydran i brosiectau’r EIP, sydd wedi’u crynhoi isod:

1. Hwyluso'r defnydd o syniadau a thechnolegau newydd ar lefel fferm/coetir i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Gall y syniadaeth ddigwydd mewn gwahanol ffurfiau — efallai y bydd y cyfranogwyr yn gwybod am dechnoleg newydd sydd wedi’i datblygu ond nad yw ar gael yn eang ac y gellid ei defnyddio yn eu busnes; fel arall, efallai bod ganddynt broblem nad ydynt yn gwybod sut i'w datrys a gallai prosiect EIP helpu i ddod o hyd i ateb. Rydym hefyd yn deall bod Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo’r cynllun i archwilio rhai prosiectau yn seiliedig ar amcanion strategol penodol.
2. Dod â ffermwyr, coedwigwyr, ymchwilwyr, ymgynghorwyr, a busnesau amaeth o'r un anian ynghyd i weithio ar broblemau cyffredin (h.y. y Grwpiau Gweithredol). Mae angen i Grŵp Gweithredol gynnwys o leiaf ddau ffermwr/coedwigwr o fusnesau ar wahân, sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac wedi'u cofrestru gyda Chyswllt Ffermio, ynghyd ag un aelod arall o sefydliad cysylltiedig, e.e. ymchwilydd, ymgynghorydd neu fusnes amaeth.
3. Darparu gwybodaeth a chyngor i grwpiau ar eu syniadau ar gyfer prosiectau posibl trwy'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys cynnal adolygiad llenyddiaeth ar bob syniad am brosiect i sicrhau ei fod yn briodol ac yn gymwys.
4. Hwyluso ymchwil, h.y. cymorth gan y Brocer Arloesi i gyflawni'r prosiect ymchwil ar y safle.
5. Cyfathrebu syniadau a chanlyniadau prosiectau gyda'r diwydiant ehangach i wella llif gwybodaeth a'r defnydd o dechnolegau newydd. Mae hyn yn cynnwys adran ar wefan Cyswllt Ffermio sydd â’r diben o gynnal gwybodaeth am y grwpiau a chynnydd eu prosiectau ynghyd â diweddariadau sy'n gysylltiedig â’r cyfryngau cymdeithasol i gynyddu'r gwaith lledaenu. Mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu trwy allbynnau ymchwil amrywiol gan gynnwys adroddiadau terfynol, ffeithluniau, fideos, a chyhoeddiadau technegol, ac mae mynediad i’r cyfan ar gael ar y wefan.[1] Mae Rhwydwaith Arddangos Cyswllt Ffermio yn darparu llwyfan i helpu i ledaenu canfyddiadau’r prosiectau, a gofynnir i rai fod yn safleoedd ffocws gan alluogi i’r

[1] Prosiectau Cymeradwy EIP Cymru | Busnes Cymru (llyw.cymru)

lledaenu ddigwydd ar ffurf dilyniant a digwyddiadau agored yn ogystal â thrwy'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, mae Cyswllt Ffermio yn defnyddio'r wybodaeth o'r adroddiadau i ledaenu'r canfyddiadau i'r diwydiant ehangach trwy amrywiaeth o fecanweithiau gan gynnwys gwefan Cyswllt Ffermio, erthyglau technegol, a chyflwyniadau mewn cyfarfodydd a digwyddiadau.

1.12 Mae graffigyn gweledol o theori newid a model rhesymeg y cynllun i'w weld yn Atodiad 2.

1.13 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr ymchwil.
- Mae Pennod 3 yn archwilio'r mathau o fusnesau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn, eu priodoldeb, a'u sbardunau i gymryd rhan.
- Mae Pennod 4 yn asesu perfformiad y cyflawni hyd yma drwy archwilio a yw'r cynllun wedi'i gyflawni yn ôl y bwriad yn ogystal â rhinweddau'r gwahanol agweddau dylunio.
- Mae Pennod 5 yn rhoi adolygiad cychwynnol o'r prosiectau a gyflawnwyd ac yn ystyried eu heffaith ar aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn ogystal ag ar y sector yn ehangach.
- Mae Pennod 6 yn ystyried y gwaith a wnaed i ledaenu'r canfyddiadau hyd yma, effeithiolrwydd y dull gweithredu, ac enghreifftiau o lwyddiant.
- Mae Pennod 7 yn cloi'r adroddiad gyda chyfres o argymhellion.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r gwerthusiad hwn yn cyfuno methodolegau meintiol ac ansoddol, gan ddefnyddio tri math o werthusiad — ar sail theori, proses, ac effaith — yn unol â'r Canllawiau Gwerthuso ar gyfer Prosiectau Cynllun Datblygu Cadwyni Cydweithio a Chyflenwi.[2] Mae ein dull gweithredu hefyd yn gyson â chanllawiau Llyfrau Gwyrdd, Magenta ac Aqua Trysorlys EM. Roedd y cam cyntaf yn bennaf yn defnyddio technegau gwerthuso ar sail theori i adolygu, profi a mireinio'r cysylltiad tybiedig (h.y. y theori / rhesymeg yr ymyriad) rhwng gweithgareddau a gyflawnwyd gan EIP Cymru a'r canlyniadau a'r effeithiau a ragwelir. Roedd y broses hon yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o'r ddogfennaeth graidd a llenyddiaeth ehangach, chwe chyfweliad cwmpasu gyda staff rheoli a chyflawni allweddol, a sesiwn gweithdy Theori Newid. Daeth yr ymchwil i ben wrth sefydlu model rhesymeg Theori Newid ar gyfer EIP Cymru (gweler Atodiad 2), a oedd yn cyflawni swyddogaeth hanfodol wrth gasglu ein dealltwriaeth o'r cynllun, nodi dangosyddion perfformiad a'r cysylltiadau achosol tybiedig rhwng gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau yn ogystal â'r rhwystrau posibl neu ffactorau a allai atal llwyddiant.

2.2 Roedd y cam cwmpasu cychwynnol hefyd yn cynnwys adolygiad desg manwl o brosesau monitro'r cynllun, gan alluogi'r tîm gwerthuso i ddeall y mathau o ddata sy'n cael eu casglu'n fewnol gan swyddogion Llywodraeth Cymru a Menter a Busnes sy'n cyflawni cynllun EIP Cymru. Gyda'i gilydd, roedd hyn yn ein galluogi i nodi pa ddata oedd ei angen o waith maes yr ymchwil werthuso allanol, gan lywio ein proses o ddylunio'r offer ymchwil. Cafodd hyn i gyd ei gasglu mewn Fframwaith Gwerthuso a oedd, fel a lywiwyd gan y Theori Newid, yn amlinellu'r cwestiynau gwerthuso allweddol, y meini prawf dyfarnu i'w defnyddio i fynd i'r afael â'r cwestiynau hynny, a'r dangosyddion a'r data sydd eu hangen i ateb y cwestiynau hynny.

[2] Llywodraeth Cymru, Canllawiau Gwerthuso ar gyfer Prosiectau Cynllun Datblygu Cadwyni Cydweithio a Chyflenwi, tt.8-9, Ionawr 2018.

2.3 Cynlluniwyd holiaduron yr arolwg gan y tîm gwerthuso er mwyn cynnal y gwaith maes gyda'r rhanddeiliaid perthnasol, a oedd yn ymwneud yn bennaf â chasglu adborth gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol.[3] Cawsom restr o 239 o aelodau'r Grwpiau Gweithredol. Defnyddiwyd dull cyfrifiad, gan gysylltu â phob aelod hyd at bum gwaith i gymryd rhan yn ein harolwg ffôn o ganol mis Tachwedd 2021 hyd at ddiwedd Ionawr 2022. Arweiniodd hyn at 84 o ymatebion gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol (yn cynnwys 80 o ffermwyr, tri busnes coedwigaeth, ac un sefydliad arall), sef cyfradd ymateb o 35 y cant. Mae'n bwysig pwysleisio mai manylion cyswllt y ffermwr a'r coedwigwr a oedd yn aelodau o'r Grŵp Gweithredol a gawsom. Yn unol â hynny, gydag un eithriad[4], ffermwyr a choedwigwyr yn unig a ymatebodd i'n harolwg ac, felly, a lywiodd yr adroddiad hwn. Dyma un o'r cyfyngiadau methodolegol o fewn y cyfnod interim, gan fod ein gallu i asesu'r cydweithredu traws-sector a'r manteision i'r rhai nad ydynt yn ffermwyr neu'n goedwigwyr yn gyfyngedig. Fodd bynnag, caiff hyn ei unioni yn y cam gwerthuso terfynol, lle byddwn yn cysylltu ag aelodau eraill o'r Grwpiau Gweithredol (h.y. rhai nad ydynt yn ffermwyr/coedwigwyr) i gasglu eu barn.

2.4 Er bod dull cyfrifiad wedi'i ddefnyddio ar y dechrau, adolygwyd ymatebion pob un o'r 46 o brosiectau ar ôl cysylltu â'r holl fusnesau, gan ein bod yn anelu at sicrhau cynrychiolaeth o gynifer o brosiectau â phosibl yn ein sampl. Ar ôl nodi prosiectau heb unrhyw gynrychiolaeth yn ein sampl, gwnaed ymdrechion pellach i gysylltu â'r aelodau penodol hynny o'r Grwpiau Gweithredol, gan arwain at gael adborth gan 40 o'r 46 prosiect (87 y cant).

2.5 O'r 40 prosiect hynny, cadarnhaodd 30 o ymatebwyr mai nhw oedd y prif ymgeiswyr, a chofnodwyd tri arall yn brif ymgeiswyr yn ein cronfa ddata. Mae ein dadansoddiad o rai cwestiynau wedi cynnwys allosod y canlyniadau ar gyfer ymgeiswyr arweiniol er mwyn cymharu â rhai nad ydynt yn ymgeiswyr arweiniol er mwyn deall i ba raddau'r oedd yr aelodau eraill yn ymwneud â'u Grŵp Gweithredol. Bydd rhai o'r cymariaethau hyn yn cael eu dangos yn yr adroddiad.

2.6 Yn nodweddiadol cawsom adborth gan un neu ddau o aelodau'r Grŵp Gweithredol fesul prosiect (roedd gan 20 o'r 40 prosiect un ymateb ac roedd gan 14 ddau ymateb). Roedd ychydig o brosiectau, fodd bynnag, lle'r oedd nifer o aelodau'r

[3] Mae'r arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol i'w weld yn Atodiad 3.
[4] Ymatebodd un academydd i'r arolwg.

Grŵp Gweithredol wedi ymateb i'r arolwg, gan gynnwys un prosiect lle cafwyd naw ymateb i'r arolwg, un arall lle cafwyd saith ymateb, a dau lle cafwyd chwe ymateb (cafwyd dau ymateb yr un gan y ddau brosiect sy'n weddill). Gallai hyn ystumio'r adborth o'r arolwg sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn oherwydd gallai adborth cadarnhaol neu negyddol yn ymwneud â llwyddiant (neu ddiffyg llwyddiant) y prosiectau hynny effeithio'n anghymesur ar y sampl cyffredinol.

2.7 Yn ogystal, cynhaliom arolwg o'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr, h.y. busnesau a oedd wedi gwneud cais am brosiect neu wedi holi am brosiect ond nad oeddent wedi bwrw ymlaen ag ef.[5] Cawsom 81 o gysylltiadau yn ymwneud â 27 o brosiectau na aeth yn eu blaenau. Gan ddefnyddio'r un dull cyfrifiad ag a amlinellwyd uchod, gwnaethom gysylltu â phob un o'r 81 o unigolion hyd at bum gwaith yr un, gan arwain at 30 o ymatebion — cyfradd ymateb o 37 y cant — a gafwyd rhwng mis Ionawr a chanol mis Chwefror 2022. Roedd y rhain wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng 15 a oedd wedi gwneud ceisiadau aflwyddiannus a 15 a oedd wedi tynnu'n ôl o'r broses ymgeisio. Dylid nodi bod rhai o'r unigolion hyn hefyd wedi cymryd rhan fel aelodau o'r Grŵp Gweithredol mewn prosiectau eraill a gymeradwywyd. Cysylltwyd â nhw beth bynnag i ofyn yn benodol am y prosiect aflwyddiannus a pham nad oedd wedi mynd rhagddo. Bydd nifer fach o ffermwyr felly wedi ymateb i'r arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol a'r arolwg o'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr.

2.8 Cynhaliwyd cyfweliadau ansoddol gyda phedwar aelod o'r tîm cyflawni (Menter a Busnes a Chyswllt Ffermio), 10 o Froceriaid Arloesi[6], a thri rhanddeiliad allanol. Bu hyn yn fodd i driongli'r canfyddiadau gan fusnesau.

2.9 Yn olaf, cynhaliodd y tîm gwerthuso adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth y prosiect, gan gynnwys ffurflenni cais pob un o'r 46 o brosiectau. Roedd hyn yn ein helpu i ddeall nodau, mewnbynnau, model cyflawni, a thargedau pob prosiect ochr yn ochr â'r modd y maent yn cydweddu â'r themâu trawsbynciol. Adolygwyd ffurflenni gwerthuso'r prosiectau a gwblhawyd hefyd er mwyn triongli â chanfyddiadau ein harolwg ar ganlyniadau a pherfformiad cyflawni, a chafwyd data adborth hefyd o ddigwyddiadau lledaenu Cyswllt Ffermio.

[5] Mae'r holiadur a ddefnyddiwyd i'w weld yn Atodiad 4.
[6] Gweler Atodiad 5.


2.10 Gan mai adroddiad interim yw hwn, mae’n bwysig pwysleisio mai canfyddiadau sy’n dod i’r amlwg yn unig y ceisiwn eu cyflwyno yma, gyda dim ond 20 o’r 46 prosiect wedi’u cwblhau ar adeg cyhoeddi’r adroddiad hwn. Mae hyn wedi effeithio ar ein gallu i asesu rhai agweddau ar gyflawni yn fwy nag eraill. Er enghraifft, mae'r broses ymgeisio wedi'i chwblhau ar gyfer pob prosiect; felly, gallwn wneud rhai sylwadau terfynol ar effeithiolrwydd y broses honno. Ar y llaw arall, mae ychydig yn rhy gynnar i asesu'r gweithgarwch lledaenu, gan fod y rhan fwyaf o’r prosiectau yn dal i fynd rhagddynt ar adeg cynnal ein hymchwil. Felly, dim ond mewn perthynas â rhai o'r cydrannau cyflenwi y gallwn gynnig y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, a gallai ein hasesiad terfynol fod yn wahanol.

## 3. Proffil y busnesau a gynorthwywyd

3.1 Yn ôl Arolwg Amaethyddol Cymru (2017), roedd ychydig o dan 25,000 o ffermydd yng Nghymru ar y pryd. Ym mis Hydref 2021, roedd 239 o ffermwyr a choedwigwyr (ffermwyr yn bennaf) wedi bod yn rhan o'r Grwpiau Gweithredol, er bod nifer wedi bod yn ymwneud â mwy nag un prosiect gyda'r Grwpiau Gweithredol, yn cynnwys 385 o aelodau o'r fath wrth gyfrif am gyfranogiad lluosog.[7]

3.2 Mae dosbarthiad daearyddol y ffermydd yn weddol debyg i'r hyn y gellid ei ddisgwyl, gan eu bod wedi'u crynhoi yn ardaloedd awdurdodau mwy gwledig Cymru ac yn dilyn patrwm tebyg i ddosbarthiad yr holl ffermydd ledled y wlad (gweler Ffigur 3.1 isod).

**Ffigur 3.1: Lleoliad daearyddol ymgeiswyr arweiniol EIP Cymru, holl ffermwyr/coedwigwyr y Grwpiau Gweithredol, a holl ffermydd Cymru**




Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro EIP Cymru ac Arolwg Amaethyddol Cymru 2017

3.3 Mae Powys yn cyfrif am y rhan fwyaf o aelodau'r Grwpiau Gweithredol ac ymgeiswyr arweiniol, gan adlewyrchu'r ffaith mai dyma'r sir sydd â'r nifer mwyaf o


[7] Data a ddarparwyd i Wavehill ym mis Hydref 2021.

ffermydd yng Nghymru. Yr eithriad nodedig, fodd bynnag, yw'r gogledd-ddwyrain, lle mae mwy o weithgarwch EIP Cymru nag y gellid ei ddisgwyl (o ystyried nad yw'n ardal sy'n adnabyddus am ffermio). Yn wir, mae tair sir, sef Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam, yn cyfrif am 18 y cant (42/239) o holl aelodau EIP Cymru, er eu bod yn gartref i 10 y cant yn unig o ffermydd Cymru. Yn yr un modd, mae Bro Morgannwg yn cynnwys mwy o weithgarwch nag y gellid ei ddisgwyl, tra bod Sir Benfro hefyd yn cael ei gwasanaethu'n dda gan y cynllun. Ar y llaw arall, mae gan rai ardaloedd yn y gorllewin, megis Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, a Gwynedd, er eu bod ymhlith prif ardaloedd y gweithgaredd, lai o aelodau na'r disgwyl (o ystyried pwysigrwydd amaethyddiaeth yn yr ardaloedd hynny). Yn ogystal, mae 10 o siroedd yng Nghymru[8] sy'n llai adnabyddus am amaethyddiaeth heb unrhyw ran yn y cynllun o gwbl, er eu bod yn cyfrif am 13 y cant o holl ffermydd Cymru.

3.4 Mae Ffigur 3.2 yn dangos bod tri sector wedi bod yn flaenllaw ym mhrosiectau EIP Cymru. Rhyngddynt, mae defaid/geifr ac eidion yn cyfrif am 54 y cant (128/239) o holl ffermwyr/coedwigwyr y Grwpiau Gweithredol, nad yw'n annhebyg i'r 58 y cant a gofnodwyd yn y sector 'gwartheg a defaid' yn Arolwg Amaethyddol Cymru 2017.[9] Y sector llaeth a fu fwyaf cyffredin, gan gyfrif am 38 y cant (90/239) o'r holl ffermwyr sy'n aelodau o Grŵp Gweithredol a hanner yr ymgeiswyr arweiniol (23/46), sy'n llawer uwch na chyfran y sector ledled Cymru — dim ond saith y cant yn 2017. Mae'r pwyslais hwn ar y sector llaeth yn debygol o fod mewn ymateb i rai o'r heriau a wynebwyd gan y sector yn y blynyddoedd diwethaf, gydag anwadalrwydd sylweddol, gostyngiadau mewn prisiau ac, yn gysylltiedig â hyn, dwysáu'r diwydiant llaeth yng Nghymru gan arwain at bryderon amgylcheddol. Mae sectorau eraill, gan gynnwys coedwigaeth, yn cyfrif am lai na 10 y cant (21/239) rhyngddynt. Felly, nid yw cyfansoddiad sectoraidd aelodau'r Grwpiau Gweithredol yr ymgysylltwyd â nhw wedi bod yn gynrychioliadol o'r sector yn ei gyfanrwydd, ac ni ddylai fod ychwaith, lle mae meysydd penodol y mae angen iddynt fod yn fwy arloesol nag eraill. Yn yr un modd, mae'r data'n dangos bod y cynllun wedi ymgysylltu â busnesau o bron i bob un o'r gwahanol is-sectorau o fewn amaethyddiaeth. Yn ôl y tîm cyflawni, yr unig is-sector nad oeddent wedi gallu ymgysylltu ag ef yw'r diwydiant moch.

[8] Y siroedd hyn yw: Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Conwy, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, a Thorfaen.
[9] StatsCymru, Arolwg Amaethyddol Cymru 2017

**Ffigur 3.2: Cyfansoddiad sectoraidd holl ffermwyr/coedwigwyr y Grwpiau Gweithredol**




Ffynhonnell: Gwybodaeth monitro EIP Cymru


3.5 Mae data demograffig arall o fewn gwybodaeth fonitro'r cynllun yn dangos bod 88 y cant (210/239) o ffermwyr/coedwigwyr y Grwpiau Gweithredol yn ddynion (mae'r 12 y cant sy'n weddill yn fenywod), ac mae'r dosbarthiad oedran wedi'i rannu'n weddol gyfartal rhwng y garfan iau (mae 59 y cant (140/239) hyd at 50 oed, gan gynnwys pedwar y cant (9/239) hyd at 24 oed) a'r garfan hŷn (mae 41 y cant (99/239)) yn 50+ oed). Mae'n ymddangos bod hyn yn dangos bod y cynllun wedi ymgysylltu â mwy o ffermwyr iau na'r cyfartaledd o fewn y diwydiant. Er enghraifft, dangosodd adroddiad 'Agriculture in the United Kingdom 2020' fod 36 y cant o ffermwyr y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 65 oed neu'n hŷn ac mai'r oedran canolrifol yw 60 oed.[10] Mewn cymhariaeth, dim ond saith y cant (16/239) o ffermwyr EIP Cymru oedd yn 65 oed neu'n hŷn ar adeg gwneud y cais ac roedd y rhan fwyaf o dan 50 oed.

3.6 Fe wnaethom ofyn rhai cwestiynau ychwanegol yn arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol er mwyn cael dealltwriaeth bellach o'r mathau o fusnesau a gynorthwywyd. Er na allwn fod yn siŵr bod yr ymatebion hyn yn adlewyrchu holl boblogaeth EIP Cymru, maent yn rhoi syniad defnyddiol inni.

[10] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Agriculture in the United Kingdom 2020, 2021

3.7 Yn gyntaf, mae'r arolwg yn awgrymu bod EIP Cymru wedi ymgysylltu â busnesau ffermio mwy na'r arfer. Ar gyfartaledd, roedd y busnesau ffermio a oedd yn ymwneud â'r cynllun yn gweithredu ar 231ha o dir, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 48ha yn unig (yn ôl adroddiad Amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig 2020).[11]

**Ffigur 3.3: Maint y fferm (ha) – cymhariaeth rhwng aelodau'r Grwpiau Gweithredol a'r cyfartaledd cenedlaethol**




Ffynhonnell: Arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=77) ac Agriculture in the United Kingdom 2020[12]

3.8 Mae data trosiant yn datgelu ymhellach fod y busnesau ffermio yn llawer mwy nag sy'n arferol, gydag 84 y cant (62/74) wedi cynhyrchu mwy na £50,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf o gymharu â dim ond 34 y cant ar draws Cymru, yn ôl adroddiad DEFRA, Agriculture in the United Kingdom 2020.[13] Yn wir, y trosiant cyfartalog a adroddwyd gan ymatebwyr yr arolwg oedd tua £514,000, sydd fwy na 10 gwaith cyfartaledd Cymru ar gyfer yr holl incwm arian parod (£44,000).[14]

**Ffigur 3.4: Bandiau trosiant aelodau'r Grwpiau Gweithredol (ffermwyr yn unig)**

[11] Ibid.
[12] Agriculture in the United Kingdom 2020
[13] Ibid.
[14] Ibid.




Ffynhonnell: Arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=74)

3.9 Efallai nad yw hyn yn syndod oherwydd nid yw'r cynllun wedi'i ddylunio ar gyfer mân-ddaliadau, nad oes ganddynt yn aml fuddiannau masnachol cryf (y mathau o sefydliadau sy'n rhan fawr o'r sector). Bwriad y cynllun yw helpu busnesau i wneud eu gweithrediadau yn fwy proffidiol. Felly, byddem yn disgwyl gweld busnesau mwy yn ceisio derbyn y cymorth. Fodd bynnag, efallai bod maint y gwahaniaeth yn awgrymu bod y cynllun wedi'i gyrchu i raddau helaeth gan fusnesau ffermio sy'n gweithredu ar ben arall y sbectrwm — y grŵp bach o fusnesau blaengar, proffidiol sy'n aml yn ceisio arloesi ac sydd efallai eisoes yn rhan o rwydweithiau cymorth. Yn wir, pan drafodwyd hyn gyda'r tîm cyflawni, cydnabuwyd y bydd llawer o'r cyfranogwyr yn perthyn i'r disgrifiad hwnnw, h.y. yr 'wynebau cyfarwydd', er eu bod hefyd yn honni bod y ffermwyr hyn wedi dod â ffermwyr eraill i mewn drwy ddull y Grwpiau Gweithredu na fyddai, efallai, fel arfer yn cymryd rhan yn y mathau hyn o gynlluniau neu'n ceisio arloesi. Yn yr un modd, prif nod y prosiectau hyn yw cynnal treialon cydgysylltiedig a chyhoeddi data a all ddarparu canlyniadau ystyrlon sy'n newid arferion ffermwyr eraill. Gyda hynny mewn golwg, mae ymgysylltu â'r 'mabwysiadwyr cynnar' yn ddull synhwyrol, h.y. ffermwyr sy'n gyfforddus â'r broses arloesi, fel y gellir cynnal treialon cadarn a lledaenu gwybodaeth well i'r sector ehangach.

3.10 Mae data arall o arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn atgyfnerthu'r syniad hwn mai'r wynebau cyfarwydd yw'r rhan fwyaf o'r ffermwyr yr ymgysylltwyd â hwy, gyda 74 y cant (59/80) yn dweud eu bod wedi cael grantiau neu gymorth ariannol eraill


gan Lywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus eraill yn y pum mlynedd diwethaf. Nid yw hyn yn syndod, o ystyried rôl Cyswllt Ffermio wrth roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Roedd busnesau fel arfer wedi derbyn Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (35 y cant; 28/80), Grant Busnes Fferm (31 y cant; 25/80), neu Glastir (11 y cant; 9/80), a chyfeiriwyd at amrywiaeth o grantiau eraill hefyd.

**Model Segmentau Busnes Fferm Llywodraeth Cymru**

3.11 Er mwyn deall ymhellach broffil busnesau fferm sy'n cymryd rhan yng nghynllun EIP Cymru, rhoddodd yr ymchwil ystyriaeth hefyd i Fodel Segmentau Busnes Fferm Llywodraeth Cymru.[15] Mae'r model yn segmentu daliadau fferm Cymru yn seiliedig ar werthoedd a chredoau'r rhai sy'n eu rheoli. Ei fwriad yw cynorthwyo i ddylunio a gweithredu polisïau a rhaglenni drwy ddeall y gwahaniaethau mewn agweddau a chanfyddiadau ar draws gwahanol grwpiau o ffermwyr. Mae'r cwestiynau'n archwilio amrywiaeth o themâu gan gynnwys y gallu i addasu ac arloesi a'r rhwydweithiau a'r cymorth ehangach y mae ffermwyr yn eu defnyddio. At hynny, maent yn archwilio agweddau at gynaliadwyedd amgylcheddol, pwysigrwydd cysylltiad â ffermwyr eraill, a rôl sgiliau a gwybodaeth newydd wrth redeg fferm yn effeithiol. Mae'r model segmentu wedyn yn mapio'r nodweddion hyn yn erbyn pum segment neu glwstwr. Dengys y model segmentu ar y tudalen canlynol (nodir mai yn Saesneg yn unig y mae'r graffigyn hwn ar gael gan iddo gael ei echdynnu ar ffurf darlun o adroddiad Saesneg).


[15] Lee-Woolf, C., Hughes, O., King, G., a Fell, D. (2014) Development of a segmentation model for the Welsh agricultural industry. Adroddiad gan Brook Lyndhurst ar gyfer Llywodraeth Cymru.

## Ffigur 3.5: Model segmentau ar gyfer diwydiant amaethyddol Cymru





Ffynhonnell: Lee-Woolf, C., Hughes, O., King, G., a Fell, D. (2014) Development of a segmentation model for the Welsh agricultural industry. Adroddiad gan Brook Lyndhurst ar gyfer Llywodraeth Cymru.

## Ffigur 3.6: 'Pa mor bwysig yw siarad â ffermwyr eraill fel ffynhonnell gwybodaeth a chyngor i chi'n bersonol?'




Ffynhonnell: Arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=80) a Model Segmentau Busnes Fferm 2014 (n=1,814)


## Ffigur 3.7: 'Faint o ddiddordeb sydd gennych mewn cael mynediad i wybodaeth neu gyngor am ffermio ar y Rhyngrwyd?'




Ffynhonnell: Arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=80) a Model Segmentau Busnes Fferm 2014 (n=1,814)

3.12 Mae Ffigur 3.8 yn dangos y set derfynol o ddangosyddion i'w defnyddio i brofi nodweddion aelodau'r Grwpiau Gweithredol. Mae'n atgyfnerthu rhai o'r sylwadau a wnaed yn flaenorol yn yr adran, sy'n datgelu bod busnesau ffermio'r Grwpiau Gweithredol yn fwy tebygol o fod â gogwydd masnachol (e.e. maent yn fwy tebygol o roi llai o flaenoriaeth i ansawdd bywyd da o blaid sicrhau'r incwm mwyaf posibl o'u fferm, fel sydd i'w weld yn y gosodiad terfynol yn Ffigur 3.8). Er syndod efallai, o ystyried natur y cynllun, nid yw'n ymddangos bod aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn arbennig o dueddol o gydweithio â ffermwyr eraill i wella'r modd y mae eu ffermydd yn cael eu rhedeg — dim ond 76 y cant (61/80) oedd yn teimlo bod cydweithio â ffermwyr eraill yn gwella'r modd y caiff fferm ei rhedeg, sy'n llai na'r 88 y cant sy'n nodi hyn yn genedlaethol. Maent yn cofleidio sgiliau newydd, gwybodaeth a thechnoleg yn fwy nag sy'n arferol (99 y cant (79/80) yn erbyn 85 y cant a oedd yn adrodd hyn yn genedlaethol) ac yn fwy tebygol o fod eisiau defnyddio technolegau newydd ar eu fferm (74 y cant (59/80) yn erbyn 71 y cant a oedd yn adrodd hyn yn genedlaethol). Gyda'i gilydd, mae'r data hyn yn awgrymu bod y grŵp yn gwerthfawrogi ac yn cydnabod yr angen i uwchsgilio a gwella eu gwybodaeth, er eu bod hefyd yn meddwl yn annibynnol.

**Ffigur 3.8: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol?'**




Ffynhonnell: Arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=80) a Model Segmentau Busnes Fferm 2014 (n=1,814)


3.13 Os ydym yn ystyried patrwm y data yn ei gyfanrwydd, gallwn ddatgan yn fras bod y busnesau ffermio sy'n cymryd rhan yn EIP Cymru yn debycach i Glwstwr U (gweler Ffigur 3.5 uchod), sydd, mewn gwirionedd, yn cyfrif am y segment lleiaf yng Nghymru (11 y cant o ffermydd). Mae hwn, wrth gwrs, yn gyffredinoliad eang iawn, a bydd gan bob busnes ei werthoedd a'i gredoau gwahanol ei hun — yn wir, bydd rhai yn agosach at segmentau clystyrau eraill. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi darlun defnyddiol i ddeall a yw'r cynllun wedi denu grŵp penodol o fusnesau, ac mae'r data'n awgrymu bod busnesau â nodweddion penodol wedi'u denu at y cynllun, ac yn gyffredinol nid yw'r rhain yn adlewyrchu'r sector fel cyfanwaith. Maent yn fusnesau mwy na'r cyffredin, sydd fel arfer eisoes yn rhan o rwydweithiau cymorth; mae ganddynt fwy o feddylfryd busnes, ac yn awyddus i ddysgu sgiliau newydd a mabwysiadu technolegau newydd.

**Cymhellion i gael mynediad at gymorth**

3.14 Yn ddiddorol, mae'n ymddangos mai'r arbenigedd a gynigiwyd gan y cynllun, yn hytrach na'r cymhelliad ariannol, oedd y prif ysgogiad ar gyfer cael cymorth gan EIP Cymru, gyda 75 y cant o ymgeiswyr yn dewis hyn fel ysgogiad, o gymharu â dim

ond 42 y cant a ddewisodd yr angen i cael gwared ar y risg o brofi syniad newydd. Mae hyn yn awgrymu bod busnesau yn bennaf eisiau cymorth i'w helpu i dreialu arferion newydd, yn hytrach na dim ond cael gafael ar gyllid a fyddai'n eu galluogi i wneud hynny eu hunain — mae'n ymddangos bod y cymorth hwnnw a gynigwyd wedi bod yn allweddol. Yn ogystal, roedd y cyfle i weithio gyda sefydliadau eraill hefyd yn ysgogiad pwysig i 21 y cant (18/84) o aelodau'r Grwpiau Gweithredol.

**Ffigur 3.9: 'Allwch chi ddisgrifio pam roeddech chi eisiau datblygu prosiect drwy EIP Cymru?'**




Ffynhonnell: Arolwg aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=84) a rhai nad ydynt yn fuddiolwyr (n=30); n=114 yn gyffredinol

# 4. Asesiad o berfformiad cyflawni ac agweddau ar y dyluniad

### Llwybrau at ymgysylltu

4.1 Cyswllt Ffermio oedd yn bennaf gyfrifol am hyrwyddo'r cynllun a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y data lle mai'r brif ffordd y daeth pobl yn ymwybodol o'r cynllun oedd drwy drafod gyda'u Swyddogion Datblygu a gyflogir gan Gyswllt Ffermio. Mae hyn yn gyson â sylwadau'r tîm cyflawni, a esboniodd eu bod yn defnyddio staff "allan yn y maes" sy'n siarad â ffermwyr yn rheolaidd, ac a gyfarwyddwyd i gyfeirio at y cynllun pe bai materion/syniadau perthnasol yn codi mewn sgwrs. Canolbwyntiodd y tîm ar sicrhau bod gan y Swyddogion Datblygu y wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn "parhau i bwysleisio" pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth yn eu trafodaethau gyda ffermwyr.

4.2 Mae pwysigrwydd sianeli Cyswllt Ffermio (clywodd nifer fach am y cynllun drwy gyhoeddiadau Cyswllt Ffermio hefyd) yn esbonio pam fod y cynllun wedi ymgysylltu'n bennaf â busnesau sy'n canolbwyntio mwy ar arloesi ac sy'n aml yn cymryd rhan mewn cynlluniau gwahanol, fel y dangoswyd yn y bennod flaenorol. Yn ôl un o'r rhanddeiliaid: "Pe bai ffermwyr yn gwybod am fynd i ofyn i rywun yng Nghyswllt Ffermio sut [maent] yn cael [eu] syniadau wedi'u hariannu, yna byddent yn dod at EIP yn weddol gyflym." Fodd bynnag, aeth y rhanddeiliad ymlaen i ddweud y byddai ffermwyr nad oeddent yn gymaint o ran o'r rhwydweithiau wedi bod yn llawer llai tebygol o wybod am y cymorth a gallu cael gafael arno. Felly, roedd y dull marchnata rhagweithiol wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i aelodau Cyswllt Ffermio.


4.3 Daeth cyfran fawr o aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn ymwybodol o'r gefnogaeth ar lafar, o bosibl o ganlyniad i'r diddordeb a ddeilliodd o rai o'r prosiectau cynharach:

> "Wrth i'r prosiectau ddechrau sefydlu, roedd yna effaith pelen eira. Roedd yna erthyglau ar y prosiectau [...] roedd pobl yn eu darllen a byddent yn cysylltu â ni - roedd gennym lawer o ffermwyr yn cysylltu â ni yn uniongyrchol ar ôl gweld yr erthyglau." (Aelod o'r tîm cyflawni)

4.4 Felly, er bod y marchnata rhagweithiol wedi'i dargedu'n bennaf at fusnesau a oedd eisoes wedi ymgysylltu â Chyswllt Ffermio, gallai'r cynllun hefyd fanteisio ar randdeiliaid allweddol eraill i godi ymwybyddiaeth mewn meysydd pellach. Eglurodd y tîm cyflawni y byddai aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn aml yn gwahodd cymdogion neu ffrindiau, a allai fod wedi gweithredu y tu allan i'r ecosystem gymorth yn draddodiadol, i ymuno â nhw fel cyd-aelodau o'r Grwp Gweithredol a bod "wynebau newydd" yn cymryd rhan yn y cynllun.

4.5 Roedd gan y Broceriaid Arloesi rôl bwysig o'r cychwyn cyntaf. Cawsant drwydded i amlygu cyfleoedd gan EIP Cymru i'w cleientiaid ac i gyfeirio lle bo angen. Awgrymodd dau randdeiliad fod hyn yn peri risg y gallai'r Broceriaid Arloesi "wthio" prosiectau yn eu blaen er eu budd masnachol eu hunain. Fodd bynnag, gwnaeth un o'r Broceriaid Arloesi wrthddadlau'r pwynt hwn drwy egluro bod y broses ymgeisio ac arfarnu gynhwysfawr wedi darparu'r gwiriadau a'r cydbwysedd priodol. Mae hwn yn sylw dilys, fel y byddwn yn dangos yn yr adran nesaf.

**Ffigur 4.1: 'A allwch ddweud wrthym sut y daethoch yn ymwybodol o'r cymorth?'**





Ffynhonnell: Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol (n=83) a rhai nad ydynt yn fuddiolwyr (n=29); n=112 yn gyffredinol

**Proses ymgeisio a gwerthuso'r prosiectau**

4.6 Roedd gwneud cais am gymorth gan y cynllun yn broses hir, gan gynnwys yr ymholiad cychwynnol, ffurfio Grŵp Gweithredol, derbyn adolygiad llenyddiaeth i sicrhau bod y maes ymchwil yn briodol, amlinelliad o'r prosiect ac yna'r cais llawn, a phroses adolygu gadarn yn ymgorffori gwiriadau pellach gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth a'r sgôr terfynol yn cael ei ddarparu gan Banel Adolygu (gweler y graffigyn isod). Fe'i disgrifiwyd gan un o'r Broceriaid Arloesi fel proses "aeddfed a thryloyw iawn" a oedd yn caniatáu i'r prosiectau gael eu hasesu ar sail wyddonol a thechnegol gyda chyfle i wneud sylwadau ac addasiadau lle bo angen.


**Ffigur 4.2: Amlinelliad o chwe cham y broses ymgeisio ac arfarnu**




4.7 Mae natur gynhwysfawr y broses yn golygu y gellir ei disgrifio fel un 'gadarn', gyda'r fantais o sicrhau bod y prosiectau yn gredadwy ac yn haeddu buddsoddiad. Yn yr un modd, mae hefyd yn golygu nad yw'n broses hygyrch i ffermwyr ei harwain. Am y rheswm hwn, mae rôl y Broceriaid Arloesi wedi bod yn hanfodol wrth helpu neu hyd yn oed arwain y broses o ysgrifennu ceisiadau a chyllidebu, ac agweddau eraill ar y broses ymgeisio. Roedd yr ymgeiswyr arweiniol a enwyd (ffermwyr) ac a ymatebodd i'n harolwg yn fodlon ar y cyfan â'r prosesau mynegi diddordeb,

ymgeisio ac arfarnu, gyda 78 y cant (21/27) yn nodi eu bod naill ai'n 'fodlon iawn' neu 'rywfaint' yn fodlon, ac wrth egluro eu rhesymau, cyfeiriodd y sylwadau yn aml at y gefnogaeth gan y Broceriaid Arloesi a sut roeddent wedi cymryd y baich oddi arnynt. Er nad oedd yn syndod bod y rhai nad oeddent yn fuddiolwyr yn llai bodlon â'r broses (dim ond 38 y cant (11/29) oedd yn fodlon iawn neu rywfaint yn fodlon), mae'n ddiddorol nodi eu bod hwythau hefyd yn fwy cadarnhaol na negyddol (gweler Ffigur 4.3), er bod eu cais wedi ei wrthod. Mae hyn yn awgrymu ymhellach fod y broses ymgeisio a gwerthuso wedi bod yn effeithiol.

**Ffigur 4.3: 'Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi wedi bod â'r prosesau Mynegi Diddordeb, y cais a'r prosesau arfarnu?'**




Ffynhonnell: Aelodau o'r Grwpiau Gweithredol – ymgeiswyr arweiniol (n=27) a rhai nad ydynt yn fuddiolwyr (n=29); cyfanswm o n=56

4.8 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr arweiniol (17/27; 63 y cant) na fu unrhyw rwystrau yn y broses, gyda llawer yn egluro nad oeddent wedi cymryd rhan ynddi. Yn wir, pan holwyd yn benodol am y cymorth gan y Broceriaid Arloesi i fireinio syniadau am brosiectau a datblygu amlinelliad a chais y prosiect, rhoddodd 12 (92 y cant) o'r 13 o ymatebwyr y sgôr uchaf o fod yn 'fodlon iawn' â'r elfen hon, a nododd chwech (46 y cant) yn benodol yn eu sylwadau bod eu Brocer Arloesi wedi bod "yn gyfrifol", fel y dywedodd un, am y broses honno.[16] Dywedodd dau ymatebydd (15 y cant) hefyd na fyddent wedi gallu ymgymryd â'r broses eu hunain am nad oedd ganddynt yr amser. Yn ôl un Brocer Arloesi:

[16] Dim ond 13 a ymatebodd i'r cwestiwn dilynol hwn oherwydd ei fod wedi'i bennu gan y cymorth penodol a gawsant gan Froceriaid Arloesi; hynny yw, dim ond yr ymatebwyr a oedd yn cofio derbyn cymorth gan Frocer Arloesi i fireinio syniadau ar gyfer prosiectau a datblygu amlinelliad o'r prosiect a chais a atebodd y cwestiwn hwn.

> “Dydw i ddim yn meddwl y byddai unrhyw un o'r prosiectau rydw i wedi bod yn gweithio arnyn nhw wedi'u cyflawni heb i rywun eu cynorthwyo. Roedd y broses ymgeisio yn canolbwyntio’n fawr ar gyllid yr Undeb Ewropeaidd. Roedd yn teimlo'n go glogyrnaidd. Roedd yn rhaid i chi ddweud y pethau iawn yn y lleoedd iawn. ” (Cyfweliad â Brocer Arloesi)

4.9 Y risg gyda dull gweithredu o’r fath sy’n dibynnu gymaint ar Froceriaid Arloesi, lle y bu’r Broceriaid Arloesi mewn llawer o achosion yn arwain y broses ymgeisio heb fawr o fewnbwn gan aelodau’r Grŵp Gweithredol, yw bod y prosiectau wedi’u siapio yn ôl gweledigaeth y Broceriaid Arloesi ac yn seiliedig ar eu syniadau hwy yn hytrach na rhai aelodau’r Grŵp Gweithredol. Yn yr un modd, mae yna gwestiwn o degwch. Nid yw pob Brocer Arloesi mor fedrus wrth ddatblygu ceisiadau ag eraill; felly, mae'n bosibl y byddai unigolion sydd â'r Broceriaid Arloesi mwy profiadol neu wybodus wedi bod â mantais o ran sicrhau buddsoddiad. Yn wir, amlygodd pedwar o’r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr a ymatebodd i’n harolwg eu bod yn teimlo eu bod wedi’u siomi / bod angen rhagor o arbenigedd arnynt yn ystod y cam ymgeisio:

> “Mae’r broses yn anodd iawn. Nid oedd yn teimlo bod llawer o gymorth i wneud cais amdano. Fe wnaethom ni hyn ein hunain ac roedd yn anodd ac yn heriol gwneud hynny. Rwy’n meddwl y gallai’r broses gael ei symleiddio neu gallai fod cymorth ar gael, gan nad oedd dim.” (Arolwg o’r rhai nad ydynt yn fuddiolwr)

4.10 Y pryder arall yw'r diffyg detholusrwydd yn y dull gwerthuso a dethol. Deallwn fod pob prosiect a oedd yn gallu dangos eu bod yn gymwys wedi derbyn buddsoddiad. Eglurodd y tîm, er y gallent fod wedi cyflwyno ffenestri ariannu a sgorio ymgeiswyr yn erbyn ei gilydd i’w wneud yn fwy cystadleuol, eu bod yn teimlo nad oedd angen hynny, o ystyried eu bod eisoes yn sicrhau trawstoriad priodol o brosiectau, ac y byddai’n haws rheoli’r broses ar sail dreigl. Serch hynny, gallai cael proses fwy cystadleuol a sylfaen fawr o syniadau i ddewis o’u plith fod wedi codi ansawdd a chanlyniadau posibl y prosiectau hyd yn oed ymhellach.

**Y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth**

4.11 Cafodd yr agwedd hon o’r prosiect dderbyniad da gan ymgeiswyr, gyda naw o’r 18 ymgeisydd arweiniol a ymatebodd i’r cwestiwn perthnasol yn ein harolwg (50 y cant) yn nodi bod y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth wedi bod yn ‘ddefnyddiol iawn’, a phump arall (28 y cant) yn nodi y bu’n 'ddefnyddiol' (rhoddodd y pedwar arall

ymateb niwtral). Esboniodd sawl ymatebwr fod adroddiadau'r adolygiad llenyddiaeth yn llawn gwybodaeth ac yn ateb popeth yr oedd ei angen arnynt. Dywedodd eraill nad oeddent wedi talu llawer o sylw iddynt, ond roedd yn galonogol gwybod eu bod yno pe bai eu hangen arnynt a dywedent eu bod wedi bod yn bwysig i'w partneriaid neu'r Broceriaid Arloesi wrth ddatblygu'r prosiect. Nododd dau ymatebwr y byddent wedi gwerthfawrogi cael adroddiad mwy hygyrch, h.y. fersiwn gryno / wedi'i gyflwyno mewn iaith gliriach:

> “Ni wnes i a’r ffermwyr eraill dalu cymaint â hynny o sylw i’r adroddiad, gan ei fod yn rhy hir ac yn academaidd iawn. Eglurodd ein milfeddyg lleol y pethau pwysig i ni ac roedd yn ymddangos yn eithaf defnyddiol, ond ni allaf gofio cymaint â hynny amdano.” (Arolwg o aelodau’r Grwpiau Gweithredol)

4.12 Roedd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth ran bwysig i'w chwarae o ran llywio'r broses arfarnu a sicrhau bod y prosiectau'n seiliedig ar waith ymchwil presennol. Roedd ganddynt rôl sylfaenol a oedd yn mynd y tu hwnt i gefnogi aelodau’r Grwpiau Gweithredol a chyflawniad y prosiectau yn uniongyrchol — roeddent yn darparu gwasanaeth dilysu hollbwysig ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y tîm cyflawni craidd. Ar wahân i’r rôl ddilysu, mae’n ymddangos bod eu dylanwad ar siapio prosiectau a’u cyflawniad parhaus wedi bod yn fwy cymysg; nododd y Broceriaid Arloesi yn gyffredinol eu bod wedi defnyddio rhywfaint o’r wybodaeth yn y broses ymgeisio ond nad oeddent wedi’i defnyddio rhyw lawer wedi hynny:

> “Nid oedd yn arbennig o bwysig. Fe wnaethom ni gyfeirio ati. Efallai ei bod wedi dylanwadu ychydig ar y meysydd y byddech yn edrych arnynt o fewn y prosiect. Ac wedyn dydw i ddim yn gwybod a wnaethom ni gyffwrdd â hi ers hynny.” (Cyfweliad â Brocer Arloesi)

**Cyflawni drwy'r Grwpiau Gweithredol a hwyluso ymchwil**

*Canfyddiadau cyffredinol o’r cymorth*

4.13 Ar y cyfan, roedd aelodau’r Grwpiau Gweithredol yn fodlon iawn â'r cymorth a dderbyniwyd wrth gyflawni'r prosiectau, gydag 83 y cant (70/84) yn nodi eu bod yn 'fodlon iawn' neu 'rywfaint' yn fodlon a dim ond pedwar y cant (3/84) yn anfodlon. Bu’r ymgeiswyr arweiniol yn fwy bodlon nag aelodau eraill y Grwpiau Gweithredol, sydd efallai ddim yn syndod o ystyried bod y prosiectau’n cael eu treialu ar

safleoedd yr ymgeiswyr arweiniol a hwy sy’n debygol o ymgysylltu’n bennaf â’r tîm cymorth, er y gallai fod yn arwydd nad oedd gan yr aelodau eraill gymaint o ran yn y prosiectau.

4.14 Gan egluro'r rhesymau dros y sgorau uchel, cyfeiriodd 31 o'r 80 (39 y cant) at y cyfathrebu a'r wybodaeth “ragorol” a ddarparwyd gan y tîm cymorth gan nodi eu bod yn ymatebol iawn i ymholiadau ac yn rhoi argymhellion. Roedd llawer o'r sylwadau'n cyfeirio at allu'r darparwyr cymorth i reoli a threfnu eu prosiectau'n effeithiol. Amlygodd aelodau’r Grwpiau Gweithredol fod eu cyfarfodydd grŵp / gyda’r Broceriaid Arloesi wedi’u trefnu’n dda, bod y cyfathrebu’n glir drwyddo draw, bod eglurder o ran yr hyn a ddisgwylir ganddynt a sut y byddai’r treialon yn cael eu cynnal, e.e. o ran casglu samplau neu rannu data. Cyfeiriodd y sylwadau eto at y modd yr oedd y staff cymorth wedi cymryd y baich oddi arnynt drwy helpu ac arwain ar y gwaith papur. Mae’r sylwadau hyn yn dangos pwysigrwydd y rôl hwyluso, lle’r oedd y tîm cymorth wedi cymryd llawer o’r cyfrifoldeb am gydlynu a chyflawni’r prosiectau:

“Mae’r gefnogaeth wedi bod yn wych drwyddi draw. Roedd y prosiect a sut roedd yn gweithio wedi'u gosod allan yn dda iawn ac esboniwyd pob agwedd yn glir gydag amserlen realistig. Roedd y gefnogaeth i leihau faint o waith papur yr oedd yn rhaid i ffermwyr ei wneud yn wych.” (Arolwg o aelodau’r Grwpiau Gweithredol)

“Cafodd popeth am y prosiect ei gyfathrebu’n glir ac yn effeithlon. Cawsom y wybodaeth yr oedd angen i ni ei gwybod ac ni chawsom ein gorlwytho â geirfa dechnegol. Roedd pob agwedd ar y prosiect wedi'i threfnu'n dda (o'r cyfarfodydd i'r profion i [...] gael y canlyniadau). (Arolwg o aelodau’r Grwpiau Gweithredol)

“Roedd y ddau arbenigwr y buon ni’n gweithio gyda nhw yn wych ac fe wnaethon ni ddysgu llawer ganddyn nhw. Ar wahân i wybodaeth weithredol/arbenigol, roedd y cymorth a gawsom i sicrhau ein bod yn cadw o fewn y gyllideb a goruchwylio’r cyllid grant sydd ar gael yn dda iawn.” (Arolwg o aelodau’r Grwpiau Gweithredol)

4.15 Er bod y sylwadau’n ymwneud yn bennaf â gwerth y cymorth hwyluso, siaradodd 16 o ymatebwyr (20 y cant) am werth yr arbenigedd sydd ar gael iddynt. Roedd hyn yn cwmpasu ystod eang o wahanol feysydd, gydag enghreifftiau o arbenigwyr yn rhoi cyngor ar faethiad defaid a mesurau ataliol i leihau salwch a heintiau anifeiliaid, a chyfeiriodd llawer at y cyngor defnyddiol a dderbyniwyd gan filfeddygon, e.e. o ran eu harferion sganio gwartheg.

*Cymorth hwyluso*

4.16 Yn yr arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol, fe wnaethom holi am y gwahanol agweddau ar y cymorth hwyluso, o gymorth gyda dylunio'r prosiectau i ddechrau a sefydlu'r Grŵp Gweithredol i gyflawni'r prosiectau eu hunain. At hynny, gofynnwyd am y cymorth gan y gwahanol bartneriaid cyflawni. Dylid cydnabod bod rhywfaint o hyn wedi'i gyfyngu gan ddealltwriaeth aelodau'r Grwpiau Gweithredol o bwy sy'n cyflawni beth; fodd bynnag, mae'n bwysig archwilio byrdwn cyffredinol yr adborth.

4.17 Dim ond 17 o'r 28 o ymgeiswyr arweiniol (61 y cant) a ddywedodd eu bod wedi cael cymorth gan Frocer Arloesi. Dengys data monitro Llywodraeth Cymru fod 40 o'r 46 prosiect (87 y cant) yn cynnwys Brocer Arloesi. Gallai'r anghysondeb gael ei egluro naill ai gan rôl lai gweithredol y Broceriaid Arloesi mewn rhai prosiectau gan arwain at ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith yr ymgeiswyr arweiniol, neu ddiffyg ymgysylltiad neu ymwybyddiaeth gan yr ymgeiswyr arweiniol eu hunain.

4.18 Ymatebodd un ar bymtheg o fusnesau i'r cwestiwn ynglŷn â'r cymorth gan Frocer Arloesi i helpu i ffurfio'r Grŵp Gweithredol, gyda chwech (38 y cant) yn dweud eu bod wedi trefnu'r Grŵp Gweithredol eu hunain neu gyda phartner. Gwnaeth pob un o'r naw a gafodd gymorth gan y Broceriaid Arloesi i wneud hyn roi sgôr a oedd yn nodi eu bod yn 'fodlon iawn', gan egluro eu bod yn gallu defnyddio eu gwybodaeth arbenigol, gan gynnwys un enghraifft lle daeth y Brocer Arloesi o hyd i filfeddyg yn Nyfnaint sy'n arbenigo ym maes defaid godro.

4.19 Ymatebodd 14 busnes arall i'r cwestiwn ynghylch cymorth parhaus gan Froceriaid Arloesi i gyflawni'r prosiectau, gyda 12 (86 y cant) yn rhoi'r sgôr uchaf sef 'bodlon iawn' a'r ddau arall yn dweud eu bod 'rywfaint yn fodlon'. Nododd ymatebwyr fod y Broceriaid Arloesi yn drefnus, "yn cadw rheolaeth ar y gwaith papur", yn darparu "cyngor aruthrol" nad oedd "yn rhy dechnegol ac yn gwneud popeth yn hawdd i mi ac aelodau eraill o'r Grŵp Gweithredol ei ddeall", a sicrhawyd bod y prosiectau'n cael eu cyflawni yn ôl y bwriad (e.e. trefnu'r amserlen brofi a'r amseru o amgylch casglu'r sampl). Esboniodd ymatebwr arall y bu rôl y Brocer Arloesi yn hanfodol wrth gydlynu gweithgarwch dros y cyfnod cyflawni:

> "Oherwydd ei fod dros ddwy flynedd, roedd angen y strwythur i allu parhau â'r prosiect a sicrhau bod pawb yn symud ar yr un cyflymder er mwyn gallu cymharu â'n gilydd i weld sut y gellid monitro gwahanol ddulliau (trin â chalch, er enghraifft) a gallem i gyd ddysgu a datblygu o'r gwahanol ddulliau gweithredol

sy'n cael eu defnyddio ar draws gwahanol aelodau'r grŵp." (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

4.20 Dywedodd pob un ond un a ymatebodd i'r arolwg a oedd yn gyfarwydd â mewnbwn y Brocer Arloesi i'w prosiect fod eu Brocer Arloesi yn meddu ar yr arbenigedd perthnasol i ddiwallu'u hanghenion er mwyn cyflawni'r prosiect. Mae hyn yn dangos ymhellach y lefel uchel o fodlonrwydd â chymorth y Broceriaid Arloesi ac yn awgrymu bod y cynllun wedi paru Broceriaid Arloesi a phrosiectau priodol yn effeithiol.

4.21 Roedd busnesau a oedd wedi ymwneud yn barhaus â Menter a Busnes a'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn gyffredinol yn ystyried bod eu cymorth hwy hefyd yn ddefnyddiol, gydag wyth o'r 16 (50 y cant) a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn nodi ei fod yn 'ddefnyddiol iawn' a thri arall yn nodi ei fod 'rywfaint yn ddefnyddiol'. Y rhesymau nodweddiadol a roddwyd oedd bod y cymorth yn hygyrch, gyda phedwar yn amlygu ei bod yn "dda gwybod y gallwn alw arnynt os oes angen", a chyfeiriodd eraill at enghreifftiau penodol fel y cymorth gan Fenter a Busnes wrth fynd drwy gostau, yn ogystal â'r cymorth i sicrhau estyniad yn ystod pandemig COVID-19. Rhoddodd eraill sgôr niwtral, gan egluro nad oeddent wedi cael llawer o gysylltiad â nhw neu ei fod wedi digwydd drwy eu Brocer Arloesi.

4.22 At hynny, roedd cytundeb cyffredinol lle gofynnwyd i fusnesau a oedd arbenigwyr EIP Cymru (a fyddai'n cynnwys Broceriaid Arloesi a chymorth gan Menter a Busnes a'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth) wedi darparu cyngor a chymorth effeithiol i roi arferion newydd ar waith yn eu systemau — roedd 38 y cant (29/76) yn cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn ac roedd 41 y cant (31/76) yn cytuno i raddau. Cyfeiriodd yr ymatebwyr eto at y wybodaeth a'r cyngor rhagorol a ddarparwyd gan staff "gwybodus", a oedd yn gallu esbonio iddynt beth oedd angen iddynt ei wneud drwy gydol y broses:

"Roedd gan y milfeddyg a fu'n cynghori drwy gydol y prosiect ddealltwriaeth wych o'r mater a beth oedd y ffordd ymarferol orau o ddatblygu rhaglen brofi a brechu." (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

"Maen nhw wedi egluro pa laswellt oedd orau ar ein math ni o fferm, cyfraddau stocio, defnydd o wrtaith, a rheoli maetholion." (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

4.23 I grynhoi, dywedodd aelodau'r Grwpiau Gweithredol eu bod yn fodlon iawn gyda'r cymorth hwyluso a ddarparwyd ar gyfer eu prosiect EIP. Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf wedi cael cymorth i ddatblygu'r Grŵp Gweithredol ac yn fodlon iawn â'r elfen honno, a chofnodwyd lefelau uchel o foddhad ar gyfer y cymorth i gyflawni'r prosiectau hefyd. Yn gyffredinol, mae aelodau'r Grwpiau Gweithredol wedi bod yn fodlon iawn ar arbenigedd a gwybodaeth eu Broceriaid Arloesi.

*Rôl y Brocer Arloesi a'r opsiynau hwyluso*

4.24 Mae data monitro a ddarparwyd i Wavehill yn dangos mai ymgynghorwyr ADAS[17] a weithredodd fel Broceriaid Arloesi ar gyfer hanner y prosiectau (23/46), ac mai ymgynghorwyr Landsker[18] oedd y Broceriaid Arloesi ar gyfer naw prosiect arall. Kite Consultancy[19] oedd wedi ymgymryd â rôl y Broceriaid Arloesi ar gyfer tri phrosiect, ac AgriPlan Cymru[20] a gyflawnodd y swyddogaeth ar gyfer tri phrosiect arall. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cynrychioli rhai o'r cwmnïau ymgynghori blaenllaw sy'n gwasanaethu'r sectorau amaethyddol a choedwigaeth yng Nghymru.

4.25 Datgelwyd yn ystod cyfnod cwmpasu ein gwerthusiad fod EIP Cymru wedi rhoi mwy o bwyslais ar rôl Broceriaid Arloesi nag oedd yr achos yn llawer o wledydd eraill Ewrop. Roedd gan aelodau o dîm cyflawni EIP Cymru a gymerodd ran yn ein hymgynghoriad cwmpasu cychwynnol ddiddordeb mewn archwilio'r gwerth am arian a ddarperir gan swyddogaeth y Broceriaid Arloesi. Eglurwyd mai rôl hwyluso sydd gan y Brocer Arloesi yn bennaf ac eto maent yn derbyn "ffi ymgynghorydd". Yn unol â hynny, rydym wedi archwilio cwestiynau ynghylch gwerth rôl y Brocer Arloesi ac opsiynau gwahanol posibl mewn trafodaethau â'r tîm cyflawni, rhanddeiliaid, ac aelodau'r Grwpiau Gweithredol.

4.26 Roedd rhai rhanddeiliaid allanol ac aelodau'r tîm cyflawni yn cwestiynu a ddylai cymaint o'r cyllid fynd i ymgyngoriaethau, gan nodi y byddai'n well i'r arian fynd yn uniongyrchol i'r ffermwyr a'r busnesau coedwigaeth sy'n ymwneud â phrosiectau'r EIP. Awgrymodd un o'r rhanddeiliaid allanol mai'r rheswm pam fod y rôl hwyluso'n angenrheidiol ar hyn o bryd yw bod y broses "mor fanwl", ac mai'r ateb ddylai fod symleiddio'r broses. Y model a ffafriwyd ganddynt oedd cael proses syml y gallai ffermwyr ei rheoli eu hunain; felly, gallai unrhyw fuddsoddiad o'r cynllun gael ei

[17] ADAS yw un o'r cwmnïau ymgynghori amaethyddol ac amgylcheddol mwyaf yn y Deyrnas Unedig.
[18] Landsker yw un o'r cwmnïau ymgynghori busnes mwyaf blaenllaw yng Nghymru.
[19] Mae Kite yn darparu gwasanaethau ymgynghori i ffermio a diwydiannau cysylltiedig.
[20] AgriPlan Cymru

ddargyfeirio i ffermwyr yn uniongyrchol. Yr anhawster gyda'r model hwn fel ateb yw y byddai'n tanseilio cadernid a natur dechnegol bresennol y broses o arfarnu prosiectau, gan effeithio felly ar drylwyredd y prosiectau a gyflawnir a'r canlyniadau a geir. Byddai'r math hwn o ymagwedd yn tanseilio prif nod y cynllun yn ddifrifol, sef profi arferion newydd a chreu canlyniadau cadarn y gellir eu lledaenu ledled y sector.

4.27 Mae'r model presennol yn sicrhau strwythur a thrylwyredd gwyddonol i'r prosiectau a ariennir ac yn cael gwared ar y baich ar ffermwyr drwy ddefnyddio'r Broceriaid Arloesi. Anfantais y dull hwn yw faint o ddylanwad sydd gan y Broceriaid Arloesi wedyn wrth gyflawni'r prosiectau. Mae hyn yn dangos bod manteision ac anfanteision i bob un o'r gwahanol ddulliau.

4.28 Cyn belled ag y mae aelodau'r Grwpiau Gweithredu yn y cwestiwn, roeddent yn gwerthfawrogi cymorth y Broceriaid Arloesi. Gwnaethom ddatgelu yn adran 2.2 mai'r arbenigedd a gynigir gan y cynllun oedd yr elfen bwysicaf i fusnesau, yn hytrach na'r cymhelliad ariannol, ac mae aelodau'r Grwpiau Gweithredol wedi bod yn fodlon iawn â chymorth y Broceriaid Arloesi, fel a ddangoswyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn. At hynny, roedd 70 y cant (31/44) yn cytuno'n gryf ei bod yn bwysig cael Brocer Arloesi i helpu i gyflawni eu prosiect, ac roedd 23 y cant arall (10/44) yn cytuno 'rywfaint' â'r gosodiad hwnnw. Eglurodd busnesau fod ganddynt rôl hollbwysig wrth drefnu'r prosiectau gydag amserlenni a chynlluniau gweithredu clir, datblygu'r broses brofi, sicrhau bod ffermwyr yn gwybod pryd i gasglu samplau, a helpu ffermwyr i ddeall y data. Amlygwyd ymhellach bod gan y Broceriaid Arloesi y profiad a'r arbenigedd sydd eu hangen i gyflawni'r mathau hyn o brosiectau, ac aeth pum ymatebydd mor bell â dweud na fyddai eu prosiectau wedi bod yn bosibl heb y Broceriaid Arloesi.

"Nhw yw'r rhai i gydlynu'r prosiect cyfan. Buont yn cyfathrebu rhwng y safleoedd (a oedd yn eithaf gwasgaredig), yn drafftio adroddiadau, yn trefnu'r diwrnodau agored (a ddenodd gefnogaeth dda), yn cynorthwyo ac yn cyflenwi'r offer angenrheidiol." (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

"Gwnaeth y cwmni a oedd yn gwneud y prosiect 75 y cant o'r gwaith. Dyfrio a gofalu am y letys a'r bwydydd egsotig wnaethom ni." (Arolwg o aelodau'r Grŵp Gweithredol)

4.29 Yn gyffredinol, priodolwyd pwysigrwydd rôl y Broceriaid Arloesi i'r gwaith roeddent yn ei wneud yn rheoli'r prosiectau a threfnu'r cyflawni. Roedd y sylwadau'n canolbwyntio ar y themâu hynny'n llawer amlach nag ar y gofynion o ran arbenigedd y Broceriaid Arloesi. Am y rheswm hwnnw, cyfeiriodd rhai aelodau o'r tîm cyflawni at fodel gwahanol lle byddai tîm canolog mwy o swyddogion prosiect a allai gyflawni'r rôl hwyluso ar gyfradd ratach.

4.30 Mae dau gwestiwn i'w hystyried yma. Y cyntaf yw a oes angen y rôl hwyluso — mae'r dystiolaeth a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn sicr yn awgrymu bod ei hangen. Mae'r ail gwestiwn yn ymwneud â phwy ddylai ddarparu'r rôl hwyluso. Mae'n bosibl y gallai swyddogion prosiect wedi'u hariannu'n ganolog ddarparu'r gwasanaeth ar gyfradd ratach, er bod ymgynghorwyr allanol yn debygol o gynnig mwy o brofiad (roedd y Broceriaid Arloesi y buom yn siarad â hwy yn brofiadol iawn yn hyn o beth) ac, felly, efallai y byddent mewn sefyllfa well i gyflawni prosiectau o fewn y strwythur sydd ei angen. Yn ogystal, cafwyd enghreifftiau lle bu'r arbenigedd a ddarparwyd gan y Broceriaid Arloesi yn hollbwysig, e.e. i ddod o hyd i ysglyfaethwyr naturiol neu roi cyngor ar gloffni.

4.31 Mae'r modelau gwahanol ar gyfer cyflawni'r prosiectau wedi'u crynhoi mewn tri opsiwn posibl isod: llwybr 'dim hwyluso' yw'r cyntaf, cynllun wedi'i hwyluso'n ganolog yw'r ail, a'r trydydd yw'r sefyllfa bresennol gan ddefnyddio Broceriaid Arloesi wedi'u comisiynu'n allanol. Mae gan bob un ei fanteision a'i anfanteision, fel y nodwn isod. Efallai mai'r sefyllfa ddelfrydol mewn cynlluniau yn y dyfodol fyddai ystyried model hybrid rhwng Opsiynau 2 a 3, lle mae'r prosiectau mwy 'syml' yn cael eu darparu gan swyddogion prosiect wedi'u cyflogi'n ganolog, a'r rhai mwy cymhleth, sy'n galw am gymorth arbenigol, yn cael eu comisiynu'n allanol.

**Tabl 4.1: Opsiynau model cyflawni ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol**

| Opsiwn 1: Dim cymorth hwyluso a phrosesau ysgafn | Opsiwn 2: Tîm canolog yn darparu cymorth hwyluso | Opsiwn 3: Cymorth hwyluso yn cael ei ddarparu gan Froceriaid Arloesi |
|---|---|---|
| **Manteision**<br>• Sicrhau bod y prosiect yn cael ei arwain gan ffermwyr<br>• Y buddsoddiad yn mynd yn uniongyrchol i ffermwyr<br>**Anfanteision**<br>• Risg o gefnogi prosiectau amhriodol (e.e. sydd eisoes wedi'u cynnal yn rhywle arall)<br>• Nid yw'r prosiectau'n cael eu darparu'n ddigon trylwyr, felly nid yw'r canlyniadau'n ddibynadwy<br>• Y ffermwyr yn cael trafferth rheoli'r llwyth gwaith | **Manteision**<br>• Yn fwy trwyadl nag Opsiwn 1 oherwydd prosesau cadarn a chymorth hwyluso<br>• Gellir darparu cymorth hwyluso yn fwy darbodus<br>• Mwy o reolaeth gan y tîm canolog i sicrhau nad yw prosiectau yn cael eu dylanwadu gan agendâu allanol<br>**Anfanteision**<br>• Ni chaiff prosiectau eu hwyluso mor effeithiol<br>• Ni all y tîm cymorth ddarparu'r un lefel o arbenigedd | **Manteision**<br>• Caiff prosiectau eu hwyluso gan ddarparwyr mwy profiadol<br>• Mynediad at arbenigedd i wella prosiectau ymhellach<br>• Prosiectau mwy trylwyr a chanlyniadau effeithiol<br>**Anfanteision**<br>• Yn fwy costus i'w gyflawni<br>• Mwy o risg o danseilio'r dull a arweinir gan ffermwyr |

*Dull o'r brig i lawr yn hytrach nag o'r gwaelod i fyny*

4.32 Dyluniwyd y cynllun i gael ei gyflawni gan ffermwyr a choedwigwyr ac yn seiliedig ar eu syniadau drwy ddull o'r gwaelod i fyny. Amlygodd llawer o aelodau'r Grwpiau Gweithredu bwysigrwydd dull a arweinir gan ffermwyr o fynd i'r afael â'r cynlluniau hyn, gan nodi bod gwneud hynny'n helpu i sicrhau bod modd gweithredu'r nodau, ei fod "yn ei wneud yn fwy perthnasol i'r realiti masnachol ar lawr gwlad", a'u bod mewn gwell sefyllfa i wybod beth fyddai'n gweithio ar eu fferm. Roedd pedwar deg pump o'r ymatebion (56 y cant) yn canolbwyntio ar y themâu hyn. Yn ogystal, esboniodd naw o ymatebwyr fod hyn yn helpu i sicrhau effaith waddol, gan y byddai ffermwyr yn fwy tebygol o gynnal yr arferion, a helpu i sicrhau cefnogaeth gan ffermwyr a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect, yn ogystal â themtio ffermwyr eraill i fabwysiadu'r arferion eu hunain:

"Roedd amcanion y prosiect yn ymarferol iawn, gan ei fod yn cael ei arwain gan y ffermwyr. Roeddem yn gwybod am y rhwystrau a'r anawsterau a wynebwyd gennym wrth geisio cael mynediad i'r gadwyn gyflenwi leol a gwerthu ein cynnyrch

yn lleol, felly [roeddem] yn gwybod pa faterion yr oedd angen i'r prosiect ganolbwyntio arnynt." (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

"Mae ffermwyr yn fwy tebygol o fod yn gefnogol i'r prosiect [oherwydd] eu bod yn ymddiried mewn ffermwyr yn fwy nag mewn ymgynghorwyr a swyddogion y llywodraeth. Mae ganddyn nhw hefyd well dealltwriaeth o'r problemau maen nhw'n eu hwynebu a'r ffordd orau i'w datrys." (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

4.33 Ar y llaw arall, amlygwyd hefyd pa mor bwysig oedd cael rhai prosiectau yn seiliedig ar syniadau rhanddeiliaid eraill oherwydd ei fod yn eu galluogi i ddefnyddio eu gwybodaeth yn well:

"Cafodd syniad y prosiect ei ddatblygu a'i gyflwyno gan y milfeddyg lleol. Roedd hyn yn golygu bod gennym ni arweinydd a oedd yn deall ymarferoldeb archwiliadau a phrofion iechyd ar ffermydd a'r manteision y byddai ffermwyr yn eu cael o wella iechyd yr anifeiliaid." (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

4.34 Ar y cyfan, nododd aelodau'r Grwpiau Gweithredol fod y prosiectau wedi'u seilio ar eu syniad hwy, gyda 38 y cant (30/78) yn cytuno'n 'gryf' a 33 y cant (26/78) yn cytuno 'rywfaint' â'r gosodiad hwn (cyfanswm o 72 y cant), tra bod naw y cant (7/68) yn anghytuno, gan ddweud bod y syniad yn perthyn i'r Brocer Arloesi neu'r milfeddyg:

"Cafodd y prosiect ei arwain gan ymgynghorydd ac nid y ffermwyr. Fe ddaethon nhw atom ni gyda'r syniad am brosiect." (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

4.35 Amlygodd un Brocer Arloesi fod dau o'u prosiectau wedi'u hawgrymu gan Lywodraeth Cymru ac mai eu rôl nhw oedd rheoli'r prosiectau ac ymgysylltu ag aelodau'r Grwpiau Gweithredol i fod yn rhan ohonynt. Roedd y rhain wedi'u hawgrymu oherwydd eu bod yn brosiectau strategol a oedd yn archwilio technolegau a allai helpu ffermwyr i ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau'r arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol, lle dywedodd lleiafrif bach nad oedd y prosiectau'n seiliedig ar eu syniad hwy.

4.36 Gyda'i gilydd, mae ein dadansoddiad yn dangos bod y prosiectau wedi'u llunio'n gyffredinol drwy ddull o'r gwaelod i fyny, er bod rhai o'r adnoddau wedi'u defnyddio ar gyfer prosiectau mwy strategol drwy ddull o'r brig i lawr.

4.37 Cafwyd ymateb ychydig yn fwy cymysg o ran cyflawni'r prosiectau, er bod y rhan fwyaf o aelodau'r Grwpiau Gweithredol (66 y cant; 51/77) yn dal i honni eu bod yn

cael eu harwain gan y ffermwyr/coedwigwyr. Gwyddom o dystiolaeth arall, fodd bynnag, fod gan y Broceriaid Arloesi rôl arweiniol mewn llawer o achosion. Yn wir, nid oedd tri o'r 33 o ymgeiswyr arweiniol y siaradasom â hwy yn ymwybodol mai nhw oedd y prif ymgeiswyr. Datgelodd cwestiynau pellach nad yw'n ymddangos bod y rhan fwyaf o aelodau nad ydynt yn arwain wedi ymgysylltu'n helaeth â'u Grwpiau Gweithredol, gyda 55 y cant (30/55) yn nodi nad oeddent yn gyfarwydd o gwbl â maint y prosiect (h.y. lefel y cyllid) a 58 y cant (32/55) yn nodi nad oeddent yn ymwybodol o sut y gwariwyd y cyllid.

4.38 I grynhoi, mae'r graddau y gellir disgrifio prosiectau fel rhai o'r brig i lawr neu o'r gwaelod i fyny yn amrywio o brosiect i brosiect, yn dibynnu ar ba mor rhagweithiol oedd aelodau'r Grwpiau Gweithredol a'r Broceriaid Arloesi a sut y daethant i fodolaeth. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau wedi'u cychwyn gan ffermwyr a choedwigwyr ac yn seiliedig ar eu hanghenion hwy, ond gyda chymorth helaeth gan y Broceriaid Arloesi i'w cyflawni.

*Maint y grant*

4.39 Mae maint y grant, gydag uchafswm o £40,000, yn llawer llai nag mewn cynlluniau EIP eraill yn y rhan fwyaf o wledydd a rhanbarthau eraill ledled Ewrop. Esboniodd y tîm cyflawni ei fod wedi'i ddylunio i sicrhau ei fod yn ddigon bach i ffermwyr a choedwigwyr ei reoli ac i annog sefydliadau mawr i beidio ag ymgeisio am y grant a 'chymryd yr awenau', ond yn ddigon mawr i sicrhau y gallai'r prosiectau fod yn drylwyr a darparu canlyniadau ystyrlon.

4.40 Roedd y mwyafrif helaeth o aelodau'r Grwpiau Gweithredol (78 y cant; 60/77) yn credu bod maint y grant 'fwy neu lai'n iawn', tra bod ychydig llai nag un rhan o bump (17 y cant; 13/77) yn meddwl ei fod yn rhy fach a'r pump y cant arall (4/77) yn meddwl ei fod yn rhy fawr. Yn ogystal, gofynnwyd y cwestiwn hwn i'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr, gyda phob un ond un (26/27) yn nodi eu bod yn credu bod maint y grant 'fwy neu lai'n iawn', gan awgrymu nad oedd maint y cyllid yn broblem sy'n atal busnesau rhag cymryd rhan.

4.41 Awgrymodd rhanddeiliaid fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i ddiben strategol y grantiau hyn, gyda dau yn ei ddisgrifio fel "cyllid sbarduno", h.y. bod y cynllun yn gyfle i brofi nifer o brosiectau gwahanol am gost gymharol isel, ond roeddent yn nodi efallai bod dolen goll o ran yr hyn sy'n digwydd nesaf. Dadleuwyd y dylid neilltuo cronfa ar wahân ar gyfer y prosiectau mwyaf llwyddiannus i'w cyflawni ar

raddfa fawr ac, wrth wneud hynny, agor y prosiectau o rai sy'n effeithio'n uniongyrchol ar lond llaw o ffermwyr i rai a allai gefnogi cannoedd.

*Cydweithio*

4.42 Mae tystiolaeth yr arolwg yn awgrymu bod y prosiectau, ar y cyfan, wedi'u cyflawni ar y cyd, a oedd yn egwyddor allweddol i'r cynllun o ran cael dull gweithredu traws-sector wedi'i arwain gan Grwpiau Gweithredol. Roedd peth pryder ynghylch a fyddai cael ymrwymiad gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol ar bapur drwy'r broses ymgeisio yn cael ei wireddu'n ymarferol. Datgelodd yr arolwg fod 82 y cant (62/76) yn cytuno â'r gosodiad bod 'y Grŵp Gweithredu yn gweithio'n dda gyda'i gilydd', gyda llawer yn nodi y byddent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd fel tîm, wedi'u hwyluso gan y Brocer Arloesi:

"Mae'n rhaid i chi gwestiynu ac ymdrin ag arbenigwr yn eu maes ac ymdrin hefyd â gwahanol asiantaethau, a oedd yn rhan greiddiol o'r grŵp i mi; i rannu eich canfyddiadau ac os oedd gennych unrhyw gwestiynau, roedd yr arbenigwyr bob amser wrth law i gynnig cymorth ac arweiniad - dyma oedd y rhan orau." (Arolwg o aelodau'r Grŵp Gweithredol)

4.43 Amlygwyd sawl enghraifft o gydweithrediadau traws-sector gan y Broceriaid Arloesi a'r tîm cyflawni. Bu cydweithio cadarnhaol rhwng y ffermwr arweiniol ac academydd o Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn y prosiect pori ucheldir, bu'r RSPB yn ymwneud yn helaeth â'r prosiect Porfa i Beillwyr, ac mae milfeddygon wedi bod yn ymwneud yn agos â rhai o'r prosiectau iechyd anifeiliaid (lle maent wedi rhoi cyngor i ffermwyr ar y grŵp). Dim ond rhai o'r enghreifftiau a amlygwyd i ni yw'r rhain — mae enghreifftiau pellach i'w gweld yn y rhestr o brosiectau a amlinellir yn Atodiad 6.

4.44 Roedd enghreifftiau eraill lle na fu cymaint o gydweithio nac ymgysylltu gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol. Yn wir, disgrifiodd aelodau'r tîm cyflawni a'r Broceriaid Arloesi ddarlun amrywiol iawn:

"Aruthrol o amrywiol. Enghreifftiau da lle mae aelodau nad ydynt yn ffermwyr wedi bod yn rhagweithiol, e.e. cymryd rhan wirioneddol mewn trafod canlyniadau, gan [helpu] i nodi data, ac ati. Gydag eraill, ni fyddai rhai aelodau nad ydynt yn ffermwyr yn gwybod beth mae'r prosiect wedi'i wneud." (Cyfweliad â Brocer Arloesi)

4.45 Eglurodd un Brocer Arloesi, lle'r oedd aelodau'r Grŵp Gweithredol wedi'u "llusgo i mewn" neu fod y prosiectau "yn cael eu gwneud ar eu rhan", nid oedd ganddynt ddiddordeb o gwbl mewn ymgysylltu, ond os oeddent hwy'n allweddol o ran symbylu'r prosiect, roeddent yn cymryd llawer mwy o ran. Mae'n ymddangos bod gan y Broceriaid Arloesi rôl hanfodol i'w chwarae o ran annog ymgysylltiad gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol, a nododd y tîm cyflawni eu bod yn ailadrodd yn barhaus bwysigrwydd sicrhau bod pob aelod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf:

"Mae gen i gymysgedd o grwpiau. Mae gen i ffermwyr sy'n wirioneddol ymgysylltu [...] Mae dal yn rhaid i mi wthio a gwthio a gwthio i'w cael i gwrdd a chyflawni'r hyn maen nhw eisiau ei wneud [...] Mae gen i ddau brosiect arall lle na wnaeth y ffermwyr, mewn gwirionedd, feddwl am y syniad ar y cyd yn llawn. Maen nhw eisiau bod yn rhan o'r prosiect, ond rydych chi'n ceisio eu dal gyda'i gilydd drwy'r amser a doedden nhw ddim. Nid yw llawer o'r ffermwyr hynny'n bobl a fyddai'n gofyn am gymorth yn naturiol. Rydyn ni wedi eu nodi drwy ffynonellau eraill ac maen nhw wedi dweud [y byddent] yn hoffi bod yn rhan o'r prosiect hwn ond wedyn heb ymgysylltu." (Cyfweliad â Brocer Arloesi)

4.46 Mae'r data'n dangos lefel uchel o fodlonrwydd â chyfansoddiad y grwpiau o ran y cymysgedd o arbenigedd - roedd 86 y cant (67/78) yn cytuno bod eu Grŵp Gweithredol yn cynrychioli cymysgedd priodol o arbenigedd. Mae hyn yn dangos ymhellach y rôl effeithiol a chwaraeir gan Froceriaid Arloesi wrth reoli'r broses o sefydlu'r Grwpiau Gweithredol.

### Rheolaeth gyffredinol cynllun Partneriaeth Arloesi Ewrop

4.47 Mae'r cynllun wedi'i reoli gan y tîm cyflawni craidd ym Menter a Busnes, sy'n cynnal cyfarfodydd diweddaru rheolaidd gyda'r Broceriaid Arloesi i fonitro'r cynnydd a wnaed ar y prosiectau a chynllunio'r gweithgarwch lledaenu. Roedd y Broceriaid Arloesi yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'u dull gweithredu, gan nodi bod y tîm wedi cydlynu gweithgarwch yn effeithiol, wedi arwain ar sicrhau bod grŵp da o brosiectau'n cael eu dwyn ynghyd, a'u bod yn "ymroddedig" iawn yn eu rôl.

### Heriau a meysydd i'w gwella

4.48 Efallai nad yw'n syndod mai'r brif her a nodwyd gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol oedd pandemig COVID-19, gyda 28 o ymatebwyr yn disgrifio sut roedd wedi achosi oedi, yn aml oherwydd diffyg mynediad at brofion labordy, ac ni allai'r Grwpiau

Gweithredol ar y cyfan gwrdd am gyfnodau hir chwaith. Ceisiodd y tîm cyflawni fynd i’r afael â’r mater olaf hwn drwy drefnu galwadau fideo, er ein bod yn deall nad oedd y rhain bob amser yn effeithiol oherwydd sgiliau TG gwael, band eang gwael, a’r anallu i ddangos newidiadau ffisegol. At hynny, cyfeiriodd rhai at yr aflonyddwch a achoswyd i’r cyflawni a'r effaith ar y prosiect, e.e. lle na ellid bwrw ymlaen ag ymweliadau a drefnwyd neu lle bu'n rhaid iddynt ddefnyddio sampl llai o ganlyniad i bandemig COVID-19.

4.49 Cyfeiriodd deg o’r ymatebwyr (13 y cant) at heriau ymarferol fel dod o hyd i offer neu faterion yn ymwneud â’r tywydd, a chyfeiriodd wyth at yr effaith ar eu capasiti. Yn gysylltiedig â hyn, cyfeiriodd dau ymatebwr yn benodol at rwystredigaeth yn sgil diffyg tâl am eu hamser, a chyfeiriodd tri at ddiffyg ymgysylltiad gan aelodau eraill o’r Grŵp Gweithredol (gan gynnwys un a esboniodd na fyddai aelodau eraill yn ymgysylltu oherwydd yr ymrwymiadau amser heb gael eu had-dalu):

“Cael y ffermwyr i barhau i fod yn ymrwymedig i’r prosiect, gan iddynt ddechrau rhoi’r gorau iddi ar ôl blwyddyn o brosiect tair blynedd. Roedd ffermwyr eraill yn meddwl fy mod yn wallgof yn gwneud y prosiect yma, gan na chefais fy nhalu am fy amser, neu’r tir a neilltuwyd ar ei gyfer, a dyna pam y gwnaethant ddechrau rhoi’r gorau iddi, gan nad oeddent am fuddsoddi eu hamser a’u llafur ynddo [...] heb unrhyw dâl am eu gwasanaethau.” (Arolwg o aelodau’r Grwpiau Gweithredol)

4.50 Mae hyn yn gyson â sylwadau a wnaed gan dîm y prosiect a nifer o randdeiliaid allanol. Mae’n ymwneud eto â’r pryder bod gormod o’r buddsoddiad yn disgyn i ddwylo ymgynghorwyr ac nad oes digon yn mynd i’r ffermwyr. Fodd bynnag, er bod y tîm a’r rhanddeiliaid yn meddwl y gallai hyn fod yn broblem, dim ond tri o'r 80 o sylwadau (pedwar y cant) gan aelodau’r Grwpiau Gweithredol oedd yn ymwneud â hyn pan ofynnwyd iddynt am y prif heriau o ran cyflawni. Yn ogystal, pan ofynnwyd yn uniongyrchol iddynt am y gwelliannau y byddent am eu gweld, dim ond pedwar o'r 80 sylw a amlygodd yr angen i dalu ffermwyr am eu hamser. Mae hyn yn debygol oherwydd eu bod wedi gallu defnyddio’r Broceriaid Arloesi ac agweddau eraill ar y seilwaith cymorth i dynnu llawer o’r pwysau cyflenwi oddi arnynt eu hunain. Gellid dadlau, o ystyried bod y treialon yn cael eu cynnal ar eu ffermydd hwy a bod y cynllun yn nodweddiadol yn buddsoddi yn eu syniadau hwy, nad yw’n annheg disgwyl i aelodau’r Grwpiau Gweithredol fuddsoddi rhywfaint o’u hamser heb gael tâl amdano.

4.51 Roedd heriau eraill yn cynnwys pum busnes yn nodi y dylai fod gwell cyfathrebu ynghylch y canlyniadau ymhlith aelodau'r Grŵp Gweithredol, a nododd saith yr hoffent weld proses ymgeisio symlach. Y prif ymateb (33/80), fodd bynnag, oedd na fu unrhyw heriau o bwys o gwbl. Yn ogystal, pan ofynnwyd i'r rhai a nododd heriau a allai'r prosiect fod wedi gwneud unrhyw beth i fynd i'r afael â'r heriau, y prif ymateb oedd bod y tîm wedi gwneud popeth o fewn eu gallu, neu fod natur yr heriau yn golygu eu bod allan o reolaeth y tîm. (31/45).

4.52 Nodwn fod un Brocer Arloesi wedi awgrymu y dylai fod mwy o waith wedi'i wneud i ddysgu oddi wrth gynlluniau eraill yr EIP ledled Ewrop a rhwydweithio â hwy. Mae hwn yn bwynt pwysig oherwydd nodwyd yn nogfennaeth cynllun EIP Cymru y dylid annog y Grwpiau Gweithredol i gysylltu â grwpiau eraill ar draws yr Undeb Ewropeaidd sy'n gweithio ar themâu tebyg. Deallwn nad yw'r gweithgaredd hwn wedi digwydd ac, felly, mae'n cynrychioli un gwendid yn y ddarpariaeth hyd yma.

4.53 Amlygodd aelod arall o'r tîm cyflawni fod y dewis o Froceriaid Arloesi wedi'i gyfyngu i'r rhai a oedd yn rhan o System Gynghori Cyswllt Ffermio, ac y bu rhai enghreifftiau o brosiectau lle byddai wedi bod yn ddefnyddiol mynd y tu allan i'r fframwaith hwnnw. Yn yr un modd, awgrymodd Brocer Arloesi fod rhywfaint o amrywiaeth yn ansawdd y gwahanol Froceriaid, ac efallai nad oedd rhai o'r safon ofynnol; yn unol â hynny, awgrymwyd y dylai fod gwell proses sgrinio ar waith.


4.54 Mae awgrymiadau eraill eisoes wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad, gan gynnwys y modelau cyflawni gwahanol mewn perthynas â'r cymorth hwyluso (dim hwyluso neu wedi'i ddarparu gan dîm canolog), yn ogystal â buddsoddi mewn prosiectau mwy strategol neu gyda chronfa ar wahân i gynyddu graddfa'r gweithgarwch.

## 5. Adolygiad o'r prosiectau a gyflawnwyd a'u heffaith

5.1 Ceir amlinelliad llawn o'r 46 o brosiectau a ariannwyd yn Atodiad 6 yr adroddiad hwn. Mae'n dangos yr amrywiaeth sylweddol yn y prosiectau a gefnogwyd, gan gynnwys cynhyrchu cnydau, iechyd anifeiliaid, maetheg, arferion rheoli gan gynnwys defnyddio technolegau newydd (e.e. chwynwyr robotig, ffotoneg, tracio GPS, a phrofion genomig), rheoli slyri, datblygu marchnad newydd, gwarchod rhag lladrata, a llawer mwy.

5.2 Amlinellwyd prif themâu'r prosiectau yng ngwybodaeth fonitro'r cynllun ac maent i'w gweld yn Ffigur 5.1 isod. Mae'n dangos bod yr ystod o brosiectau yn cwmpasu bron i bob rhan o'r sector. Fel y gallem ddisgwyl, o ystyried cymaint y mae'n dominyddu mewn amaethyddiaeth yng Nghymru, mae'r sector cig coch yn thema mewn 49 y cant o brosiectau (22/45), tra bod 42 y cant (19/45) yn cynnwys ffocws ar laeth. Mae'r siart hefyd yn dangos bod 24 y cant (11/45) o brosiectau yn cynnwys elfen a allai helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd (e.e. drwy fwy o gynnyrch, cynhyrchu mwy effeithlon a chynaliadwy, lleihau llygredd slyri), a bod 38 y cant (17/45) yn cynnwys gwelliannau i arferion busnes (e.e. drwy gynhyrchu arbedion effeithlonrwydd, cynyddu perfformiad, cyfleoedd cadwyn gyflenwi, asesu hyfywedd economaidd cyfleoedd marchnad newydd, ac ati) fel thema, a bod 29 y cant yn cynnwys ffocws ar fioamrywiaeth.

**Ffigur 5.1: Y themâu a restrwyd ar gyfer pob prosiect yn nata monitro EIP Cymru**




Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro EIP Cymru (n=45)

*Amcanion strategol*

5.3 Mae amrywiaeth eang y prosiectau hyn yn ganlyniad i’r dull agored, dan arweiniad ffermwyr, a fabwysiadwyd ar gyfer y cynllun. Er bod hyn wedi galluogi'r cynllun i archwilio ystod eang o faterion, roedd rhai rhanddeiliaid allanol yn cwestiynu a fyddai dull gwasgaredig o'r fath yn helpu i arwain at effeithiau strategol. Fodd bynnag, nodwn fod y dull gweithredu wedi bod yn gyson â’r amcan strategol cyffredinol o feithrin arloesedd yn y sector gan ddefnyddio dull dan arweiniad ffermwyr, gyda phrosiectau’n cael eu cyflawni yn seiliedig ar eu syniadau a’u hanghenion.

5.4 Roedd yn rhaid i’r ymgeiswyr arweiniol ddangos yn eu cais at ba rai o flaenoriaethau Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014–2020 yr oedd eu prosiect yn cyfrannu atynt. Dyma oedd eu hymateb:

- Roedd 45/46 (98 y cant) yn cyfrannu at Flaenoriaeth 1: Meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi mewn amaethyddiaeth ac ardaloedd gwledig
- Roedd 44 (96 y cant) yn cyfrannu at Flaenoriaeth 2: Gwella cystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth a gwella hyfywedd ffermydd
- Roedd 32 (70 y cant) yn cyfrannu at Flaenoriaeth 3: Hyrwyddo trefniadaeth cadwyni bwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth
- Roedd 27 (59 y cant) yn cyfrannu at Flaenoriaeth 4: Adfer, cadw a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth
- Roedd 33 (72 y cant) yn cyfrannu at Flaenoriaeth 5: Hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi’r symudiad tuag at economi carbon isel sy’n gallu dygymod â’r newid yn yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth.

5.5 Mae hyn yn dangos sut y cyflawnodd y prosiectau yn erbyn nodau craidd y cynllun, h.y. gwneud busnesau ffermio a choedwigaeth yn fwy cystadleuol ac yn fwy proffidiol drwy arloesi, ac roedd y rhan fwyaf o geisiadau hefyd yn cynnwys elfen o greu buddion amgylcheddol.

5.6 At hynny, roedd y data monitro yn cynnwys gwybodaeth am synergeddau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan amlygu bod:

- 22 (48 y cant) o'r prosiectau yn cyd-fynd â'r nod o greu 'Cymru lewyrchus'
- 11 (24 y cant) yn cyd-fynd â'r nod o greu 'Cymru gydnerth'
- 9 (20 y cant) yn cyd-fynd â chreu 'Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang'
- 7 (15 y cant) yn cyd-fynd â chreu 'Cymru iachach'.

*Lefel arloesedd a'r gallu i gyflwyno ar raddfa fwy*

5.7 Gofynnwyd cwestiwn i'r ymgeiswyr arweiniol er mwyn canfod lefel arloesedd eu prosiect. Dim ond chwech o'r 26 o ymatebwyr a nododd fod y prosiect yn seiliedig ar arfer newydd yn y sector, gyda 20/26 (77 y cant) yn nodi ei bod yn arfer newydd yng Nghymru / yr ardal. Felly, bu'r prosiectau'n ymwneud yn bennaf â chymhwyso arferion o fannau eraill a phrofi sut maent yn gweithio ar ffermydd a safleoedd coedwigaeth Cymru. Mewn rhai achosion, er nad oedd y dechnoleg ei hun yn arloesol, roedd cymhwyso'r dechnoleg o dan yr amgylchiadau hynny yn newydd a defnyddiwyd y cynllun i brofi pa mor gost-effeithiol yw gwneud hynny.

5.8 Pwysleisiodd y tîm cyflawni, y Broceriaid Arloesi a rhanddeiliaid allanol bwysigrwydd cael eglurder ynghylch yr hyn a olygir gan arloesi, ac roeddent yn ffafrio diffiniad ehangach, h.y. iddo fod yn newydd i'r busnesau sy'n rhan o'r Grŵp Gweithredu. Mae hyn i ryw raddau yn cael ei bennu gan y rheoliadau ariannu, nad oedd yn caniatáu ar gyfer buddsoddi mewn ymchwil sylfaenol; felly, ni ellid arloesi yn ei ystyr puraf. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i'r prosiectau ddangos nad oedd yr ymchwil wedi'i chymhwyso yng Nghymru o'r blaen.

5.9 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid ac aelodau'r tîm cyflawni'n credu bod ystod briodol o brosiectau wedi'u dewis. Roeddent yn ceisio cael cydbwysedd rhwng buddsoddi mewn syniadau a oedd nid yn unig yn arloesol ond hefyd yn ymarferol ac yn gallu cael eu cyflwyno ar raddfa fwy. Mae'n ymddangos bod y ffaith eu bod wedi'u seilio'n bennaf ar syniadau ffermwyr wedi sicrhau eu bod yn gogwyddo mwy tuag at ochr ymarferol / modd eu cyflwyno ar raddfa fwy y sbectrwm, tra bu grŵp llai o brosiectau sydd efallai'n fwy anghonfensiynol. Er enghraifft, os ydym yn ystyried y prosiect 'EIP4 - Lleihau gwrthfiotigau mewn defaid', mae'n enghraifft gref o brosiect ymarferol sy'n canolbwyntio ar leihau'r defnydd o wrthfiotigau a, thrwy hynny, leihau costau drwy archwilio dewisiadau eraill. Mae gan y prosiect y potensial i ddangos

manteision clir y gellir eu cyflwyno ar raddfa fwy a'u mabwysiadu ymhellach gan ffermwyr defaid eraill. Ar y llaw arall, mae prosiect 'EIP42 - Planhigion egsotig' yn archwilio'r cyfle i dyfwyr yng Nghymru arallgyfeirio trwy dyfu cnydau arbenigol. Efallai bod hyn yn fwy arloesol, er bod risg uwch na fyddai'n gweithio ac nid yw mor hawdd i'w gyflwyno ar raddfa fwy.

*Cynnydd prosiectau*

5.10 Ni fu llawer o amrywiaeth o ran maint y prosiectau. Mae'r data'n dangos y dyfarnwyd y swm llawn i 11 o'r 46 o brosiectau, a dyfarnwyd o fewn pump y cant o'r swm llawn (h.y. o leiaf £38,000) i 31 arall. At hynny, dim ond pedwar prosiect a gafodd lai, gydag un yn derbyn ychydig dros £25,000, un arall ychydig dros £30,000, a dau yn cael o £36,000–£38,000.

5.11 Mae adolygiad o ddyddiadau terfynu'r prosiectau yn awgrymu bod 20 o'r 46 wedi'u cwblhau erbyn diwedd 2021, tra bod 20 arall i fod i ddod i ben erbyn Mehefin 2022 a disgwylir i'r chwech arall ddod i ben ddiwedd 2022 / dechrau 2023. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd 14 o'r 46 prosiect yn rhedeg ar ei hôl hi (yn bennaf oherwydd COVID-19), a chofnodwyd bod 30 'ar y trywydd iawn' a disgwylir i'r ddau arall gael eu cyflawni ar amser (er gwaethaf materion yn ymwneud â'r pandemig).

5.12 Dywedodd ychydig yn llai na hanner (47 y cant; 39/83) o aelodau'r Grwpiau Gweithredol a holwyd fod eu prosiectau wedi'u cwblhau ar adeg cynnal yr arolwg. I'r rhai a oedd wedi cwblhau eu prosiectau, gofynnwyd nifer o gwestiynau dilynol am y canlyniadau. Roedd y mwyafrif helaeth (72 y cant; 23/32) o aelodau'r Grwpiau Gweithredol a oedd wedi cwblhau eu prosiectau yn 'cytuno'n gryf' bod eu prosiect wedi bod yn llwyddiant (roedd 16 y cant arall (5/31) yn cytuno 'rywfaint' â'r datganiad hwn), yn bennaf gan eu bod wedi cael canlyniadau cadarnhaol. Yn wir, pan ofynnwyd iddynt, roedd 50 y cant o'r ymatebwyr yn 'cytuno'n gryf' a 34 y cant arall yn 'cytuno rywfaint' eu bod wedi derbyn y manteision yr oeddent yn gobeithio y byddai'r prosiectau'n eu creu. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys lleihau'r defnydd o wrthfiotigau, lleihau salwch a haint trwy brofion, dangos budd ariannol profion genetig, ac ati. Roedd nifer fach o sylwadau, efallai gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol nad oedd yn ymwneud gymaint, yn awgrymu nad oeddent wedi cael gwybod am y canlyniadau; felly, dylai'r cynllun sicrhau bod holl aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn cael eu hysbysu.

5.13 Gall prosiectau nad ydynt wedi gallu dangos arferion gwell ond sy'n dangos yn bendant nad yw syniad yn gweithio hefyd gael eu disgrifio fel llwyddiannau. Er enghraifft, cyfeiriodd un aelod o'r tîm cyflawni at brosiect 'EIP6 - Cynhyrchu Sêr (Squill)', a dreialodd y broses o dyfu sêr ar ffermydd yng ngogledd Cymru a chanfod nad oedd hyn yn gweithio oherwydd ei bod yn anodd cael gafael ar fylbiau had er mwyn manteisio ar eu tyfu'n fasnachol. Mae'r canfyddiadau hyn yr un mor bwysig â chanfyddiadau'r prosiectau 'llwyddiannus' ac yr un mor bwysig o ran ochr ledaenu'r cynllun i atal ffermwyr eraill rhag buddsoddi mewn pethau y dangoswyd eisoes eu bod yn anhyfyw.

**Canlyniadau ar gyfer aelodau'r Grwpiau Gweithredol**

5.14 Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (57 y cant; 46/81) eu bod wedi newid arferion yn eu busnes o ganlyniad i'r prosiect, tra bod 25 y cant arall (20/81) wedi ateb 'Ddim eto', gan awgrymu y gallent wneud hynny yn y dyfodol. O ystyried bod llai na hanner y prosiectau wedi'u cwblhau ar y pryd, gyda llawer o aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn dal i aros am ganlyniadau o'u prosiectau, gallwn dybio'n ddiogel y bydd y ffigur o 57 y cant yn cynyddu ymhellach. Yn wir, gofynnwyd y cwestiwn hwn hefyd i aelodau'r Grwpiau Gweithredol a oedd wedi cwblhau eu prosiectau yn 'Ffurflen werthuso diwedd prosiect EIP Cymru' — o'r 35 o ymatebion, dywedodd 24 (69 y cant) eu bod wedi gwneud newidiadau o ganlyniad i'r prosiect. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â gwella technegau ffermio (25 ymateb), gwelliannau iechyd anifeiliaid (12 ymateb), a defnyddio profion i lywio penderfyniadau (saith ymateb). Mae hwn yn ganfyddiad allweddol sy'n datgelu bod y rhan fwyaf o'r ffermwyr a choedwigwyr sy'n ymwneud â'r cynllun wedi gwneud newidiadau diriaethol.

5.15 Yn ogystal, dywedodd 54 y cant (25/46) o'r ymatebwyr eu bod wedi gallu cynhyrchu incwm newydd neu leihau costau o ganlyniad i'r prosiect, tra bod 41 y cant arall (19/46) wedi ateb 'Ddim eto'. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd i gefnogi'r honiadau hyn yn cynnwys gostyngiad yn eu defnydd o feddyginiaeth a thriniaethau, gostyngiad mewn lefelau haint, cloffni, a gwastraff cnydau, cynnydd mewn ffrwythlondeb, a mwy. Darparodd naw o ymatebwyr (20 y cant) amcangyfrifon o'u harbedion cost. Ar gyfartaledd, dywedodd busnesau fod cyllid y prosiect wedi arbed ychydig dros £5k yr un y flwyddyn iddynt:

“Bydd £100 bob pum wythnos yn cael ei arbed drwy beidio â rhoi moddion llyngyr gwartheg, cyn belled â bod y profion yn parhau.” (Arolwg o aelodau’r Grwpiau Gweithredol)

“Wrth ystyried cost profion genetig, fe fyddem ni’n arbed £19 y fuwch, gan y byddai’r epil yn iachach, yn cynhyrchu mwy o laeth, ac yn fwy ffrwythlon.” (Arolwg o aelodau’r Grwpiau Gweithredol)

“Mae wedi lleihau rhai costau, gan ein bod yn profi am fwy o bethau cyn rhoi triniaeth. Mae'r gost yn amrywio'n go sylweddol yn dibynnu ar y tywydd ac am ba mor hir y mae'r anifeiliaid yn y sied. Rydym yn arbed tua £8 y pen dros y gaeaf, felly tua £3k-£4k yn flynyddol.” (Arolwg o aelodau’r Grwpiau Gweithredol)


“Amcangyfrif yn unig yw hyn, ond byddwn yn dweud bod cloffni eisoes wedi’i dorri 10 y cant, sydd fwy na thebyg yn arbed tua £10,000 i ni dros flwyddyn mewn triniaethau, biliau milfeddygon, ac ati.” (Arolwg o aelodau’r Grwpiau Gweithredol)

5.16 Mae'r data hunan-gofnodedig yn awgrymu lefel uchel o ychwanegedd o ran arbedion economaidd. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag a fyddent wedi newid yr arferion hyn beth bynnag heb y cymorth, dim ond saith y cant (3/44) a oedd yn cytuno'n gryf a 14 y cant (6/44) a oedd yn cytuno 'rywfaint'. Roedd y rhan fwyaf (59 y cant; 26/44) yn anghytuno â'r gosodiad hwn. Ceir ymateb tebyg yn y ffurflenni gwerthuso diwedd prosiect, lle nododd dim ond un o 32 o ymatebwyr y byddent wedi rhoi’r newidiadau ar waith heb y cymorth — nododd y gweddill naill ai’n bendant na fyddent wedi gwneud hynny (16) neu eu bod yn ansicr (15). At hynny, ochr yn ochr â’r data hunangofnodedig hyn, gallwn hefyd edrych ar dystiolaeth gan y grŵp o fusnesau a ymgeisiodd neu a ddangosodd ddiddordeb i ddechrau ond na aeth rhagddynt i gynnal prosiect drwy EIP Cymru. Dywedodd y mwyafrif helaeth o’r ymatebwyr i’n harolwg o’r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr (23/26) nad oedd eu prosiect wedi mynd rhagddo heb gymorth EIP, sy’n awgrymu ymhellach lefel uchel o ychwanegedd ar gyfer y math hwn o gynllun.

5.17 Gofynnwyd ystod o gwestiynau eraill i aelodau’r Grwpiau Gweithredol er mwyn profi canlyniadau meddal y cymorth, fel sydd i’w weld yn Ffigur 5.2 isod, ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno ei fod wedi’u gwneud yn fwy hyderus o ran treialu syniadau newydd (70 y cant; 57/ 82), wedi cynyddu eu dealltwriaeth o’r broses arloesi (76 y cant; 62/82), ac wedi’u gwneud yn fwy tebygol o brofi syniadau newydd yn y dyfodol (76 y

cant; 62/82). Mae'r rhain yn ddangosyddion allweddol o lwyddiant o ran prif amcan y cynllun o feithrin arloesedd o fewn y sector. Yn wir, dywedodd pedwar ymatebydd eu bod eisoes wedi gwneud gwaith ymchwil dilynol ar ôl cwblhau eu prosiect a bod y math hwn o weithgarwch yn debygol o gynyddu ymhellach wrth i ragor o brosiectau ddod i ben. Disgrifiodd un o’r Broceriaid Arloesi sut oedd y prosiect wedi arwain at gyfnewid syniadau a meddylfryd rhwng y disgyblaethau academaidd a masnachol, ac wedi meithrin disgyblaeth wyddonol o ran datblygu technolegau ac arferion newydd.

**Ffigur 5.2: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno bod bod yn rhan o EIP Cymru wedi ...?'**




Ffynhonnell: Arolwg o aelodau’r Grwpiau Gweithredol (n=83)

5.18 Mae Ffigur 5.2 hefyd yn dangos bod y rhan fwyaf o aelodau’r Grwpiau Gweithredol yn credu bod y cynllun wedi eu galluogi i ddatblygu perthnasoedd newydd gyda ffermwyr a choedwigwyr eraill ac, i raddau ychydig yn llai, ag unigolion o sectorau eraill. At hynny, dywedodd 90 y cant o'r ymatebwyr (72/80) eu bod yn bwriadu parhau i gydweithio ag aelodau eraill y Grŵp Gweithredol yn y dyfodol. Roedd nifer o’r sylwadau yn amlygu effaith y cydweithio hyn a’r dysgu a wnaed:

> “Rwy’n meddwl ei fod yn ardderchog — mae gennych chi wahanol agweddau a gwahanol bersonoliaethau yn y grŵp a gallwn ni i gyd ddysgu oddi wrth ein gilydd. Er enghraifft, gallai un ffermwr fod yn gwario llawer ar rywbeth a bydd

ffermwr arall yn [gofyn] pam [maen nhw] eisiau gwneud hynny — does dim angen iddyn nhw!” (Arolwg o aelodau’r Grwpiau Gweithredol)

“Roedd holl strwythur y rhaglen a’r ffaith bod arbenigwyr ar gael i fynd trwy bethau yn wych. Roedd y cyfarfodydd grŵp yn hynod fuddiol ac wedi agor fy llygaid i lawer mwy nag oeddwn yn meddwl y bydden nhw, a gweld pa ffrydiau eraill o arbenigedd sydd ar gael er mwyn cyfrif diadell yn llawn a’r lleiafswm trwy edrych ar bethau nad oeddwn wedi meddwl amdanyn nhw o'r blaen, fel gwerthuso isafswm porthiant ar y fferm mewn ymateb i brofion gwaed — roedd y prosiect EIP yn bendant yn beth gwerth chweil i’w wneud.” (Arolwg o aelodau’r Grwpiau Gweithredol)

5.19 Nododd un o aelodau’r tîm cyflawni fod y rhwydweithio a’r cydweithio yn ymestyn y tu hwnt i’r prosiectau; mewn cyfarfod diweddar o’r Grŵp Gweithredol yr oeddent wedi bod iddo, er enghraifft, roedd ffermwyr yn trafod pethau eraill sy’n effeithio ar eu busnes y tu hwnt i gwmpas y prosiect, fel costau gwrtaith. Amlygwyd sut y byddent yn defnyddio ei gilydd fel seinfwrdd yn ystod y cyfarfodydd hyn ac yn cynnig cymorth rhwng cymheiriaid.

**Canlyniadau ehangach**

5.20 Y prif amcan yw i'r cynllun hwn gael effaith sy'n ymestyn y tu hwnt i'r grŵp o ffermwyr, coedwigwyr ac aelodau eraill y Grwpiau Gweithredol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiectau a ariennir. Y gobaith yw y bydd y cynllun, drwy ei ledaenu'n effeithiol, yn cael effaith ymhellach ar draws y sector.

5.21 Er ei bod yn rhy gynnar i archwilio hyn yn fanwl ar gam y gwerthusiad interim, cyfeiriodd rhai aelodau o'r tîm cyflawni at enghreifftiau lle'r oedd effaith y cynllun yn dechrau cael ei theimlo ar lefel ehangach. Er enghraifft, dywedwyd bod y prosiect 'EIP20 - Mamogiaid godro' wedi denu llawer o ddiddordeb. Clywodd un ffermwr ifanc am y prosiect a phenderfynodd greu menter ar y cyd â chydweithiwr hŷn lle mai’r prif weithrediad oedd ffermio llaeth gan ddefnyddio mamogiaid: “gwnaeth yr holl sylw [i] odro defaid ysgogi’r person ifanc i wneud hynny” (ffynhonnell: cyfweliad ag aelod o'r tîm cyflawni). Mewn enghraifft arall, nododd aelod o’r tîm cyflawni fod gan y prosiect ‘EIP27 – Slyri lot’ y potensial i ddarparu atebion pwysig a allai helpu ffermwyr i ymateb i her Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Roedd hwn yn brosiect strategol yr oedd Llywodraeth Cymru wedi’i

annog, o ystyried yr heriau a ddaw yn sgil y rheoliadau newydd hyn. Mae'n dangos y pwysigrwydd a all fod i'r mathau hyn o brosiectau ar lefel strategol.

**Themâu trawsbynciol ac amcanion trawsbynciol**

5.22 Mae Cais am Gyllid y Rhaglen yn egluro sut y byddai EIP Cymru yn mynd i'r afael â'r tair thema drawsbynciol, sef 1) Cyfle Cyfartal, Prif Ffrydio Rhywedd a'r Iaith Gymraeg, 2) Datblygu Cynaliadwy, a 3) Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol trwy gyfuniad o bolisïau ac arferion mewnol ar y naill law a gweithgarwch, allbynnau a meysydd blaenoriaeth y prosiectau ar y llaw arall.

5.23 Mae adolygiad o'r dogfennau cais yn dangos yr honnwyd bod 45 o'r 46 yn mynd i'r afael â Thema Drawsbynciol 1 drwy gael cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Grwpiau Gweithredol, neu na fyddai unrhyw un yn cael eu heithrio ar sail eu rhywedd neu grŵp cymdeithasol. Siaradodd llawer hefyd am gynnwys y "genhedlaeth nesaf" a sut roedd y prosiectau'n ceisio darparu gwell cyfleoedd i bobl ifanc, er enghraifft, trwy weithio gyda cholegau amaethyddol. Dim ond un cais a drafododd y cyfraniad i'r Gymraeg, gan nodi y byddai gweithrediadau'r Grŵp Gweithredol yn cael eu cynnal yn Gymraeg ac y byddai'r adroddiad terfynol ar gael yn Gymraeg. O ystyried pwysigrwydd amaethyddiaeth fel sector economaidd i siaradwyr Cymraeg, lle mae cyfran llawer uwch o ffermwyr yn siarad Cymraeg na'r cyfartaledd cenedlaethol, gallwn dybio bod cymorth i helpu'r sector i dyfu yn dod â budd anuniongyrchol, cadarnhaol i'r Gymraeg.

5.24 O ran Thema Drawsbynciol 2, roedd 43 o'r dogfennau cais yn honni eu bod yn cyflawni ar ddatblygu cynaliadwy. Roeddent yn amlygu'r effeithiau uniongyrchol ar yr amgylchedd pe bai'r arferion newydd yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus, gan gynnwys mewn perthynas â rheoli gwastraff, datblygu cadwyni cyflenwi byrrach, arbedion effeithlonrwydd, a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

5.25 Honnodd 43 o'r dogfennau cais hefyd eu bod yn mynd i'r afael â Thema Drawsbynciol 3, gan gynnwys 29 o brosiectau y cofnodwyd eu bod yn 'gwella sgiliau pobl ifanc a theuluoedd', 13 a oedd yn 'mynd i'r afael â diweithdra a chynyddu incwm y cartref', a chwech a oedd yn 'gwella canlyniadau iechyd ac addysg pobl sy'n byw yng Nghymru'. Soniodd y ceisiadau am greu rhagor o gyfleoedd cyflogaeth a chyfleoedd gwell, cynyddu proffidioldeb ariannol, a chaniatáu i ffermwyr, a allai fod yn wynebu arwahanrwydd cymdeithasol, ddatrys problemau gyda'i gilydd.

5.26 Yn ogystal â'r Themâu Trawsbynciol, mae'r Rheoliad Datblygu Gwledig (1303/2013) yn nodi y dylai rhaglenni ac, felly, gynlluniau o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig gyfrannu at y ddau amcan trawsbynciol sef 1) arloesi a 2) yr amgylchedd a lliniaru ac addasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Mae cysylltiad cynhenid ag arloesi, wrth gwrs, gan fod y cynllun yn ymwneud yn sylfaenol â chynorthwyo ffermwyr a choedwigwyr i arloesi. Yn ogystal, fel y nodwn uchod, roedd 43 o ddogfennau cais y prosiectau yn nodi y byddent yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy trwy archwilio arferion a all leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr busnesau; felly, mae cysylltiad clir ag amcanion yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd. Fel y nodwyd gennym yn flaenorol yn y bennod hon, roedd 24 y cant o brosiectau'n canolbwyntio'n benodol ar y newid yn yr hinsawdd ac yn ceisio lliniaru ei effeithiau trwy well lefelau cynnyrch, cynhyrchu mwy effeithlon a mwy cynaliadwy, lleihau llygredd slyri, ac ati.

5.27 I grynhoi, mae'r prosiectau'n cyfrannu at y themâu trawsbynciol a'r amcanion trawsbynciol, yn enwedig o ran datblygu cynaliadwy, yr amgylchedd, a'r newid yn yr hinsawdd, ac mae llawer o aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn dweud eu bod wedi llwyddo i fabwysiadu arferion mwy effeithlon a fydd yn lleihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr.

## 6. Lledaenu’r canfyddiadau

6.1 Mae lledaenu’r canfyddiadau yn elfen hollbwysig o’r cynllun oherwydd hebddi mae unrhyw effeithiau a gynhyrchir wedi’u cyfyngu i’r grŵp o ffermwyr a choedwigwyr sy’n cymryd rhan yn uniongyrchol. Trwy ledaenu gwybodaeth yn effeithiol, y gobaith yw y bydd busnesau eraill yn dysgu am yr arferion newydd hyn a'u canlyniadau ac efallai y byddant yn penderfynu eu mabwysiadu, gan greu effaith ehangach ar draws y sector.

6.2 Mae'r lledaenu wedi'i seilio i raddau helaeth ar amryw sianeli Cyswllt Ffermio, fel y disgrifiwyd yn flaenorol yn yr adroddiad. Hyrwyddwyd y canfyddiadau trwy adroddiadau terfynol prosiectau’r EIP sydd i’w gweld ar y wefan, postiadau a fideos byr ar y cyfryngau cymdeithasol, ac erthyglau technegol yng nghylchgrawn deufisol Cyswllt Ffermio, gyda phob rhifyn yn cynnwys amlinelliad manwl o brosiect EIP penodol, ac mae cylchlythyr chwarterol yr EIP hefyd wedi'i ddosbarthu i bob busnes sydd wedi'i gofrestru gyda Chyswllt Ffermio, yn cynnwys prosiectau EIP6–8. At hynny, mae prosiectau wedi’u hyrwyddo trwy ddiwrnodau agored gan ddefnyddio dull Rhwydwaith Arddangos Cyswllt Ffermio. Yn ôl y data a rannwyd â’r gwerthuswyr, cynhaliwyd 20 o ddigwyddiadau o’r fath hyd at ddiwedd 2021; roedd dau wedi’u cynnal yn 2018, tri yn 2019 a 2020, a chynyddodd hyn i 12 yn 2021, sy’n adlewyrchu’r cynnydd yn nifer y prosiectau a gwblhawyd. Yn naturiol, cafodd pandemig COVID-19 effaith sylweddol ar hyn hefyd, gyda sawl digwyddiad yn cael eu cynnal ar-lein, a gallai hyn fod wedi effeithio ar yr ymgysylltiad. Mae’r data’n awgrymu y gallai’r ddarpariaeth ar-lein fod wedi sicrhau nifer uwch o fynychwyr, gyda 30, ar gyfartaledd, yn mynychu pob un o’r chwe digwyddiad ar-lein o gymharu â chyfartaledd o 22 o bobl yn mynychu digwyddiadau eraill. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod ansawdd yr ymgysylltu wedi bod yn uwch mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb, a gafodd sgôr o 4.8/5 ar gyfartaledd o gymharu â 4.5/5 ar gyfer y digwyddiadau ar-lein.

6.3 Roedd cyfanswm o 486 o unigolion wedi mynychu’r digwyddiadau hyn, neu 24 fesul digwyddiad ar gyfartaledd. Roeddent yn amrywio o ddigwyddiadau bach, lle mai dim ond chwe chyfranogwr a fynychodd ddigwyddiad technegol yn ymwneud â'r prosiect 'EIP22 - Defaid cynffondew', i 95 o gyfranogwyr yn mynychu digwyddiad ar gyfer y prosiect 'EIP15 - Porthiant dail ar gyfer glaswelltir'. Bydd cam olaf y gwerthusiad hwn yn canolbwyntio ar ymgysylltu â’r cyfranogwyr hynny a fynychodd rai o’r

digwyddiadau hyn er mwyn deall rhywfaint o’r hyn a ddysgwyd ac a oedd wedi arwain at unrhyw newidiadau mewn arferion.

6.4 Ochr yn ochr â gohebiaeth ffurfiol Cyswllt Ffermio, mae dysgu rhwng cymheiriaid yn debygol o fod yn elfen hanfodol o ledaenu, gydag ymchwil yn dangos bod ffermwyr fel arfer yn ymddiried fwyaf mewn ffermwyr eraill i ddysgu am arferion newydd.[21] Dywedodd tua hanner aelodau’r Grwpiau Gweithredol a ymatebodd i’n harolwg (46 y cant; 38/83) eu bod wedi trafod eu prosiect gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys 39 y cant a oedd wedi trafod hyn gyda ffermwyr a choedwigwyr eraill a 12 y cant gyda sefydliadau eraill. Digwyddodd y rhan fwyaf o hyn trwy drafodaethau anffurfiol gyda ffermydd cyfagos a ffermwyr eraill, gyda 21 yn nodi hyn, tra bod chwech o ymatebwyr wedi trafod eu prosiect mewn rhwydweithiau mwy ffurfiol, e.e. cwmnïau cydweithredol, Grwpiau Trafod Cyswllt Ffermio, Clybiau Ffermwyr Ifanc, ac undebau’r ffermwyr, tra bod pump wedi cymryd rhan mewn diwrnodau agored i rannu eu canfyddiadau. Mae’r gyfran hon o 46 y cant yn debygol o gynyddu ymhellach pan fydd prosiectau eraill wedi’u cwblhau — yn wir, dywedodd 54 y cant o’r rhai a oedd wedi cwblhau eu prosiect eisoes eu bod wedi ei drafod gyda sefydliadau eraill. Yn yr un modd, dywedodd 53 y cant o aelodau’r Grwpiau Gweithredol a oedd wedi cyflwyno ffurflen werthuso diwedd prosiect i Menter a Busnes eu bod wedi rhannu cyngor ymarferol a oedd yn deillio o'r prosiect gyda phobl eraill o'r tu allan i'r Grŵp Gweithredol, tra bod 35 y cant arall wedi nodi 'Ddim eto', sy'n awgrymu bod lle i hyn gynyddu ymhellach.

6.5 Gyda’i gilydd, mae’r data hyn yn awgrymu bod y cynllun wedi gallu cyrraedd busnesau a sectorau y tu hwnt i’r grwpiau sy’n rhan ohono. Yn wir, honnodd rhai o’r ymatebwyr eu bod yn gwybod bod ffermwyr eraill wedi cyflwyno’r arferion newydd i’w ffermydd hwy yn dilyn y gweithgarwch lledaenu:

> “Wedi darparu diwrnodau agored gyda ffermwyr llaeth eraill yr ardal i egluro’r prosiect a’r manteision. Mae tua 25–26 o ffermwyr llaeth eraill yn cyflwyno’r arfer ar ôl gweld y canlyniadau.” (Arolwg o aelodau’r Grwpiau Gweithredol)

[21] Rust, NA, Stankovics, P., Jarvis, RM et al. Have farmers had enough of experts?. Environmental Management 69, 31–44 (2022).

"Yn bennaf trwy siarad â ffermwyr eraill a dweud wrthyn nhw sut mae'r profion hyn yn lleihau heintiau a chostau meddyginiaeth ac yn arbed arian yn gyffredinol." (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

"Rydw i wedi ei drafod gyda ffermwyr eraill sydd heb fod yn rhan o'r prosiect sydd yn yr un sefyllfa ar eu ffermydd, gyda'r un broblem â fy fferm i. Maen nhw i gyd wedi bod yn eithaf awyddus i gymryd rhan." (Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol)

6.6 Pan ofynnwyd iddynt am y ffordd orau o ledaenu canfyddiadau'r prosiect, cyfeiriodd aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn nodweddiadol at y dulliau presennol sydd ar waith, gan ddefnyddio cylchgrawn Cyswllt Ffermio, y wefan, a diwrnodau agored, ac awgrymodd naw ddosbarthu drwy wasg byd ffermio a chyhoeddiadau cysylltiedig eraill. Cyfeiriodd pedwar ymatebydd at bwysigrwydd rhoi copïau caled o adroddiadau i ffermwyr ac awgrymwyd postio adroddiadau perthnasol iddynt yn uniongyrchol. Roedd dau eisiau gweld y cynllun yn gweithio'n agos gydag undebau'r ffermwyr ac awgrymwyd y dylai'r tîm hyrwyddo'r canfyddiadau yn eu cyfarfodydd. Yn gyffredinol, mae eu hymatebion yn dangos bod aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn gyffredinol yn teimlo bod y cynllun yn lledaenu canfyddiadau drwy'r sianeli priodol.

6.7 Roedd y rhanddeiliaid allweddol, y Broceriaid Arloesi ac aelodau'r tîm cyflawni a gymerodd ran yn y gwerthusiad hwn yn fodlon ar y cyfan â'r dull lledaenu, gan nodi mai Cyswllt Ffermio oedd yn y sefyllfa orau i gyflawni oherwydd eu cyrhaeddiad (sy'n ddigyffelyb yng Nghymru). Amlygwyd bod gwybodaeth am brosiectau EIP Cymru yn cael ei lledaenu mewn ffordd dameidiog a chyson ym mhob cyhoeddiad gan Gyswllt Ffermio ac ar ddiwedd cyfarfodydd, gweithdai a digwyddiadau Cyswllt Ffermio (boed yn ymwneud â'r cynllun yn uniongyrchol ai peidio). Mae'r cynllun wedi'i ymgorffori yng nghyfathrebiadau Cyswllt Ffermio. Yn yr un modd, cyfeiriodd y rhanddeiliaid at y perygl y byddai negeseuon am EIP Cymru yn mynd ar goll neu'n cael eu gwanhau gan yr holl wybodaeth arall sy'n cael ei lledaenu drwy sianeli Cyswllt Ffermio. Felly, mae'r tîm cyflawni yn ceisio cynyddu allgymorth trwy ddefnyddio cyhoeddiadau eraill y diwydiant, fel cyhoeddi erthyglau yn Farmers Weekly neu'r Guardian.

6.8 Roedd y tîm cyflawni'n teimlo bod y dull gweithredu'n gweithio mewn rhai achosion, a gallent ddyfynnu enghreifftiau lle gwyddent fod busnesau eraill yn y sector wedi

dangos diddordeb ym mhrosiectau'r EIP. Er enghraifft, mae'r cynllun wedi cael llawer o ymholiadau gan ffermwyr ynghylch y prosiect 'EIP15 - Porthiant dail i laswelltir' ers y digwyddiad arddangos lle'r oedd 95 o unigolion yn bresennol.

6.9 Nododd dau randdeiliad allanol nad oeddent wedi chwarae rhan fawr nac wedi ymwneud yn helaeth â gweithgarwch lledaenu, gydag un yn awgrymu y dylai fod mwy o ymagwedd 'Tîm Cymru' (yn hytrach na'i fod yn cael ei wneud drwy seilo Cyswllt Ffermio): "Rwy'n meddwl yn bendant fod yna gyfleoedd i weithio'n fwy cydgysylltiedig." Mae hyn yn gyson â rhai o'r awgrymiadau a wnaed yn yr arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol o ran gwneud gwell defnydd o undebau'r ffermwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill i ledaenu gwybodaeth.

## 7. Casgliadau ac argymhellion

7.1 Mae’r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod cynllun EIP Cymru wedi’i gyflawni’n effeithiol hyd yma. Roedd cytundeb cyffredinol bod yr ystod o brosiectau a gefnogwyd wedi bod yn briodol a bod ganddynt y potensial i’w cyflwyno ar raddfa fwy a, thrwy hynny, greu effeithiau cadarnhaol ar lefel ehangach y diwydiant. Cynorthwywyd hyn gan broses ymgeisio ac arfarnu gadarn a chymorth hwyluso effeithiol gan Fenter a Busnes a’r Broceriaid Arloesi. Er y bu cryn amrywiaeth o ran y graddau y mae ffermwyr a choedwigwyr wedi perchnogi’r prosiectau, ymgysylltiad aelodau’r Grwpiau Gweithredol yn ehangach, a’r gweithgarwch cydweithredol, canfuwyd bod y rhain wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan.

7.2 Mae'r prosiectau wedi'u seilio'n gyffredinol ar anghenion a syniadau ffermwyr a choedwigwyr, er bod y Broceriaid Arloesi wedi cymryd yr awenau wrth gyflawni'r gwaith i raddau helaeth. Gellid bod wedi defnyddio amrywiaeth o fodelau cyflawni gwahanol, sydd wedi’i ddangos yn yr adroddiad hwn, o ddim cymorth hwyluso i ddefnyddio tîm craidd o swyddogion prosiect yn ogystal â’r model presennol sy’n defnyddio Broceriaid Arloesi — mae gan bob un ei fanteision a’i anfanteision o ran canfod cydbwysedd rhwng dull a pherchnogaeth o'r gwaelod i fyny a sicrhau trylwyredd gwyddonol. Yn gyffredinol, credwn fod y cynllun wedi llwyddo i ganfod cydbwysedd rhwng yr anghenion cystadleuol hyn.

7.3 Y prif gwestiwn ynglŷn ag effaith y cynllun hwn yn y pen draw yw a all godi ymwybyddiaeth yn ddigonol ac annog busnesau eraill yn y sector i fabwysiadu arferion newydd er mwyn ehangu'r buddion ymhellach. Dechrau archwilio’r cwestiwn hwn yn unig yr ydym yn yr adroddiad gwerthuso hwn, gan ganfod yn sicr fod enghreifftiau lle mae hyn yn dechrau digwydd. Fodd bynnag, bydd angen rhoi mwy o ffocws i hyn ar gam y gwerthusiad terfynol.

7.4 Rydym yn cloi’r adroddiad hwn drwy ystyried y canfyddiadau allweddol ochr yn ochr ag argymhellion ar gyfer y cyfnod cyflawni sy’n weddill a chynlluniau posibl yn y dyfodol.

### Lefel yr ymgysylltu ag EIP Cymru

7.5 Mae dosbarthiad daearyddol y ffermydd sy'n cymryd rhan yn adlewyrchu'n fras ddosbarthiad y ffermydd ledled Cymru, gyda'r rhan fwyaf o aelodau’r Grwpiau Gweithredol wedi'u lleoli ym Mhowys, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Gwynedd, a Sir

Fynwy. Mae’r cynllun wedi cynnwys ffermwyr a choedwigwyr o bob rhan o Gymru, er bod rhai ardaloedd wedi’u tangynrychioli, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, a Gwynedd, tra bod 10 sir sy’n llai adnabyddus am amaethyddiaeth ond sydd gyda’i gilydd yn cyfrif am 13 y cant o holl ffermydd Cymru heb gynrychiolaeth yn y cynllun.

7.6 Cig coch yw un o’r prif sectorau a gynorthwywyd gan y cynllun, gan adlewyrchu mor gyffredin yw ym myd amaethyddiaeth yng Nghymru, tra bod ffermwyr llaeth wedi’u gorgynrychioli’n sylweddol, sydd efallai’n arwydd o’r heriau a wynebodd y sector hwn yn y blynyddoedd diwethaf (sydd o bosibl wedi cynyddu’r angen i arloesi).

7.7 Mae’r busnesau ffermio sy’n cymryd rhan yn EIP Cymru yn sicr wedi bod yn fwy nag sy’n arferol, gan adlewyrchu ei fod yn gynllun sydd wedi’i ddylunio ar gyfer sefydliadau mwy masnachol sydd â diddordeb mewn gwella eu gweithrediadau busnes. Yn yr un modd, maent hefyd i raddau helaeth wedi bod yn fusnesau sydd yn rhan o'r seilwaith ehangach o gymorth, sy'n cofleidio sgiliau, gwybodaeth a thechnoleg newydd. Felly, yn gyffredinol gellir disgrifio aelodau'r Grwpiau Gweithredol fel y wynebau cyfarwydd, er ein bod yn deall yr ymgysylltwyd â busnesau ffermio eraill hefyd.

7.8 Heblaw am darged o ymgysylltu ag o leiaf dri phrosiect coedwigaeth, roedd y broses recriwtio’n agored iawn heb unrhyw sectorau penodol, mathau o fusnesau/prosiectau, na meysydd wedi'u targedu'n benodol. Y cyfan a wnaeth y tîm cyflawni oedd ceisio sicrhau bod trawstoriad eang o brosiectau a busnesau’n ymwneud â’r cynllun. Tra bod hyn yn cyd-fynd â natur anrhagnodol, o'r gwaelod i fyny, y cynllun, y perygl yw ei fod yn arwain at brosiectau nad ydynt yn ymateb i'r angen mwyaf i arloesi ac nad ydynt yn cyfateb i amcanion strategol.

7.9 **Argymhelliad 1:** Mae cynlluniau EIP ledled Ewrop wedi amrywio o ran pa mor rhagnodol ydynt, o ymagwedd o'r brig i lawr i'r dull o'r gwaelod i fyny a ffefrir yng Nghymru. Er bod manteision clir i'r dull a fabwysiadwyd yng Nghymru, efallai y bydd cynlluniau yn y dyfodol am ystyried mabwysiadu rhyw lefel o dargedu er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cyfateb i amcanion strategol a'r meysydd sydd â'r angen mwyaf. Yn sail i hyn, dylid cael dadansoddiad er mwyn nodi'r prif feysydd o fewn amaethyddiaeth a choedwigaeth lle mae angen arloesi.

7.10 Roedd yr arbenigedd a gynigiwyd gan y cynllun yn ysgogiad pwysicach i fusnesau ymwneud ag ef nag oedd y cymorth ariannol i gyflawni'r prosiectau. Mae hwn yn bwynt pwysig i'w ystyried wrth feddwl am sut y dylai cynlluniau edrych yn y dyfodol ac a ddylai fod elfen o'r hwyluso.

7.11 **Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu arbenigedd a chymorth hwyluso a llai o bwyslais o bosibl ar gymorth grant yn y dyfodol mewn cynlluniau sy'n canolbwyntio ar dreialu dulliau arloesol o weithio yn y sectorau ffermio a choedwigaeth.

7.12 Mae'r llwybrau i mewn i'r cynllun wedi cynnwys cymysgedd o gyfathrebu rhagweithiol trwy amryw sianeli Cyswllt Ffermio, ond yn bennaf y Swyddogion Datblygu, ac ar lafar (yn enwedig gan gymheiriaid). Mae pryder, fodd bynnag, y bydd ffermwyr nad ydynt eisoes yn rhan o'r seilwaith cymorth yn llawer llai tebygol o fod wedi cael gwybod am y cynllun, o ystyried y ddibyniaeth ar sianeli Cyswllt Ffermio.

7.13 **Argymhelliad 3:** Dylai cynlluniau yn y dyfodol ystyried ffyrdd i ymgysylltu â'r ffermwyr 'anodd eu cyrraedd' nad ydynt yn rhan o'r seilwaith cymorth. Y brif ffordd y daeth y busnesau hynny i wybod am EIP Cymru oedd trwy gymheiriaid. Gallai cynlluniau yn y dyfodol ystyried annog aelodau i wahodd cymheiriaid ar wahân i'r 'wynebau cyfarwydd' yn fwy penodol.

### Y prosesau ymgeisio ac arfarnu

7.14 Roedd y prosesau ymgeisio ac arfarnu yn gadarn, gan ganiatáu i brosiectau gael eu hasesu yn ôl eu teilyngdod gwyddonol. Er ei fod yn gynhwysfawr ac yn debygol o gymryd gormod o amser ac o fod yn rhy yn anodd i'r rhan fwyaf o ffermwyr ei gwblhau, lliniarwyd hyn gan y ffaith y rhoddwyd rhyddid i'r Broceriaid Arloesi arwain y broses. Roedd y ffermwyr a'r coedwigwyr yn fodlon â'r cyfaddawd hwn ar y cyfan, er bod rhai rhanddeiliaid allanol yn pryderu ei fod yn rhoi gormod o ddylanwad i'r Broceriaid Arloesi ar ddyluniad y prosiectau, gan effeithio felly ar y dull o'r gwaelod i fyny.

7.15 Gwnaethom ganfod hefyd bod diffyg detholusrwydd yn y prosesau, a bod y grantiau'n cael eu dyfarnu bron ar sail y cyntaf i'r felin (cyhyd â'u bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd). Byddai bod yn fwy detholus yn cyd-fynd yn well ag egwyddorion cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig, a gallai sicrhau grŵp ehangach o brosiectau i ddewis o'u plith fod wedi arwain at ddethol prosiectau gwahanol neu well o bosibl.

7.16 **Argymhelliad 4:** Dylai cynlluniau yn y dyfodol ystyried mabwysiadu ffenestri ariannu fel y gellir sgorio prosiectau yn erbyn ei gilydd, a thrwy hynny sicrhau mwy o ddetholusrwydd o ran y prosiectau y dyfernir cyllid iddynt.

### Rôl y Brocer Arloesi

7.17 Mae'r Broceriaid Arloesi wedi chwarae rhan hollbwysig wrth gyflawni prosiectau EIP Cymru. Mewn gwirionedd, ychydig iawn fyddai wedi bod yn bosibl heb gymorth y Broceriaid Arloesi, o ystyried cymhlethdodau rheoli'r prosesau ymgeisio cychwynnol a'r angen i reoli prosiectau a all gynhyrchu canlyniadau cadarn. Y prif werth fu'r cymorth hwyluso — y cymorth i gydlynu gweithgarwch a threfnu'r gwahanol agweddau, e.e. cyrchu deunyddiau, amserlenni samplu, a chasglu data. Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo y gellid cyflawni'r rôl hon am gost is drwy ddefnyddio tîm mawr o staff craidd, tra bod eraill yn credu y dylai gael ei rhedeg yn gyfan gwbl gan ffermwyr i aros yn driw i'r dull o'r gwaelod i fyny yn y ffurf buraf. Mae'n debygol y byddai anfanteision sylweddol i'r ddau ddull hyn, gan effeithio o bosibl ar y trylwyredd gwyddonol ac, felly, ar werth y prosiectau sy'n cael eu cyflawni. Yn yr un modd, mae'n debygol nad oes angen cymorth arbenigwr ar bob prosiect; gellid eu cyflawni gyda chymorth hwyluso mwy elfennol gan aelod o'r tîm cyflawni.

7.18 **Argymhelliad 5:** Dylid cadw elfen o rôl y Broceriaid Arloesi mewn cynlluniau yn y dyfodol lle mae ar brosiectau angen yr arbenigedd neu'r profiad y gallant eu darparu. Fodd bynnag, gallai cynlluniau'r dyfodol hefyd ystyried cael tîm mwy o staff craidd a allai gymryd cyfrifoldeb am reoli'r prosiectau 'symlach'.

**Asesiad o agweddau dylunio EIP Cymru**

7.19 Roedd consensws cyffredinol bod maint y grant yn briodol, gan ei wneud yn fwy hygyrch i ffermwyr. Yn gysylltiedig â hyn, mae'r rhan fwyaf o ffermwyr yn credu bod eu prosiectau wedi’u seilio ar eu syniadau hwy. Cafwyd rhai enghreifftiau lle y gwnaeth rhanddeiliad arall (e.e. milfeddyg) feddwl am y syniad, neu lle y gwnaeth Llywodraeth Cymru annog prosiect strategol, er ei bod yn ymddangos mai lleiafrif yw'r rhain. Fodd bynnag, o ran cyflawni prosiectau’n wirioneddol, mae'n ymddangos ei fod wedi bod yn fwy cymysg, gyda Broceriaid Arloesi’n arwain ar lawer o'r gweithgarwch.

7.20 Er bod maint y grantiau’n briodol ar gyfer treialu syniadau newydd a meithrin arloesedd, roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu am effaith strategol buddsoddiadau o’r fath, gan nad oedd mecanwaith ar waith i sicrhau y byddai’r effaith yn cael ei theimlo’n ehangach ar draws y sector ac eithrio’r gobaith y byddai'r gweithgarwch lledaenu’n cael effaith ganlyniadol gadarnhaol.

7.21 **Argymhelliad 6:** Dylai cynlluniau yn y dyfodol ystyried ymgorffori cronfa ddilynol ar wahân y gellid ei chlustnodi ar gyfer y prosiectau mwyaf llwyddiannus a hawsaf i’w cyflwyno ar raddfa fwy a chaniatáu iddynt gynyddu’r gweithgarwch drwy ddenu mwy o ffermwyr.

7.22 Mae lefel y cydweithio o fewn Grwpiau Gweithredol wedi amrywio o brosiect i brosiect, er ei fod wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd rhai’n teimlo mai dyma oedd y rhan orau o'r prosiect, ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfnewid gwybodaeth gydag aelodau eraill o’r Grŵp Gweithredol. Bu enghreifftiau hefyd o fusnesau’n gweithio gyda sefydliadau o sectorau eraill am y tro cyntaf, tra bod y mwyafrif helaeth yn nodi eu bod yn bwriadu cynnal y perthnasoedd hyn y tu hwnt i gyfnod cyflawni’r prosiect. Fodd bynnag, bu llai o gydweithio â Grwpiau Gweithredol eraill, er bod uchelgais cychwynnol i’r Grwpiau Gweithredol ddod i gysylltu â grwpiau eraill ar draws yr Undeb Ewropeaidd sy’n gweithio ar themâu tebyg.

7.23 **Argymhelliad 7:** Dylai'r tîm cyflawni ystyried a oes cyfleoedd ar gyfer mwy o rwydweithio er mwyn rhannu'r hyn a ddysgir / lledaenu gwybodaeth yng Nghymru a thu hwnt.

**Gweithgarwch lledaenu**

7.24 Roedd y gwaith o ledaenu canfyddiadau'r prosiectau yn dibynnu ar gyfuniad o ddull cyfathrebu Cyswllt Ffermio sydd wedi'i brofi, ynghyd â rhwydweithio rhwng cymheiriaid. Ceir enghreifftiau lle mae'r dull hwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol, yn enwedig o ran rhai o'r digwyddiadau diwrnod agored llwyddiannus a ddenodd nifer fawr o ffermwyr. Roedd tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod gan ffermwyr gwestiynau ynghylch mabwysiadu arferion newydd. Fodd bynnag, bydd angen profi effeithiolrwydd y dull hwn ymhellach yn ystod cam y gwerthusiad terfynol, gan fod gweithgareddau lledaenu pellach yn yr arfaeth hyd at ddiwedd y cyfnod cyflawni sy'n debygol o godi ymwybyddiaeth, meithrin dealltwriaeth, ac o bosibl arwain at fwy o bobl yn manteisio ar yr arferion a dreialwyd trwy'r cynllun hwn.

7.25 Bu'r gweithgarwch lledaenu rhwng cymheiriaid yn gymysg, gydag ychydig dros hanner aelodau'r Grwpiau Gweithredol mewn prosiectau a gwblhawyd yn nodi eu bod wedi trafod canfyddiadau gyda'u cymheiriaid. O ystyried pwysigrwydd trosglwyddo gwybodaeth rhwng cymheiriaid yn y sector amaethyddiaeth, bydd hyn yn elfen bwysig iawn o'r dull lledaenu a llwyddiant cyffredinol y cynllun.

7.26 **Argymhelliad 8:** Dylai'r tîm cyflawni gynnal sesiynau gydag aelodau'r Grwpiau Gweithredol i bwysleisio pwysigrwydd rhannu canfyddiadau â ffermwyr a choedwigwyr o'r tu allan i'r grŵp. Lle bo modd, dylid sicrhau bod gan aelodau'r Grwpiau Gweithredol ddeunyddiau lledaenu y gellir eu defnyddio i rannu canfyddiadau allweddol eu prosiectau.

**Effaith hyd yma**

7.27 Bu'r prosiectau'n amrywiol iawn, gan gynrychioli cymysgedd o brosiectau sydd fel arfer wedi canolbwyntio ar weithgareddau ymarferol y mae modd eu cyflwyno ar raddfa fwy, tra bo nifer llai wedi bod yn fwy anghonfensiynol a gellir eu disgrifio fel rhai mwy arloesol. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod y cynllun wedi canfod cydbwysedd rhwng y gwahanol ystyriaethau hyn, gan ddefnyddio diffiniad eang o arloesi er mwyn sicrhau y gall y diwydiant elwa cymaint â phosibl.

7.28 Mae'r mwyafrif helaeth o aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn credu bod eu prosiect wedi bod yn llwyddiant. Mae'r rhan fwyaf wedi cyflwyno newidiadau, mae'r rhan fwyaf yn dweud eu bod wedi derbyn y buddion yr oeddent yn gobeithio y byddai'r prosiectau'n eu cynhyrchu, ac roedd rhai yn gallu dangos arbedion cost neu incwm newydd a gynhyrchwyd o ganlyniad i'w prosiect. Ymhellach, mae'n ymddangos bod y cynllun wedi meithrin arloesedd, gydag aelodau'r Grwpiau Gweithredol yn nodi eu bod yn fwy hyderus, yn fwy gwybodus, ac yn fwy tebygol o arloesi yn y dyfodol o ganlyniad i gymorth yr EIP. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu lefel uchel o ychwanegedd mewn perthynas â'r effeithiau hyn, lle mae'n debygol na fyddai'r rhan fwyaf o'r prosiectau wedi mynd rhagddynt o gwbl heb gyllid a chymorth yr EIP.

7.29 Mae'r dystiolaeth yn datgelu bod EIP Cymru yn mynd i'r afael â'r prif themâu a'r amcanion trawsbynciol, yn enwedig o ran datblygu cynaliadwy a threchu tlodi, lle mae cyswllt cynhenid yn y prosiectau rhwng ymdrechion i greu buddion amgylcheddol ac economaidd cadarnhaol.

7.30 Mae disgwyl i adroddiad gwerthuso terfynol gael ei lunio yn 2023 a bydd yn canolbwyntio'n benodol ar asesu canlyniadau ac effeithiau cyffredinol y cynllun.

## Atodiad 1: Cwestiynau gwerthuso

Nodwyd y cwestiynau gwerthuso canlynol yn y Fframwaith Gwerthuso i helpu i arwain ffocws yr adroddiad gwerthuso interim hwn.

1. Asesu lefel yr ymgysylltu / y gwasanaethau a ddarperir drwy Gyswllt Ffermio
    a. Beth yw cyfansoddiad sectoraidd y ffermydd / busnesau coedwigaeth sydd wedi ymgysylltu ag EIP Cymru?
    b. Beth yw'r llwybrau y mae aelodau'r Grwpiau Gweithredol wedi'u defnyddio i ymgysylltu â'r cynllun?
    c. A yw aelodau'r Grwpiau Gweithredol wedi bod yn rhan o unrhyw gynlluniau eraill y Cynllun Datblygu Gwledig?
    d. I ba raddau mae'r gwasanaethau a ddarperir gan Gyswllt Ffermio yn galonogol i ddarpar Grwpiau Gweithredol?
2. Archwilio effeithiolrwydd proses ymgeisio prosiectau, a'r prosesau penderfynu ac arfarnu
    a. Pa mor effeithiol y gweithredwyd y prosesau mynegi diddordeb, ymgeisio ac arfarnu?
    b. A wynebwyd unrhyw rwystrau/heriau yn ystod y broses ymgeisio?
    c. I ba raddau mae'r gwasanaethau a ddarperir gan Gyswllt Ffermio o gymorth i'r Grwpiau Gweithredol i gwblhau ceisiadau?
3. Asesu rôl y Brocer Arloesi o ran ansawdd, perthnasedd, hyblygrwydd a gwerth am arian
    a. I ba raddau y mae rôl y Brocer Arloesi yn berthnasol ac yn hyblyg o ran anghenion y Grwpiau Gweithredol?
    b. Beth yw gwerth ychwanegol y Brocer Arloesi, yn enwedig i'r Grŵp Gweithredol?
4. Asesu agweddau dylunio penodol cynllun EIP
    a. A yw maint y grantiau wedi bod yn briodol mewn perthynas â chyflawni'r prif amcanion?
    b. A yw rôl y Brocer Arloesi yn darparu gwerth da am arian?
    c. Pa rôl oedd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth o ran gwella a newid prosiectau?
    d. Beth yw'r manteision fel menter a arweinir gan ffermwyr / sy'n gweithio fel grŵp?
5. Asesu a gwerthuso'r modd y mae canfyddiadau'r grŵp wedi'u lledaenu i'r cyhoedd sy'n defnyddio Cyswllt Ffermio

a. I ba raddau y mae canfyddiadau prosiect EIP Cymru wedi cael effaith ar y diwydiant amaethyddol neu goedwigaeth ehangach?

b. I ba raddau y caiff y gweithgareddau / yr atebion a fabwysiadwyd yn ystod prosiectau eu cynnal ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau?

c. Pa mor effeithiol fu'r broses ledaenu o ran rhannu canfyddiadau prosiectau EIP Cymru?

6. Asesu pa mor arloesol yw'r prosiectau

7. Asesu a gwerthuso effaith gyffredinol prosiectau EIP Cymru ar gyfer aelodau'r Grwpiau Gweithredol sy'n cymryd rhan

a. Beth yw effeithiau prosiectau unigol EIP Cymru ar gyfranogwyr y Grwpiau Gweithredol?

b. I ba raddau y mae bod yn rhan o brosiect EIP Cymru wedi meithrin arloesedd?

c. I ba raddau y mae bod yn rhan o brosiect EIP Cymru wedi cael effaith wahanol ar wahanol fathau o weithredwyr?

d. I ba raddau y mae'r datblygiadau arloesol yn ychwanegol i'r hyn a fyddai wedi digwydd heb y cymorth?

8. I ba raddau y mae EIP Cymru wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â thair thema drawsbynciol Llywodraeth Cymru ac amcanion trawsbynciol y Cynllun Datblygu Gwledig?

## Atodiad 2: Theori newid ar gyfer EIP Cymru

**Y Rhesymeg / Yr Angen am gyfer EIP Cymru**

- Mae angen amlwg i'r sectorau amaethyddol a choedwigaeth arloesi, yn enwedig yn y cyd-destun presennol o bwysau economaidd ac amgylcheddol allanol sylweddol. Fodd bynnag, mae cyfuniad o amharodrwydd i fentro, diffyg hyder a gwybodaeth, ac agweddau traddodiadol i gyd yn cyfrannu at atal arloesi o'r fath rhag digwydd.
- Mae angen y cymorth hwn i waredu'r risg a darparu'r wybodaeth a'r hyder i dreialu datblygiadau arloesol newydd, gan newid agweddau traddodiadol trwy ddangos budd y datblygiadau arloesol hyn trwy weithgarwch lledaenu effeithiol.
- Mae angen y cymorth hwn hefyd i gau'r bwlch rhwng diwydiant a'r gymuned ymchwil, gan fod llawer o'r ymchwil sy'n ymwneud â'r sectorau hyn byth yn cael ei gymhwyso.

**Mewnbynnau ac Adnoddau**

- £1.8m o gyllid grant
- Arbenigedd a ddarperir gan y Broceriaid Arloesi ac aelodau'r Panel Adolygu
- Seilwaith a gwasanaethau presennol o fewn y sector, gan gynnwys y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth, rhwydweithiau Cyswllt Ffermio, a chyhoeddiadau

| Gweithgareddau | Allbynnau | Canlyniadau Canolradd Un | Canlyniadau Canolradd Dau | Effeithiau Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|
| • Recriwtio/codi ymwybyddiaeth trwy sianeli Cyswllt Ffermio<br>• Datblygu Grwpiau Gweithredol<br>• Cynnal adolygiadau llenyddiaeth<br>• Cymorth i ddatblygu amlinelliad o brosiect a chais<br>• Cymorth parhaus i gyflawni prosiectau<br>• Monitro cynnydd a rheoli prosiectau<br>• Lledaenu canfyddiadau ymchwil | • 45 Grŵp Gweithredol yn cwmpasu 210 o aelodau<br>• Ymgymryd â 45 o brosiectau'n llwyddiannus, gan gynnwys o leiaf dri phrosiect coedwigaeth, gan ddangos yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio<br>• 45 o ddogfennau adolygiad llenyddiaeth a 45 o adroddiadau terfynol ynghyd ag allbynnau technegol eraill<br>• Nifer y prosiectau a arddangoswyd trwy Rwydwaith Arddangos Cyswllt Ffermio<br>• Nifer yr erthyglau a phostiadau'r cyfryngau cymdeithasol a gyhoeddwyd<br>• Cyrhaeddiad gweithgarwch lledaenu<br>• Nifer y digwyddiadau/cyfarfodydd a fynychwyd | • Gweithredu datblygiadau arloesol o fewn systemau'r cyfranogwyr<br>• Datblygu cynhyrchion newydd<br>• Cyfranogwyr yn goresgyn rhwystrau i arloesi (hyder/gwybodaeth/agweddau)<br>• Gwerthfawrogi gweithio fel grŵp<br>• Ymwybyddiaeth o ganfyddiadau ymchwil ledled y sector a diddordeb ynddynt<br>• Cyfranogwyr yn sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer camau ymchwil dilynol | • Buddion diriaethol i gyfranogwyr o roi'r datblygiadau arloesol ar waith (e.e. incwm newydd/costau is)<br>• Cyfranogwyr yn gwella/addasu arferion<br>• Y rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn penderfynu rhoi datblygiadau arloesol ar waith<br>• Cyfranogwyr yn datblygu perthnasoedd newydd gyda chymheiriaid/sectorau eraill<br>• Pobl nad ydynt yn ffermwyr/coedwigwyr yn codi eu proffil / dangos eu harbenigedd<br>• Mwy o hyder/parodrwydd i arbrofi ag arferion newydd<br>• Ymchwil ddilynol yn cael ei chynnal lle bo'n briodol | • Amaethyddiaeth/coedwigaeth yn ymgysylltu mwy â'r gymuned ymchwil<br>• Datblygu cadernid/effeithlonrwydd o fewn y sectorau |

| Rhagdybiaethau | Rhwystrau | Galluogwyr |
|---|---|---|
| • Mae digon o alw (yn enwedig gan rai nad ydynt yn ffermwyr/coedwigwyr)<br>• Mae gan y meysydd pwnc apêl eang i'r sectorau<br>• Ystod briodol o arbenigedd yn cael ei chynnig | • Prosiectau'n rhy arbenigol ar gyfer defnydd ehangach<br>• Cyfathrebu canfyddiadau ymchwil technegol<br>• Aelodau'r Grwpiau Gweithredol ddim yn cydweithredu, yn ymddieithrio, neu â diffyg capasiti<br>• Methu ag ymgysylltu â'r prosiectau mwyaf addas oherwydd system y cyntaf i'r felin<br>• Allanol: COVID-19, newidiadau polisi/masnach, cyfyngiadau EIP-AGRI | • Ffermwyr/coedwigwyr yn cymryd perchnogaeth o'r gwaith, wedi'u hannog gan ddyluniad y cynllun<br>• Blaenoriaethu prosiectau sydd â pherthnasedd eang<br>• Sicrhau cyfuniad priodol o Froceriaid Arloesi<br>• Defnyddio rhwydweithiau Cyswllt Ffermio |

## Atodiad 3: Arolwg o aelodau'r Grwpiau Gweithredol

### Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill, sef ymgynghoriaeth ymchwil annibynnol sydd wedi’i lleoli yng Ngheredigion, i gynnal gwerthusiad o Bartneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru. Ei ddiben yw asesu pa mor effeithiol y cyflawnwyd y gweithrediad a nodi unrhyw fuddion i gyfranogwyr a'r sector yn ehangach. Bydd hefyd yn gyfle i nodi a oes angen unrhyw newidiadau i wella’r gweithrediad dros y cyfnod sy’n weddill neu mewn ymyriadau yn y dyfodol. Fel cyfranogwyr, mae eich adborth yn hanfodol er mwyn ein helpu i ddeall y materion hyn.

Mae’r arolwg hwn yn archwilio amrywiaeth o faterion, gan gynnwys y broses ymgeisio, eich profiad a’ch boddhad â gwahanol agweddau ar y cymorth, gwybodaeth am eich prosiect, a’r buddion a gafwyd.

Mae eich cyfranogiad yn y gwaith ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol, a bydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn cael ei thrin yn gyfrinachol. I gael gwybodaeth am sut y cawsom eich manylion a sut y byddwn yn ymdrin â'r wybodaeth a roddwch i ni, ewch i'r ddolen ganlynol: dolen i PN.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y gwaith ymchwil hwn, cysylltwch â naill ai ioan.teifi@wavehill.com neu emma.sullivan@llyw.cymru.

Diolch ymlaen llaw am eich amser.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Adran 1 – Proffil**

1. A allwch gadarnhau bod y wybodaeth ganlynol yn gywir?
    a. Enw'r cyfranogwr
    b. Enw'r busnes/sefydliad
    c. Enw'r prosiect

2. (Ymgeiswyr arweiniol yn unig) Mae ein cofnodion yn dangos mai chi oedd yr ymgeisydd arweiniol ar gyfer y prosiect hwn. Yw hynny'n gywir?
    a. Ydy
    b. Nac ydy

3. A allwch gadarnhau'r math o sefydliad rydych yn ei gynrychioli?
    a. Busnes ffermio
    b. Busnes coedwigaeth
    c. Corff anllywodraethol
    d. Sefydliad ymchwil
    e. Cynghorydd
    f. Busnes bach neu ganolig arall
    g. Sefydliad arall

4. A allwch chi ddisgrifio pam oeddech eisiau datblygu prosiect drwy EIP Cymru (Cwestiwn agored – y tîm ymchwil i ddarparu'r opsiynau canlynol fel ysgogiadau ac ôl-godio'r ymatebion)?
    a. Er mwyn gwaredu risg o brofi syniad newydd
    b. Cael mynediad at arbenigedd i brofi syniad newydd
    c. Gweithio gyda sefydliadau eraill o fewn y sector
    d. Gweithio gyda sefydliadau mewn sectorau eraill
    e. Er mwyn darparu ein harbenigedd
    f. Datblygu ein henw da
    g. Arall

**Os dewiswyd 'Busnes Ffermio' yn C3**

Pam mae angen y wybodaeth hon arnom? Bydd hyn yn ein helpu i ddeall safbwyntiau a phrofiadau gwahanol ffermwyr sydd wedi cymryd rhan yn EIP Cymru.

5. Beth yw'r prif sector ar eich fferm?
    a. Grawnfwydydd
    b. Cnydio cyffredinol
    c. Garddwriaeth
    d. Moch arbenigol
    e. Dofednod arbenigol
    f. Llaeth
    g. Da byw sy'n pori'r ucheldir
    h. Da byw sy'n pori'r iseldir
    i. Cymysg
    j. Defaid
    k. Eidion
    l. Arall (nodwch beth)

6. Beth yw cyfanswm arwynebedd eich fferm? A fyddai'n well gennych roi eich ateb mewn hectarau neu erwau?

7. Beth yw statws deiliadaeth eich fferm?
    a. Perchen ar y cyfan
    b. Perchen yn bennaf
    c. Rhentu’n bennaf
    d. Rhentu’r cyfan

8. Tua faint oedd cyfanswm trosiant y fferm yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2020–21)? Rhowch ffigur rhifiadol yn unig (dim arwyddion punt, comas, ac ati).

9. Os nad yw'r ffigur gwirioneddol wrth law, rhowch amcangyfrif o'r swm.
    a. Dim
    b. <£10,000
    c. £10,000 i £49,999
    d. £50,000 i £99,999
    e. £100,000 i £199,999
    f. rhwng £200,000 a £499,999
    g. rhwng £500,000 a £999,999
    h. £1,000,000 i £1,999,999
    i. £2,000,000 i £4,999,999
    j. £5,000,000 i £9,999,999
    k. £10,000,000 i £19,999,999
    l. £20,000,000 i £49,999,999
    m. £50,000,000 neu fwy

10. A ydych chi wedi cael unrhyw grantiau neu gymorth ariannol arall gan Lywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus eraill yn y pum mlynedd diwethaf?
    a. Ydw
    b. Nac ydw

11. (Os 'Ydw') O ba gynlluniau rydych chi wedi cael cymorth ariannol?
    a. Grant Cynhyrchu Cynaliadwy
    b. Grant Busnes i Ffermydd
    c. Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnes Pren
    d. Arall (nodwch beth)

12. Ar raddfa o 1–5 (lle mae 1 yn golygu 'ddim yn bwysig o gwbl' a 5 yn golygu 'pwysig iawn'), pa mor bwysig yw siarad â ffermwyr eraill fel ffynhonnell gwybodaeth a chyngor i chi'n bersonol?

13. Ar raddfa o 1–5 (lle mae 1 yn golygu 'dim diddordeb o gwbl' a 5 yn golygu 'diddordeb aruthrol'), faint o ddiddordeb sydd gennych chi mewn cael gwybodaeth neu gyngor am ffermio ar y Rhyngrwyd?

14. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol?

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno rywfaint | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno rywfaint | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae sicrhau ansawdd bywyd da yn bwysicach i mi na sicrhau'r incwm mwyaf posibl o'm daliad | | | | | |
| Dylai pob fferm ymdrechu i fod mor amgylcheddol gynaliadwy â phosibl | | | | | |
| Mae cydweithio â ffermwyr eraill yn gwella sut mae fferm yn cael ei rhedeg | | | | | |
| Rwyf bob amser yn gwneud amser i gymdeithasu â ffermwyr eraill | | | | | |
| Rwyf bob amser yn awyddus i ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd y gallaf eu cymhwyso i'm busnes | | | | | |
| Rwy'n awyddus i ddefnyddio technoleg newydd ar fy fferm pan fydd ar gael | | | | | |
| Rwy'n hapus i gael cyngor ar reoli'r amgylchedd naturiol ar fy fferm | | | | | |

## Adran 2 – Profiad/boddhad â'r cymorth

15. A allwch ddweud wrthym sut y daethoch yn ymwybodol o gymorth rhaglen EIP?
    a. Trwy Swyddogion Datblygu Lleol Cyswllt Ffermio
    b. Ar-lein, h.y. trwy'r wefan neu'r cyfryngau cymdeithasol
    c. Mewn digwyddiad Cyswllt Ffermio
    d. Mewn digwyddiad arall
    e. Cylchgrawn Cyswllt Ffermio
    f. Cyhoeddiadau eraill
    g. Ar lafar – trwy ffermwyr/coedwigwyr eraill
    h. Ar lafar – arall (nodwch)
    i. Gan Frocer Arloesi

16. Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi wedi bod â'r cymorth i gyflawni eich prosiect EIP?
    a. Anfodlon iawn
    b. Rywfaint yn anfodlon
    c. Nid yn fodlon nac yn anfodlon
    d. Rywfaint yn fodlon
    e. Bodlon iawn

17. A allwch chi egluro eich ateb os gwelwch yn dda?

**(Ymgeisydd nad yw'n arwain yn unig)**

18. Fel aelod o'r Grŵp Gweithredol nad yw'n aelod arweiniol, pa mor gyfarwydd ydych chi â'r cyllid a roddwyd i'ch prosiect a sut mae'r cyllid hwnnw wedi'i wario?

| | Ddim yn gyfarwydd o gwbl | Rywfaint yn gyfarwydd | Cyfarwydd iawn |
|---|---|---|---|
| Lefel cyllid y prosiect | | | |
| Gwybodaeth am sut mae'r cyllid wedi'i wario | | | |

**(Pawb)**

19. Cynigiwyd grantiau o hyd at £40,000. Ydych chi'n meddwl bod hyn yn rhy uchel, yn rhy isel, neu fwy neu lai'n iawn?
    a. Rhy uchel
    b. Fwy neu lai'n iawn
    c. Rhy isel

20. Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

**(Ymgeisydd arweiniol yn unig) Y broses ymgeisio a datblygu'r prosiect**

21. Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi â'r broses mynegi diddordeb a'r prosesau ymgeisio ac arfarnu?
    a. Anfodlon iawn
    b. Rywfaint yn anfodlon
    c. Nid yn fodlon nac yn anfodlon
    d. Rywfaint yn fodlon
    e. Bodlon iawn

22. A wynebwyd unrhyw rwystrau/heriau yn ystod y broses ymgeisio?

23. A gawsoch gymorth gan Frocer Arloesi (h.y. arbenigwr neu hwylusydd a gomisiynwyd i gynorthwyo cyfranogwyr trwy'r broses ymgeisio a chamau datblygu a gweithredu'r prosiect)?
    a. Do
    b. Naddo

24. (Os 'Naddo') Eglurwch pam y dewisoch dderbyn / peidio â derbyn y cymorth hwn.

25. Pa mor ddefnyddiol oedd y gwasanaethau cymorth canlynol o ran eich helpu yn ystod y broses ymgeisio a chamau datblygu a gweithredu'r prosiect?

| | Ddim yn ddefnyddiol o gwbl | Ddim yn ddefnyddiol iawn | Niwtral | Rywfaint yn ddefnyddiol | Defnyddiol iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth a ddarparwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth (h.y. adolygiad o lenyddiaeth / cynorthwyo ymchwil ar gyfer syniadau am brosiect) i'ch helpu i lunio'r prosiect | | | | | |
| (Os yw'n berthnasol) Cymorth gan Froceriaid Arloesi i fireinio syniadau ar gyfer prosiect a datblygu amlinelliad o'r prosiect a chais | | | | | |
| (Os yw'n berthnasol) Cymorth gan Froceriaid Arloesi i ffurfio'r Grŵp Gweithredol trwy nodi partïon a'u dwyn i mewn | | | | | |
| (Os yw'n berthnasol) Cymorth parhaus gan Froceriaid Arloesi i gyflawni'r prosiectau | | | | | |
| (Os yw'n berthnasol) Cymorth parhaus gan staff y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth neu Fenter a Busnes i gyflawni'r prosiectau | | | | | |
| Cymorth i ledaenu'r canfyddiadau | | | | | |

26. Eglurwch eich atebion.

| | |
|---|---|
| Cymorth a ddarparwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth | |
| (Os yw'n berthnasol) Cymorth gan Froceriaid Arloesi i fireinio syniadau ar gyfer prosiect a datblygu amlinelliad o'r prosiect a chais | |
| (Os yw'n berthnasol) Cymorth gan Froceriaid Arloesi i ffurfio'r Grŵp Gweithredol trwy nodi partïon a'u dwyn i mewn | |
| (Os yw'n berthnasol) Cymorth parhaus gan Froceriaid Arloesi i gyflawni'r prosiectau | |
| (Os yw'n berthnasol) Cymorth parhaus gan staff y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth neu Fenter a Busnes i gyflawni'r prosiectau | |
| Cymorth i ledaenu'r canfyddiadau | |

**(Os yw'n berthnasol) Brocer Arloesi (pob ymatebydd)**

27. **(Ymgeiswyr nad ydynt yn arwain)** A gawsoch gymorth gan Frocer Arloesi (h.y. arbenigwr neu hwylusydd a gomisiynwyd i gefnogi cyfranogwyr trwy'r broses ymgeisio a chamau datblygu a gweithredu'r prosiect)?
    a. Do
    b. Naddo

28. A ydych yn credu bod gan y Brocer Arloesi yr arbenigedd perthnasol i gefnogi eich anghenion wrth gyflawni'r prosiect hwn?
    a. Ydw
    b. Nac ydw

29. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei bod yn bwysig cael Brocer Arloesi i helpu i gyflawni'ch prosiect?
    a. Anghytuno'n gryf
    b. Anghytuno rywfaint
    c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    d. Cytuno rywfaint
    e. Cytuno'n gryf

30. Eglurwch eich ateb.

**Gwybodaeth am eich prosiect a'ch Grŵp Gweithredol**

31. **(Ymgeisydd arweiniol yn unig)** Hyd y gwyddoch, a yw eich prosiect yn seiliedig ar:
    a. Arfer newydd i'r sector
    b. Arfer newydd i Gymru / yr ardal

32. **(Pob ffermwr/coedwigwr)** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y Brocer Arloesi / EIP Cymru wedi darparu cyngor a chymorth effeithiol i roi'r arferion newydd ar waith yn eich system?
    a. Anghytuno'n gryf
    b. Anghytuno rywfaint
    c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    d. Cytuno rywfaint
    e. Cytuno'n gryf

33. Eglurwch eich ateb.

**(Pob ymatebydd)**

34. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r gosodiadau canlynol am y Grŵp Gweithredol?

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno rywfaint | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno rywfaint | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Roedd y Grŵp Gweithredol yn cydweithio'n dda | | | | | |
| Roedd y Grŵp Gweithredol yn cynrychioli cymysgedd priodol o arbenigedd | | | | | |
| Roedd y prosiect yn seiliedig ar syniad y ffermwyr/coedwigwyr | | | | | |
| Arweiniwyd y prosiect gan y coedwigwyr/ffermwyr | | | | | |

35. Beth yw manteision menter sy'n cael ei harwain gan ffermwyr / sy'n gweithio fel grŵp?

36. Beth fu'r prif heriau wrth gyflawni eich prosiect EIP Cymru?

37. Beth, os o gwbl, y gallai tîm EIP Cymru fod wedi'i wneud i helpu i oresgyn yr heriau hyn?

**Adran 3 – Buddion i'r cyfranogwyr**

38. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod bod yn rhan o EIP Cymru wedi:

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno rywfaint | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno rywfaint | Cytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| **(Pob ffermwr/coedwigwr)** Cynyddu eich hyder wrth brofi syniadau newydd | | | | | |
| **(Pob ffermwr/coedwigwr)** Cynyddu eich dealltwriaeth o'r broses arloesi | | | | | |
| **(Pob ffermwr/coedwigwr)** Eich gwneud yn fwy tebygol o brofi syniadau newydd yn y dyfodol | | | | | |
| **(Pob ymatebydd)** Eich helpu chi i ddatblygu perthnasoedd newydd gyda ffermwyr/coedwigwyr (eraill) | | | | | |
| **(Pob ymatebydd)** Eich helpu i ddatblygu perthnasoedd newydd gyda sefydliadau o sectorau eraill | | | | | |
| **(Rhai nad ydynt yn ffermwyr/coedwigwyr)** Codi eich proffil / helpu i ddangos eich arbenigedd | | | | | |

39. A ydych yn bwriadu parhau i gydweithio ag aelodau eraill o'r Grŵp Gweithredol yn y dyfodol?
    a. Ydw
    b. Nac ydw

40. Ydych chi wedi trafod y prosiect gyda sefydliadau eraill?
    a. Ydw – ffermwyr/coedwigwyr
    b. Ydw – sefydliadau eraill
    c. Nac ydw

41. (Os 'Ydw') Rhowch fanylion.

42. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno eich bod wedi gallu cyflawni'r hyn yr oeddech wedi bwriadu ei wneud (hyd yma) o ran y buddion i'ch sefydliad?
    a. Anghytuno'n gryf
    b. Anghytuno rywfaint
    c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

d. Cytuno rywfaint
e. Cytuno'n gryf
f. Rhy gynnar i ddweud

43. Eglurwch eich ateb.

**Os yw’r prosiect wedi’i gwblhau**

44. Mae ein cofnodion yn dangos bod eich prosiect EIP Cymru wedi'i gwblhau. Yw hynny'n gywir?
    a. Ydy
    b. Nac ydy

**Os 'Ydy'**

45. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod eich prosiect wedi bod yn llwyddiant?
    a. Anghytuno'n gryf
    b. Anghytuno rywfaint
    c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    d. Cytuno rywfaint
    e. Cytuno'n gryf
    f. Rhy gynnar i ddweud

46. Eglurwch eich ateb.

47. **(Pob ffermwr/coedwigwr)** O ganlyniad i'r prosiect hwn, a ydych chi wedi newid unrhyw arferion o fewn eich busnes?
    a. Ydw
    b. Nac ydw
    c. Ddim eto

48. (Os 'Nac ydw') A allwch chi egluro pam nad ydych wedi newid unrhyw arferion o fewn eich busnes o ganlyniad i'r prosiect hwn?

49. (Os 'Ydw') I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y byddech wedi newid yr arferion hyn beth bynnag heb y cymorth?
    a. Anghytuno'n gryf
    b. Anghytuno rywfaint
    c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    d. Cytuno rywfaint
    e. Cytuno'n gryf
    f. Rhy gynnar i ddweud

50. (Os 'Ydw') A allwch chi ddisgrifio unrhyw fuddion o'r newidiadau hyn?

51. (Os 'Ydw') A ydych chi wedi gallu cynhyrchu incwm newydd neu leihau costau o ganlyniad i hyn?
    a. Ydw
    b. Nac ydw
    c. Ddim eto

52. (Os 'Ydw') A allwch roi amcangyfrif o'r incwm / arbedion cost blynyddol a gynhyrchwyd o weithredu'r arferion hyn?

53. **(Pob ymatebydd)** A ydych wedi ymgymryd ag unrhyw ymchwil dilynol ers cwblhau'r prosiect?
    a. Ydw – esboniwch
    b. Nac ydw

54. A fu unrhyw fuddion eraill o ganlyniad i'r prosiect hwn?

**Adran 4 – Myfyrio**

55. Pa newidiadau, os o gwbl, yr hoffech eu gweld yn cael eu gwneud i EIP Cymru dros y cyfnod sy'n weddill neu mewn ymyriadau yn y dyfodol?

56. Pa fath o gymorth fyddai'n mynd i'r afael â'ch anghenion orau wrth symud ymlaen?

57. A oes gennych syniadau ynghylch sut y dylid lledaenu canfyddiadau'r prosiect?

58. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu hychwanegu?

59. A fyddech chi'n hapus i Wavehill roi galwad arall ichi yn ystod ein gwerthusiad terfynol ar ddiwedd 2022 i ofyn ychydig o gwestiynau am unrhyw ganlyniadau o'ch prosiect?
    a. Byddwn
    b. Na fyddwn

Diolch yn fawr iawn am eich amser.

## Atodiad 4: Arolwg o ymgeiswyr aflwyddiannus

### Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill, sef ymgynghoriaeth ymchwil annibynnol sydd wedi’i lleoli yng Ngheredigion, i gynnal gwerthusiad o Bartneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru. Ei ddiben yw asesu pa mor effeithiol y cyflawnwyd y gweithrediad a nodi unrhyw fuddion i gyfranogwyr a'r sector yn ehangach. Fel rhan o’r broses hon, rydym eisiau clywed gan unigolion a ymgeisiodd i gymryd rhan yn EIP Cymru ond a fu’n aflwyddiannus neu a dynnodd yn ôl o’r broses. Diben yr ymarferiad hwn yw ein helpu i ddeall pam na wnaeth cyfranogwyr posibl gymryd rhan a beth ddigwyddodd gyda'u syniadau ar gyfer prosiectau. Mae hefyd yn gyfle i gael eich adborth ar y broses ymgeisio a’r angen am EIP Cymru.

Bydd eich adborth yn ein helpu i ddeall gwerth EIP Cymru a'r angen amdano ac a oes angen unrhyw welliannau.

Ni ddylai'r arolwg gymryd mwy na 5–10 munud o'ch amser. Mae eich cyfranogiad yn y gwaith ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol, a bydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn cael ei thrin yn gyfrinachol. I gael gwybodaeth am sut y cawsom eich manylion a sut y byddwn yn ymdrin â'r wybodaeth a roddwch i ni, ewch i'r ddolen ganlynol: dolen i PN.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y gwaith ymchwil hwn, cysylltwch â naill ai ioan.teifi@wavehill.com neu emma.sullivan@llyw.cymru.

Diolch ymlaen llaw am eich amser.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Adran 1 – Proffil**

1. A allwch ddarparu'r wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda?
    a. Eich enw
    b. Enw'r busnes/sefydliad

2. A allwch gadarnhau'r math o sefydliad rydych yn ei gynrychioli?
    a. Busnes ffermio
    b. Busnes coedwigaeth
    c. Corff anllywodraethol
    d. Sefydliad ymchwil
    e. Cynghorydd
    f. Busnes bach neu ganolig arall
    g. Sefydliad arall

3. A allwch ddisgrifio pam roeddech chi eisiau datblygu prosiect trwy EIP Cymru?
    a. Cael gwared ar y risg o brofi syniad newydd trwy dderbyn arian grant
    b. Cael mynediad at arbenigedd i brofi syniad newydd
    c. Gweithio gyda sefydliadau eraill o fewn y sector
    d. Gweithio gyda sefydliadau mewn sectorau eraill
    e. Er mwyn darparu ein harbenigedd
    f. Datblygu ein henw da
    g. Arall

**Adran 2 – Y profiad o ymwneud ag EIP Cymru**

4. A allwch ddweud wrthym sut y daethoch yn ymwybodol o gymorth EIP?
    a. Trwy Swyddogion Datblygu Lleol Cyswllt Ffermio
    b. Ar-lein, h.y. trwy'r wefan neu'r cyfryngau cymdeithasol
    c. Mewn digwyddiad Cyswllt Ffermio
    d. Mewn digwyddiad arall
    e. Cylchgrawn Cyswllt Ffermio
    f. Cyhoeddiadau eraill
    g. Ar lafar – trwy ffermwyr/coedwigwyr eraill
    h. Ar lafar – arall (nodwch)
    i. Gan Frocer Arloesi

5. Pam na wnaethoch chi fwrw ymlaen â chymorth EIP Cymru?
    a. Roedd fy nghais/ein cais yn aflwyddiannus
    b. Penderfynais/penderfynom nad oedd angen y cymorth i gyflawni'r prosiect
    c. Fe wnes i / gwnaethom ni nodi ffynhonnell ariannu fwy addas
    d. Tynnodd partneriaid/eraill yn y grŵp yn ôl neu nid oedd ganddynt ymrwymiad digonol
    e. Aethom ymlaen â gwell syniad am brosiect
    f. Arall (eglurwch os gwelwch yn dda)

6. (Os 'A') Pam oedd y cais yn aflwyddiannus?

7. (Os 'B') Eglurwch pam nad oedd angen y cymorth.

8. (Os 'C') Beth oedd y cyllid hwn?

9. (Os 'D') A fyddech chi wedi bod eisiau bwrw ymlaen?
    a. Byddwn
    b. Na fyddwn

10. (Os 'E') A gafodd hwn ei ariannu drwy EIP Cymru?
    a. Do
    b. Naddo

11. (Os 'Naddo') Pam na chafodd?

12. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach am y rhesymau pam na aeth eich prosiect EIP yn ei flaen?

13. Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi â’r broses mynegi diddordeb a’r prosesau ymgeisio ac arfarnu?
    a. Anfodlon iawn
    b. Rywfaint yn anfodlon
    c. Nid yn fodlon nac yn anfodlon
    d. Rywfaint yn fodlon
    e. Bodlon iawn

14. A wynebwyd unrhyw rwystrau/heriau yn ystod y broses ymgeisio?

15. Pa mor ddefnyddiol oedd y cymorth a gawsoch i:

| | Ddim yn ddefnyddiol o gwbl | Ddim yn ddefnyddiol iawn | Niwtral | Rywfaint yn ddefnyddiol | Defnyddiol iawn | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eich helpu i lunio'r prosiect a mireinio syniad eich prosiect | | | | | | |
| Datblygu amlinelliad o'r prosiect a chais | | | | | | |
| Ffurfio'r Grŵp Gweithredol trwy nodi partïon eraill a'u dwyn i mewn | | | | | | |

**Adran 3 – Ynglŷn â'ch prosiect**

16. Beth oeddech chi'n gobeithio ei gyflawni gyda'ch prosiect arfaethedig?
    a. Arallgyfeirio fy musnes
    b. Ymateb i faes polisi newydd
    c. Arall (nodwch beth)

17. Cyn belled ag y gwyddoch, a oedd eich prosiect yn seiliedig ar:
    a. Arfer newydd (h.y. treialu ffordd newydd o weithio, datblygu cynnyrch newydd, ac ati) i'r sector
    b. Arfer newydd i Gymru / yr ardal

18. Cynigiwyd grantiau o hyd at £40,000. Ydych chi'n meddwl bod hyn yn rhy uchel, yn rhy isel, neu fwy neu lai'n iawn?
    a. Rhy uchel
    b. Fwy neu lai'n iawn
    c. Rhy isel

19. (Os 'C') A oedd y terfyn ariannu yn cyfyngu ar eich prosiect?
    a. Oedd
    b. Nac oedd

20. (Pawb) Beth yw'r rhesymau dros eich ateb?

21. A aeth eich prosiect yn ei flaen heb gymorth EIP?
    a. Do
    b. Naddo

**Os 'Do'**

22. A ydych wedi cael unrhyw gymorth i gyflawni’r prosiect?
    a. Ydw
    b. Nac ydw

23. (Os 'Do') Disgrifiwch natur y cymorth hwn.

24. Ydych chi wedi cwblhau eich prosiect?
    a. Ydw
    b. Nac ydw

**Os 'Ydw'**

25. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod eich prosiect wedi bod yn llwyddiant?
    a. Anghytuno'n gryf
    b. Anghytuno rywfaint
    c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    d. Cytuno rywfaint
    e. Cytuno'n gryf
    f. Rhy gynnar i ddweud

26. Eglurwch eich ateb.

27. **(Pob ffermwr/coedwigwr)** O ganlyniad i'r prosiect hwn, a ydych chi wedi newid unrhyw arferion o fewn eich busnes?
    a. Ydw
    b. Nac ydw
    c. Ddim eto

28. (Os 'Ydw') A allwch chi ddisgrifio unrhyw fuddion o'r newidiadau hyn?

29. (Os 'Ydw') A ydych chi wedi gallu cynhyrchu incwm newydd neu leihau costau o ganlyniad i hyn?
    a. Ydw
    b. Nac ydw
    c. Ddim eto

**Adran 4 – Myfyrio**

30. A oes gennych unrhyw sylwadau neu a hoffech awgrymu unrhyw newidiadau y dylid eu gwneud i EIP Cymru?

31. Pa fath o gymorth fyddai'n mynd i'r afael â'ch anghenion orau wrth symud ymlaen?

32. (Os 'Ydw' i C21) A fyddech chi'n hapus i Wavehill roi galwad i chi yn ystod ein gwerthusiad terfynol ar ddiwedd 2022 i ofyn ychydig o gwestiynau am unrhyw ganlyniadau o'ch prosiect?
    a. Byddwn
    b. Na fyddwn

Diolch yn fawr iawn am eich amser.

# Atodiad 5: Canllaw trafod y tîm cyflawni

## Gwerthusiad o EIP Cymru

### Cefndir

Mae Wavehill wedi'u comisiynu i asesu gweithrediad ac effaith EIP Cymru, sy'n un o ofynion y cyllid. Fel rhan o werthusiad interim a therfynol, mae'n hanfodol bod y canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu bwydo i mewn i'r cyflawni, yn llywio cynlluniau partneriaeth arloesi yn y dyfodol yng Nghymru yn dilyn Brexit, ac yn gwella eu heffaith ar y sector yng Nghymru.

Mae'r gwerthusiad yn cael ei gyflwyno dros dri cham:

1. **Cam Cwmpasu: *Cyfweliadau ac adolygiad desg a datblygu model rhesymeg*:** i sicrhau dealltwriaeth gadarn o fodel rhesymeg y rhaglen a datblygu Fframwaith Gwerthuso (gan gynnwys dangosyddion a gofynion data) i fesur gweithrediad (proses) ac effaith.

2. **Cam Interim: *Darparu gwerthusiad interim o'r rhaglen*:** Ar y cam hwn byddwn yn canolbwyntio ar werthuso'r broses weithredu a'r effaith ar brosiectau a gwblhawyd.

3. **Cam Terfynol: *Darparu gwerthusiad terfynol ar ddiwedd y rhaglen*:** Bydd y gwerthusiad terfynol yn asesu effaith prosiectau EIP a'r gweithrediad yn ei gyfanrwydd o ran y nodau cyffredinol, y dangosyddion perfformiad, a'r canlyniadau.

Cwblhawyd y cam cwmpasu yn ddiweddar ac rydym bellach yn cynnal y gwerthusiad interim. Fel rhan ohono, hoffem siarad ag aelodau'r tîm sy'n ymwneud â chyflawni EIP Cymru er mwyn cael eu safbwyntiau ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r gwahaniaeth y mae'r gweithrediad wedi'i wneud.

Byddem yn disgwyl i'r cyfweliad hwn gymryd tua 45 munud o'ch amser. Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru. I gael gwybodaeth am sut y byddwn yn rheoli data adborth, gweler ein hysbysiad preifatrwydd trwy glicio ar y ddolen ganlynol: ychwanegu dolen pan fydd ar y wefan.

**Cwestiynau i'w trafod**

**Cefndir**

1. A allwch chi gyflwyno'ch hun ac esbonio eich rôl o ran cyflawni EIP Cymru?

**Y broses recriwtio ac ymgeisio**

2. Pa mor effeithiol y cafodd EIP Cymru ei hyrwyddo fel rhan o'r ymgyrch recriwtio?
   a. A gafodd ei hyrwyddo'n ddigonol?
   b. A ddefnyddiwyd sianeli priodol i gyrraedd y gynulleidfa darged?

3. A ydych yn fodlon eich bod wedi gallu recriwtio trawstoriad priodol o ffermwyr a choedwigwyr ac ymgysylltu â gwahanol sectorau amaethyddol a choedwigaeth?
   a. I ba raddau mae EIP Cymru wedi cynorthwyo'r grŵp mwyaf addas o gyfranogwyr/prosiectau?
   i. Pa mor eang yw'r grŵp o gyfranogwyr a gynorthwywyd (h.y. i ba raddau y mae'n mynd y tu hwnt i'r 'wynebau cyfarwydd')?

4. A weithiodd y broses ymgeisio yn dda/yn ôl y bwriad?
   a. A oedd digon o 'ddetholusrwydd' o fewn y broses?
   b. A oedd y meini prawf dethol yn briodol?
   c. A fu unrhyw broblemau o ran prosiectau'n methu â symud ymlaen o EOI i gais llawn a chyflawni'n llwyddiannus?

**Dylunio a chyflawni**

5. A ydych yn credu bod EIP Cymru wedi'i ddylunio'n briodol?
   a. A yw maint y grantiau (uchafswm £40k) wedi bod yn briodol?
   b. Beth yw gwerth ychwanegol y Brocer Arloesi, yn enwedig i'r Grŵp Gweithredol?
   c. Beth fu manteision/anfanteision defnyddio Cyswllt Ffermio a Broceriaid Arloesi i gyflawni'r agweddau hwyluso a lledaenu dros Rwydwaith Gwledig Cymru (mae'r rhwydweithiau gwledig cenedlaethol wedi cyflawni'r rôl hon mewn rhai ardaloedd eraill)?

6. Pa mor effeithiol fu'r Broceriaid Arloesi wrth gynnal y gweithgareddau canlynol:

| | Da iawn | Da | Derbyniol | Gwael | Gwael iawn | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mireinio syniadau ar gyfer prosiect a helpu i ddatblygu amlinelliad o'r prosiect / cais | | | | | | |
| Cynorthwyo i ffurfio'r Grwpiau Gweithredol | | | | | | |
| Cynorthwyo i gyflawni'r prosiectau ar y safle | | | | | | |

7. A ydych yn credu y bu cymysgedd priodol o arbenigedd ymhlith y Broceriaid Arloesi?

8. Pa mor bwysig yw'r cymorth gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth (h.y. adolygiad llenyddiaeth / cynorthwyo ymchwil i syniadau ar gyfer prosiectau) i helpu i lunio prosiectau?

9. A yw lledaenu'r canfyddiadau i'r cyhoedd ehangach wedi gweithio'n dda/yn ôl y bwriad?
    a. A yw'r prosiectau yn apelio'n ddigonol ar gyfer defnydd ehangach?
    b. Beth fu'r dulliau mwyaf effeithiol o ledaenu?
    c. I ba raddau mae'r gweithgaredd lledaenu wedi cyrraedd y gynulleidfa darged?
    d. A ydych yn ymwybodol o'r gweithgaredd lledaenu hwn a arweiniodd at ffermwyr/coedwigwyr eraill yn treialu syniadau ar eu safle?

**Cyflawni'r prosiectau a chanlyniadau cynnar**

10. Yn eich barn chi, pa mor arloesol fu'r prosiectau?

11. O'ch dealltwriaeth chi, pa mor effeithiol y gwnaeth aelodau'r Grwpiau Gweithredol ymgysylltu â'r prosiect a chydweithio?
    a. I ba raddau y cymerodd ffermwyr/coedwigwyr berchnogaeth o'r gwaith a wnaed drwy'r prosiectau?
    b. Pa mor bwysig fu'r rhai nad ydynt yn ffermwyr/coedwigwyr o ran cynorthwyo'r cyflawni a beth maent wedi'i elwa o'u cyfranogiad?

12. Yn eich barn chi, i ba raddau mae'r prosiectau sydd wedi dod drwodd yn debygol o ddiwallu anghenion y gweithrediad?
    a. Yn eich barn chi, beth yw'r enghreifftiau gorau o brosiectau a gyflawnwyd hyd yma?

13. Beth fu'r prif ganlyniadau i ffermwyr/coedwigwyr hyd yma?

14. I ba raddau ydych chi'n credu y byddai ffermwyr/coedwigwyr wedi profi/gwneud y newidiadau heb y cymorth?
    a. A allent fod wedi cael cymorth gan gynllun arall i gyflawni eu prosiectau EIP Cymru?

**Myfyrdodau cyffredinol**

15. A oes unrhyw fylchau/meysydd y mae angen eu gwella yn y model cyflawni?
    a. Os felly, beth ydyn nhw?

16. Beth, os o gwbl, fu'r prif heriau mewnol ac allanol i'r cyflawni (e.e. COVID-19, newidiadau polisi/masnach, cyfyngiadau gweithredol)?

17. Beth fu'r prif gryfderau o ran cyflawni hyd yma ac y dylid o bosibl eu cadw mewn darpariaethau yn y dyfodol?

**Cydweddu**

18. A yw'r dull y mae'r rhaglen yn ei ddefnyddio ar gyfer integreiddio'r themâu trawsbynciol yn ei gwaith o gyflawni yn briodol neu a allai fod yn gwneud mwy? (pedair thema drawsbynciol, sef Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd; Datblygu Cynaliadwy; Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol; a'r Iaith Gymraeg)

19. Pa mor effeithiol y mae EIP Cymru wedi cydweddu â chynlluniau grant gwledig eraill sydd wedi'u dylunio i feithrin cystadleurwydd a chynaliadwyedd yn y sectorau ffermio a choedwigaeth?

20. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu ar hyn o bryd?

Diolch am eich amser.

## Atodiad 6: Trosolwg o'r prosiectau

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP1 - Rheoli clwy tatws | Gwynedd | £39,788 | Mawrth 2019 | Datblygu cyfansoddyn wedi'i echdynnu o eiddew cyffredin i atal haint/ymlediad clwy tatws, clefyd cyffredin yn y Deyrnas Unedig sy'n effeithio ar ganran helaeth o gnydau tatws. Bydd y treial yn cael ei gynnal dros ddau dymor tyfu. Bydd gwariant yn cynnwys prynu offer/hadau, costau llafur i dyfu a chynnal y cnwd prawf, a mesur, dadansoddi ac adrodd gwyddonol i bennu llwyddiant y treial. Os profir bod echdyniad o eiddew yn atal clwy tatws, mae hyn yn darparu cyfleoedd masnachol/amgylcheddol sylweddol i ffermwyr, yn enwedig rhai organig. |
| EIP2 - Grŵp Eidion Mynyddoedd Cambria | Powys | £30,100 | Mawrth 2020 | Bydd y prosiect hwn yn gofyn am gynnwys arbenigwyr priodol o'r diwydiant i ddatblygu adnoddau'r grŵp yn y meysydd canlynol:<br>• Deall gofynion cwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid<br>• Dod yn fwy hyfedr wrth werthu cynnyrch<br>• Deall a datblygu'r adnoddau marchnata a gweinyddol sydd eu hangen i gynnal cadwyn gyflenwi fer<br>Bydd buddsoddiad yn cael ei wneud mewn cymorth technegol i gyfranogwyr, gan gynnwys gweithdai rheolaidd. Bydd y cyfranogwyr yn defnyddio eu hadnoddau sydd newydd eu datblygu er mwyn meithrin perthynas â chwsmeriaid newydd a phresennol. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP3 - Porfa i beillwyr | Ledled Cymru | £39,750 | Rhagfyr 2020 | Gwnaeth chwe ffermwr llaeth sy'n aelodau o Gydweithfa Laeth Calon Wen gynnal prosiect tair blynedd i weld a allai rhai ymyriadau syml hybu niferoedd y peillwyr ar eu ffermydd. Roedd eu ffermydd organig eisoes yn darparu cynefinoedd addas ar gyfer cacwn a pheillwyr eraill, ond roeddent yn dal i fod eisiau gweld a ellid gwneud mwy. Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar gynnwys gwyndwn aml-rywogaeth a oedd yn cynnwys pys-y-ceirw, meillion (coch, gwlanog, melys a Sweden), milddail, yn ogystal â rhygwellt. |
| EIP4 - Lleihau gwrthfiotigau mewn defaid | Ynys Môn | £39,940 | Gorffennaf 2019 | Dyma nodau'r prosiect:<br>• Hyrwyddo defnydd cyfrifol o wrthfiotigau i gynnal effeithiolrwydd cyffuriau a rheoli costau.<br>• Cynyddu hyder ffermwyr mewn arferion llunio a rheoli dognau, lleihau'r defnydd proffylactig o wrthfiotigau adeg wyna, a chynnal a gwella iechyd a lles.<br>• Gwella maeth ac arferion rheoli er mwyn gwella egni, lleihau marwolaethau, a lleihau buddsoddiad mewn pesgi.<br>• Grymuso'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr i fabwysiadu dewisiadau ar wahân i ddefnyddio gwrthfiotigau, gan eu helpu i ddod yn fwy gwydn. |
| EIP5 - Coedwigaeth effaith isel | Bro Morgannwg | £40,000 | Hydref 2019 | Mae'r prosiect yn ceisio mesur faint o ddŵr a chrynodiad gwaddod a gollir o rodfeydd coetir yn dilyn gweithgareddau coedwigaeth arferol gan ddau dractor effaith isel (gan logi bobcat â thraciau a thractor alpaidd cymalog). Rydym yn bwriadu cymharu colledion cymharol ag ardal reoli (dim rheolaeth) ac ardal a reolir yn gonfensiynol. Bydd y prosiect yn ein galluogi i ddangos rhinweddau cymharol y gwahanol fathau o reolaeth gyda'r bwriad o amlygu'r offer mwyaf priodol ar gyfer y gwaith. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP6 - Cynhyrchu sêr (squill) | Gogledd Cymru | £38,030 | Mawrth 2020 | Mae'r prosiect hwn yn bwriadu treialu tyfu sêr (squill) ar ffermydd yng ngogledd Cymru. Y nod yw canfod gofynion y planhigyn, gan gynnwys agronomeg, technegau cynaeafu ac echdynnu a'u costau. Bydd ymchwil hefyd yn cael ei gwneud i'r galw am y cynnyrch hwn a chaiff hyfywedd ei gynhyrchu yng Nghymru ei asesu. Bydd yr arfer o drosglwyddo gwybodaeth drwy gydol y prosiect yn ennyn diddordeb y tyfwyr. Os yw'n ymarferol, gallai hwn fod yn opsiwn arloesol, masnachol i fusnesau ffermydd yng Nghymru arallgyfeirio yn y dyfodol. |
| EIP7 - Chwynnwr robotig | Sir Fynwy | £39,700 | Mehefin 2022 | Mae'r prosiect yn ceisio dadansoddi effaith chwynnwr cyfrifiadurol robotig rhwng rhesi mewn systemau garddwriaethol graddfa fach a reolir yn organig. Mae'r chwynwyr hyn yn gyffredin mewn gweithrediadau mwy, ond nid yw eu heffeithiolrwydd (hyfywedd) wedi'i ddadansoddi mewn sefyllfaoedd graddfa fach.<br>Trwy dreialu chwynnwr cyfrifiadurol robotig rhwng rhesi, rydym am geisio pennu'r arbedion o ran llafur (cost) ac amser y gellir eu gwneud o gymharu â'r dulliau presennol sydd â gofynion llafur uchel ar adegau penodol o'r flwyddyn. |
| EIP8 - Profion genomig mewn ffermio llaeth | Sir y Fflint | £39,930 | Hydref 2020 | Bydd y buddsoddiad yn y prosiect hwn yn ariannu profion genomig ar tua 500 o heffrod cyflo ar draws ffermydd llaeth masnachol yng Nghymru i asesu eu cynhyrchiant, math, ffrwythlondeb a nodweddion iechyd. Ar ôl lloia, bydd llaeth llaethiadau cyntaf yr heffrod yn cael ei gofnodi'n fisol i ymchwilio i'r gydberthynas rhwng perfformiad gwirioneddol a chanlyniadau profion nodweddion genomig. Bydd asesiad economaidd yn gwerthuso hyfywedd masnachol profion genomig arferol. Bydd hyn o gymorth wrth wneud penderfyniadau adeg lloia ynghylch magu ai peidio, neu benderfyniadau am fridio pan maent yn wasod. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP9 - Systemau porthiant amgen | Bro Morgannwg | £40,000 | Rhagfyr 2020 | Mae'r prosiect hwn yn ceisio cymharu perfformiad gwahanol gymysgeddau glaswellt ar dir ymylol yng nghymoedd de Cymru. Byddwn yn buddsoddi mewn gwahanol gymysgeddau hadau ac yn eu cymharu ar bedair fferm wahanol dros gyfnod o dair blynedd. Y ddamcaniaeth yw y gallai cymysgeddau hadau gwahanol fod yn fwy addas ar gyfer amodau glawiad uchel, ansawdd pridd gwael, a systemau mewnbwn isel na chymysgeddau safonol o rygwellt/meillion. Bydd y gwaith hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth o werth mesur a chofnodi gwahanol agweddau ar gynhyrchu. |
| EIP10 - Llaeth nos | Wrecsam | £39,999 | Medi 2019 | Bydd y prosiect yn ariannu samplu llaeth gan ddefnyddio prawf gwahaniaethol lewcocyt llaeth (MLD) cyn sychu ar dair fferm laeth gyda chyfanswm o tua 800 o wartheg. Bydd canlyniadau'r profion yn galluogi rheolwyr ffermydd llaeth i wneud penderfyniadau ynghylch trin buchod sych ynghylch cynnwys neu eithrio therapi buchod sych gwrthfiotig ar lefel buwch unigol a chwarter unigol. Bydd y broses yn cael ei chyflawni gan dechnegydd milfeddygol. Yn dilyn eu cyfnod sych, bydd y buchod yn cael eu monitro i gasglu data ar iechyd y pwrs. |
| EIP11 - Rheoli dail tafol yn electroffisegol | Sir Gaerfyrddin | £39,200 | Tachwedd 2021 | Mae dail tafol yn broblem fawr mewn systemau glaswelltir. Gall pla leihau cnwd a’r defnydd o laswellt. Gall chwynladdwyr gael effaith negyddol ar feillion mewn porfa a goblygiadau i ecosystem y dalgylch ehangach os cânt eu defnyddio'n anghywir. Bydd peiriant Zasso Electroherb yn cael ei logi dros gyfnod o ddwy flynedd i dreialu camau i reoli dail tafol trwy eu dinistrio yn electroffisegol. Bydd y prosiect yn dadansoddi effeithiolrwydd y peiriant ar ei ben ei hun a chyda chwynladdwyr fel rhan o strategaeth rheoli chwyn integredig. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP -12 Asbaragws organig | Sir Fynwy | £40,000 | Gorffennaf 2021 | Dymunwn dreialu cnydau asbaragws ar ddwy fferm arddwriaethol organig ar raddfa fach a chynnal dadansoddiad ymarferol ac ariannol o gamau i sefydlu a datblygu'r cnydau. Caiff y cnydau eu tyfu'n organig a gellir cymharu costau sefydlu, rheoli ac allbwn â ffigurau presennol o systemau confensiynol. Nid yw'n ymddangos bod y wybodaeth bwysig hon yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer y cynnyrch hwn sydd ym mhen uchaf y farchnad. |
| EIP - 13 Grawnfwydydd hynafol | Sir Benfro | £39,900 | Mawrth 2022 | Mae galw cynyddol gan bobyddion artisan, a rhagor o allfeydd masnachol, am rywogaethau hynafol o rawnfwydydd sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd gyda defnyddwyr. Er bod y galw am y rhywogaethau hynafol hyn o rawnfwydydd wedi cynyddu, gall fod yn anodd eu cynhyrchu mewn modd economaidd hyfyw, o ystyried y cynnyrch isel yn gyffredinol. Mae'r prosiect hwn yn ceisio treialu nifer o arferion agronomeg (cyfraddau hadau a than-hau) ar gyfer rhywogaethau grawnfwyd hynafol er mwyn nodi'r dulliau cynhyrchu mwyaf priodol ar dair fferm yng Nghymru sy'n cael eu rheoli i safonau organig. |
| EIP14 - Omega-3 | Sir Benfro | £39,942 | Hydref 2022 | Bydd ugain o ffermydd llaeth, gan ddefnyddio pedair system gynhyrchu wahanol, yn darparu samplau llaeth o'r tanc llaeth bob mis am 24 mis. Bydd profion eu gwneud ar y samplau am eu proffil asidau brasterog gyda phwyslais arbennig ar omega-3 ac omega-6. Y systemau yw: lloia bloc yn y gwanwyn, system gonfensiynol dan do yn y gaeaf / pori yn yr haf, dan do drwy gydol y flwyddyn, a buchesi organig. Y nod yw darparu gwybodaeth ynghylch a allai arferion rheoli penodol gynyddu lefelau'r asidau brasterog mewn llaeth yr ystyrir eu bod yn fuddiol i iechyd pobl, gan roi mantais farchnata i'r llaeth hwn. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP15 - Porthiant dail ar gyfer glaswelltir | Sir Benfro | £37,738 | Medi 2021 | Nod y prosiect hwn yw asesu'r cyfraniad y gall porthiant dail sy'n seiliedig ar wrea ac asid hwmig ei wneud i leihau'r defnydd o wrtaith nitrogen i wella glaswelltir. Bydd yn mesur ansawdd a maint y deunydd sych o laswellt a dyfir dros gyfnod o dair blynedd trwy gymharu gwrtaith nitrogen confensiynol a roddir i'r tir a gwasgaru'r porthiant dail ar gyfradd is. Nod y prosiect yw dangos a ellir lleihau mewnbynnau nitrogen i laswelltir tra'n cynnal cynnyrch deunydd sych, a all leihau dibyniaeth ar fewnbynnau fferm a brynir i mewn, a fyddai'n gwella cadernid busnesau mewn systemau sy'n seiliedig ar laswelltir. |
| EIP16 - Elfennau hybrin | Sir Ddinbych | £39,800 | Rhagfyr 2020 | Yn y prosiect hwn rydym yn bwriadu defnyddio dull deallus a blaengar o gynllunio maeth ar gyfer mamogiaid magu ar 12 fferm. Bydd samplau gwaed, iau a phorthiant yn cael eu defnyddio i ddeall faint o faetholion sydd ar gael a'r defnydd ohonynt gan famogiaid ar ffermydd yr astudiaeth. Bydd cyngor rheoli maeth yn cael ei lunio gan ddefnyddio'r data hyn a bydd yr ymateb yn cael ei fonitro. Gobeithiwn allosod y dechneg sefydledig hon i gyd-destun penodol diwydiant defaid Cymru, a fydd yn helpu i'w gryfhau ar gyfer y dyfodol. |
| EIP17 - Mynd i'r afael â'r clafr | Powys | £39,960 | Mehefin 2022 | Bydd grŵp o ffermwyr yn ardal Tal-y-bont yng ngogledd Ceredigion yn cydweithio i ganfod lefelau haint y clafr yn eu diadelloedd, yn ogystal â'r llwybrau trosglwyddo, ac yna'n cydweithio i leihau nifer yr achosion o'r parasit yn yr ardal. Bydd y dull cyfunol hwn yn cael ei gyflawni trwy asesiadau risg rheolaidd, cyfnewid gwybodaeth, a chyfathrebu oddi mewn i'r grŵp o ffermwyr, a chaiff ei hwyluso gan un milfeddyg a brocer yr EIP. Bydd canlyniadau'r prosiect a phwyntiau dysgu hefyd yn cael eu casglu er budd aelodau'r grŵp, ac ar gyfer y diwydiant ehangach yng Nghymru. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP18 - Olrhain da byw â GPS | Sir Gaerfyrddin | £39,700 | Mehefin 2022 | Nodau'r prosiect yw gwella dealltwriaeth o symudiadau diadell/buches a rheoli cynefinoedd mewn systemau pori helaeth; treialu mabwysiadu technoleg olrhain da byw i leihau costau llafur fferm; delio â phroblemau posibl o ddwyn da byw a gwella mynediad at anifeiliaid ar gyfer ymyriadau arferol mewn perthynas â'u hiechyd; archwilio'r manteision sy'n gysylltiedig â chasglu setiau data ar weithgarwch pori mewn ardaloedd cadwraeth; a chynyddu dealltwriaeth ffermwyr o'r manteision economaidd a'r cynnydd mewn effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â defnyddio technolegau o'r fath. |
| EIP19 - Cynhyrchu cig gafr | Sir Benfro | £38,728 | Ionawr 2022 | Bydd pum ffermwr geifr sydd ag arferion rheoli gwahanol, gan gynnwys dan do a phori, yn dod at ei gilydd i edrych ar effeithiolrwydd cyfraddau'r moddion llyngyr a argymhellir ar gyfer geifr cig. Bydd hyn yn cael ei fesur gan ddefnyddio profion FEC (cyfrif yr wyau mewn carthion) cyn rhoi'r moddion llyngyr ar wahanol adegau o'r flwyddyn, a phe bai angen y moddion llyngyr, cynnal profion FEC ar ôl drensio wedi'r cyfnod a argymhellir. Dylai hyn roi syniad o 'arfer orau' ar gyfer rhoi moddion llyngyr a sefydlu cyfraddau dosau a threfn fwy effeithiol ar gyfer rhoi moddion llyngyr i eifr cig y gellir eu rhannu â'r diwydiant. Y nod yw i'r prosiect hwn wella cynaliadwyedd cynhyrchu geifr a'r gobaith yw y bydd yn lleihau'r posibilrwydd o ymwrthedd i feddyginiaeth gwrthlyngyr. |
| EIP20 - Mamogiaid llaeth | Gwynedd | £39,995.08 | Chwefror 2022 | Bydd chwe deg o famogiaid llaeth o un fferm yn darparu samplau llaeth bob pythefnos am bum mis yn ystod eu cylch llaetha yn 2019 a 2020. Bydd y samplau'n cael eu profi i ddadansoddi proffil bacteriolegol y llaeth yn erbyn y meini prawf canlynol: brîd y defaid, cyfnod llaetha, ac ychwanegiad seleniwm i'r deiet. Y nod yw asesu'r effaith y mae'r ffactorau rheoladwy hyn yn ei chael ar y llaeth, gyda'r wybodaeth a ddarperir yn galluogi ffermwyr i arallgyfeirio eu diadelloedd i gynhyrchu llaeth o ansawdd uwch. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP21 - Gwyndwn yr ucheldir | Powys | £38,532 | Ebrill 2022 | Bydd y prosiect yn cael ei redeg gan John a Sarah Yeomans, sy’n ffermio i’r gogledd o’r Drenewydd (Powys) gyda thir hyd at 1,400 troedfedd, a Richard Tudor o Lanerfyl, ffermwr glaswelltir adnabyddus. Bydd y prosiect yn archwilio llwyddiant gwyndwn sy'n cynnwys llyriad gyda chanrannau amrywiol o ronwellt yn ôl pwysau gyda’r bwriad o wella effeithlonrwydd systemau pori dwys yr ucheldir. Bydd gwahanol ddulliau sefydlu, sef crafu a hau mewn slotiau, yn cael eu defnyddio. Bydd y prosiect tair blynedd yn archwilio ansawdd, maint a pharhad y gwyndwn hyn o gymharu â gwyndwn presennol yr ucheldir. Daw’r ysbrydoliaeth o’r Ffindir, lle mae’r gwaith a wnaed gan ddefnyddio rhonwellt fel prif gynheiliad gwyndwn glaswellt a defnyddio gypswm wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran dulliau pori. |
| EIP22 - Defaid cynffondew | Ynys Môn | £39,960 | Ebrill 2022 | Bydd 28 o embryo a 150 dos o semen o frid defaid cynffondew Damara yn cael eu mewnforio o Awstralia. Bydd gweithdrefnau trosglwyddo embryonau a ffrwythloni artiffisial yn cael eu cynnal gan ddefnyddio tri brid gwahanol o famogiaid maeth dros gyfnod o ddwy flynedd i sefydlu’r ddiadell gyntaf o ddefaid cynffondew yn y Deyrnas Unedig. Bydd ŵyn pur a chroesfrid yn cael eu monitro i ystyried eu perfformiad a’u gallu i addasu. Y ffermwyr sy’n rhan o’r prosiect fydd y cyntaf i ddatblygu’r math hwn o frid yn y DU, gan ymateb i’r galw am gig defaid cynffondew. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP23 - Nifer yr wyau yng ngharthion gwartheg | Ceredigion | £39,750 | Mehefin 2022 | Mae’r ffermwyr yn y Grŵp Gweithredol wedi sylwi yn y blynyddoedd diwethaf bod beichiau parasitiaid yn eu stoc ifanc wedi bod yn effeithio ar gyfraddau twf a pherfformiad. Mynegwyd pryderon ynghylch effeithiolrwydd y moddion llyngyr a ddefnyddir ac a oedd rhai rhywogaethau o barasitiaid yn dod yn fwy cyffredin ac yn fwy pathogenig. Trwy'r prosiect hwn bydd y ffermwyr yn cydweithio i wella perfformiad ac iechyd eu stoc. Bydd y prosiect yn defnyddio dull cyfrif yr wyau mewn carthion (FECs), profion rhywogaeth, a modelau rhagfynegi i wella diagnosis a thriniaeth llyngyr main gastroberfeddol mewn gwartheg. |
| EIP24 - Coed ar dir rhedyn | Powys | £36,700 | Hydref 2022 | Er mwyn archwilio rôl bosibl paratoi tir rhedyn ar gyfer sefydlu coed, mae angen trin y rhedyn ymlaen llaw er mwyn i'r coed oroesi. Y dull presennol o driniaeth yw defnyddio hofrennydd i osod chwynladdwr. Nid yw hyn yn economaidd ymarferol ar barseli llai, ac ni chaniateir hyn ar ddaliadau organig na ger safleoedd sensitif neu ddynodedig. Bydd y gwaith yn cynnwys aredig/trin stribedi o led amrywiol gan ddefnyddio peiriannau gwahanol a phlannu amrywiaeth o rywogaethau coed. Bydd chwynnu ar ôl plannu hefyd yn cael ei archwilio. Bydd llwyddiant pob techneg yn cael ei werthuso drwy fesur twf coed a chyfradd goroesi, yn ogystal â chostau cymharol pob techneg. |
| EIP25 - Therapi buchod sych dethol | Wrecsam | £39,456 | Ionawr 2022 | Bydd y prosiect yn ariannu samplu llaeth gan ddefnyddio prawf gwahaniaethol lewcocyt llaeth (MLD) cyn sychu ar dair fferm laeth gyda chyfanswm o tua 800 o wartheg. Bydd canlyniadau'r profion yn galluogi rheolwyr ffermydd llaeth i wneud penderfyniadau ynghylch trin buchod sych ynghylch cynnwys neu eithrio therapi buchod sych gwrthfiotig ar lefel buwch unigol a chwarter unigol. Bydd y broses yn cael ei chyflawni gan dechnegydd milfeddygol. Yn dilyn eu cyfnod sych, bydd y buchod yn cael eu monitro i gasglu data ar iechyd y pwrs. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP26 - Mesur glaswellt gan ddefnyddio lloeren | Sir Fynwy | £39,495 | Mehefin 2022 | Bydd y prosiect yn datblygu ffordd newydd gyflym o fesur effeithiau triniaethau agronomig ar gynnyrch glaswellt gan ddefnyddio delweddau o loerennau a dronau. Mae hyn yn seiliedig ar ddwy astudiaeth ddiweddar a ariannwyd gan Innovate UK a ddangosodd y gellir defnyddio delweddau optegol sy’n cael eu synhwyro o bell i amcangyfrif cnwd glaswellt ac a ddatblygodd weithdrefnau ystadegol sy’n defnyddio pwyntiau data cnwd â chyfeiriadau gofodol a gynhyrchir gan gombein modern i brofi a oedd triniaethau agronomig a ddefnyddir ar stribedi (llwybrau tractor) o gnydau âr yn gwella cynnyrch. Bydd dull cyfunol yn cael ei ddefnyddio drwy gyfnewid gwybodaeth a chyfathrebu rheolaidd oddi mewn i’r grŵp o ffermwyr, a bydd hyn wedi'i hwyluso gan frocer yr EIP a'r person sy'n monitro cnwd glaswellt â llaw. Bydd canlyniadau’r prosiect a phwyntiau dysgu hefyd yn cael eu casglu er budd aelodau'r grŵp, ac ar gyfer y diwydiant ehangach yng Nghymru. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP27 - Slyri lot | Gwynedd | £39,974.40 | Mawrth 2022 | Bydd tair fferm laeth sydd â phyrth LoRaWAN yn rhentu ac yn gosod ystod o synwyryddion Rhyngrwyd Pethau (IoT) cydnaws yn y maes a fydd yn cofnodi ac yn monitro paramedrau pridd a thywydd. Gallai'r wybodaeth amser real a gesglir gan y synwyryddion helpu ffermwyr i wneud gwell penderfyniadau ynghylch pryd i roi slyri ar eu caeau neu beidio er mwyn lleihau'r risg o oferu. Fel adnodd llawn maetholion, mae ffermwyr yn edrych ar ffyrdd o sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau o slyri fel rhan o'u cynlluniau rheoli maetholion. Bydd y prosiect yn dod â ffermwyr, awdurdodau rheoleiddio, peirianwyr meddalwedd digidol, a gwyddonwyr pridd ynghyd i sefydlu, treialu a mireinio'r system dros gyfnod o ddwy flynedd. Byddant hefyd yn aelodau o grŵp ffocws y prosiect, a fydd yn cwrdd ac yn asesu cynnydd bedair gwaith yn ystod y gwaith i ddarparu dolen adborth i sicrhau bod y dechnoleg yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial a'i mireinio i ddiwallu anghenion y ffermwyr. Gallai'r wybodaeth hon fod yn arbennig o ddefnyddiol yng ngoleuni mesurau rheoleiddio newydd ar gyfer diogelu ansawdd dŵr rhag llygredd amaethyddol, a oedd i fod i ddod i rym yn 2020. |
| EIP28 - Rheoli llyngyr main mewn defaid | Sir Gaerfyrddin | £39,860 | Mehefin 2022 | Bydd y prosiect hwn yn dangos y gellir rheoli llyngyr main mewn mamogiaid yn y cyfnod cyn ŵyna ac yn fuan wedyn, sy'n lleihau halogiad tiroedd pori a'r risg o haint i'r ŵyn, trwy dargedu triniaethau a defnyddio chyn lleied â phosibl o feddyginiaeth gwrthlyngyr. Mae'n canolbwyntio ar wella effeithiolrwydd triniaethau gwrthlyngyr a'r arfer o'u targedu trwy fonitro'n fanwl y cynnydd adeg esgor yn allbwn wyau nematodau mamogiaid; gwella'r arfer o ragfynegi beichiau parasitiaid ar borfeydd er mwyn gwella rheolaeth trwy well rheolaeth ar bori; casglu data imiwnolegol i helpu i gyflwyno brechlyn; a sicrhau'r maethiad gorau i famogiaid i wella eu gallu i ymateb i haint. Y nod yw gwella'r effeithlonrwydd cynhyrchu gyda gostyngiadau cysylltiedig mewn allyriadau carbon, yn ogystal â chynyddu cynhyrchiant a phroffidioldeb/cadernid busnesau fferm. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP29 - IDPM ffrwythau meddal | Sir Benfro | £40,000 | Rhagfyr 2021 | Rydym yn dymuno treialu dulliau biolegol o reoli plâu ar ddwy fferm ffrwythau meddal sy'n gweithredu systemau gwahanol yn ne Cymru. Mae tyfwyr yn awyddus i symud i ffwrdd o blaladdwyr confensiynol. Bydd amrywiaeth o ysglyfaethwyr a bio-blaladdwyr yn cael eu treialu a bydd tyfwyr yn cael eu mentora gan arbenigwyr sydd â phrofiad o gylch bywyd y rhywogaethau rheoli dros ddau dymor tyfu. Bydd dulliau diweddaraf y diwydiant yn cael eu defnyddio sicrhau'r potensial mwyaf ar gyfer rheoli plâu a chlefydau yn effeithiol ar eu daliadau. Caiff allbynnau eu cymharu yn erbyn dulliau confensiynol o reoli plâu. |
| EIP30 - Cryptosporidiwm | Powys | £39,960 | Mehefin 2022 | Parasit yw cryptosporidiwm a all gael effaith sylweddol ar iechyd pobl ac iechyd da byw ar ffermydd. Bydd ffermwyr yn ymchwilio i nifer yr achosion o gryptosporidiwm yn eu diadell ac ar eu fferm drwy gymryd samplau o ddŵr o gyrsiau dŵr a seilwaith fferm, a thrwy samplu baw ŵyn. Bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio ochr yn ochr ag adolygiad o fioddiogelwch i ganfod ffynonellau tebygol yr haint. Bydd gweithdrefnau rheoli ac ataliol yn cael eu datblygu i leihau nifer yr achosion o gryptosporidiwm ar y ffermydd. Bydd canlyniadau'r prosiect a phwyntiau dysgu yn cael eu cydgrynhoi er budd aelodau'r grŵp, yn ogystal â'r diwydiant ehangach, gan ganolbwyntio ar fuddion i iechyd da byw a phobl. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP31 - Amonia o frwyliaid | Sir Fynwy | £39,950 | Rhagfyr 2021 | Canlyniad anochel ffermio dofednod yw cynhyrchu amonia wrth i wradau mewn tail dofednod ddadelfennu’n naturiol. Bydd y prosiect yn mesur allyriadau amonia o systemau brwyliaid confensiynol sydd â system wresogi biomas mewn pedwar tŷ ar ddwy fferm. Ar bob fferm, bydd un system reoli yn cael ei chymharu â'r defnydd o dri ychwanegyn gwahanol sydd â'r bwriad o leihau allyriadau amonia. Bydd y prosiect hefyd yn cymharu lles a pherfformiad adar (yn gorfforol ac economaidd) gyda’r bwriad o nodi arferion gorau y gellid wedyn eu defnyddio ar ffermydd eraill. |
| EIP32 - MCF mewn buail/byfflo | Sir Ddinbych | £39,498.93 | Chwefror 2023 | Yn y prosiect hwn rydym yn bwriadu datblygu dull cynhwysfawr yn seiliedig ar dystiolaeth o reoli twymyn gataraidd falaen (MCF) ar ffermydd buail a byfflo yng Nghymru. Bydd samplau gwaed ac ysgarthion yn cael eu defnyddio i ddeall maint yr amlygiad i OvHV-2, y cyfrwng sy’n achosi MCF, yn ogystal ag amrywiaeth o bathogenau eraill a allai effeithio ar imiwnedd yr anifeiliaid ac effeithio ar gynhyrchiant. Bydd pecyn rheoli yn seiliedig ar risg yn cael ei deilwra i anghenion y buchesi dan sylw, ac yna monitro yn nes ymlaen i asesu llwyddiant hyn. Gobeithiwn drosi canfyddiadau’r prosiect hwn yn gyngor a fydd yn ddefnyddiol i ffermwyr sy’n dymuno arallgyfeirio i gynhyrchu buail a byfflos yn y dyfodol. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP33 - Pompiynau (cucurbits) | Powys | £40,000 | Ionawr 2022 | Rydym yn dymuno treialu dulliau rheoli microfaetholion newydd mewn cnydau pompiwn masnachol. Gall pompiynau gynnig mwy o gadernid i fusnesau siop fferm, gydag enillion gwerthfawr o gasglu eich pwmpenni eich hun. Problem gyffredin o fewn y grŵp hwn o gnydau yw pydredd ar ben y blodyn (BER), a all wneud ffrwythau'n anfarchnadwy. Credir y gallai rheoli statws maeth calsiwm/boron y cnwd fod yn ddull allweddol o reoli BER. Dymunwn dreialu effaith dulliau o roi calsiwm a boron drwy'r dail wrth gynhyrchu pompiynau'n fasnachol. |
| EIP34 - Gwyndynnydd llysieuol | Sir Gaerfyrddin | £39,994 | Mawrth 2023 | Bydd y prosiect hwn yn bennaf yn archwilio iechyd a pherfformiad stoc wrth iddynt bori ar wyndwn llysieuol o gymharu â chymysgedd confensiynol o rygwellt. Bydd y stoc yn pori'n gylchdro ar wyndwn llysieuol a gwyndwn rhygwellt mwy confensiynol. Y mesuriadau a gymerir fydd monitro cynnydd pwysau byw dyddiol yr ŵyn, ynghyd â chyfrif yr wyau mewn carthion (FECs) i fonitro baich llyngyr, a chyfrifiadau larfaol yn y borfa er mwyn monitro baich llyngyr ar leiniau'r prosiect.<br>Bydd y data hyn, ynghyd â mesur porfa a dyfwyd trwy fesurydd plât, yn rhoi syniad o ba mor effeithiol y mae'r gwyndwn llysieuol yn perfformio mewn lleoliad masnachol ar dri safle gwahanol yn Sir Gaerfyrddin. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP35 - Iechyd y gadair | Sir Gaerfyrddin | £40,000 | Ionawr 2022 | Prosiect lle bydd pedwar ffermwr yn Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan mewn trefn brofi ddeinamig. Bydd y profion yn digwydd bob deufis ar bob fferm. Drwy fonitro a chofnodi'r canlyniadau hyn ac, felly, gweithredu'n seiliedig ar argymhellion arbenigol, gallai'r ffermwyr leihau'n sylweddol lefelau bactosgan ac achosion o fastitis isglinigol a chlinigol. Gallai'r ffactorau hyn wella iechyd cadair y buchesi yn sylweddol drwy ddefnyddio profion deinamig ac, felly, gallent leihau nifer yr achosion o fastitis, a gellir ailadrodd hyn ar ffermydd eraill er mwyn dod â buddion i'r diwydiant llaeth ehangach yng Nghymru. |
| EIP36 - Ffilmiau ffotoddewisol ar gyfer saladau | Sir y Fflint | £40,000 | Mehefin 2022 | Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar werth maethol cnydau a gwella cyfraddau twf cyffredinol. Er mwyn gallu manteisio ar addasiadau sbectra, mae ar dyfwyr graddfa fach angen tystiolaeth yn ymwneud â'r defnydd a'r arferion gorau o integreiddio'r dechnoleg arloesol hon yn eu busnesau. Bydd arwyneb newydd yn cael eu rhoi ar dwneli presennol yn cynnwys hyd at dair ffilm. Bydd amrywiaeth o gyltifarau yn cael eu treialu gan fonitro perfformiad y cnydau i fesur effeithiau cynhyrchu yn erbyn ffilm gonfensiynol. |
| EIP37 - Diagnosis beichiogrwydd | Sir Gaerfyrddin | £40,000 | Tachwedd 2021 | Y nod yw sefydlu cyfradd feichiogrwydd ar gyfer buchod godro o fewn 28-30 diwrnod ar ôl eu gwasanaethu trwy gynnal profion PSPB mewn gwaed trwy gymryd samplau gwaed, gan ganiatáu canfod beichiogrwydd yn gynnar, nodi problemau anffrwythlondeb mewn buches odro yn gynnar, ac, yn olaf, cynnal triniaeth yn gynnar. Gallai gweithredu trefn ddiagnosis gynnar yn y drefn fridio wella effeithlonrwydd atgenhedlu yn fawr. Bydd ymchwilio i'r uchod yn darparu cymhariaeth rhwng sganio uwchsain a monitro PSPB yn y gwaed ac yn sefydlu pa un yw'r dull gorau i ffermwyr ei ddefnyddio yn y dyfodol. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP38 - Nodd bedw | Powys | £39,950 | Mehefin 2022 | Dros ddau dymor tapio, bydd tri dull gwahanol o sefydlogi nodd coed bedw yn cael eu treialu ar draws pedwar safle yng Nghymru i asesu eu haddasrwydd o fewn graddfeydd cynhyrchu amrywiol o gynhyrchu nodd bedw crynodedig. Bydd dadansoddiad cost a budd cynhwysfawr yn cael ei gynnal i benderfynu pa un yw'r dull cynhyrchu mwyaf addas. Yn ogystal, gan mai grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr yw’r cynhyrchwyr, caiff asesiad effaith cymdeithasol ei gynnal i archwilio'r gwerth cymdeithasol y mae'r prosiect yn ei gynhyrchu mewn cymunedau lleol. Bydd datblygu ein dealltwriaeth o’r dulliau hyn a’r effeithiau a gânt ar ansawdd nodd crynodedig a chynnyrch terfynol yn galluogi busnesau a thirfeddianwyr Cymru i fod mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y gallant ychwanegu gwerth at unrhyw adnodd bedw y mae ganddynt fynediad iddo. |
| EIP39 - Carbon niwtral | Powys | £40,000 | Rhagfyr 2022 | Bydd y prosiect hwn yn asesu dichonoldeb cyrraedd ‘niwtraledd carbon’ (neu allyriadau sero net) ar gyfer ffermydd unigol ac ar y cyd, ar draws chwe fferm, sydd ag amrywiaeth o fentrau a systemau ffermio. Bydd yn adolygu ac yn cyfrifo:<br>1. allyriadau o gynhyrchu (cyfanswm yr allyriadau (t $CO_2$ e) a dwyster allyriadau (allbwn kg $CO_2$ e/kg)); a<br>2. Y $CO_2$ a waredir drwy atafaelu mewn biomas uwchben ac o dan y tir.<br><br>Bydd y prosiect yn datblygu camau gweithredu wedi’u targedu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella atafaeliad $CO_2$ ar ffermydd Cymru. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP40 - Diogelwch Rhyngrwyd Pethau | Gwynedd | £39,930 | Mehefin 2022 | Bydd synwyryddion Rhyngrwyd Pethau wedi'u ffurfweddu ar gyfer LoRaWAN yn cael eu gosod ar bum fferm i fonitro lleoliad asedau fferm gwerthfawr sy'n darged cyffredin i ladron. Bydd y wybodaeth amser real a gesglir gan y synwyryddion yn rhybuddio ffermwyr am ddigwyddiad yn ymwneud â'r asedau hyn, gan eu galluogi i hysbysu'r heddlu yn gynt gan roi gwybodaeth o ansawdd uwch. Bydd y systemau monitro hyn yn darparu tystiolaeth wedi'i logio i ddangos pryd y sbardunwyd y synwyryddion. Bydd y wybodaeth hon yn helpu'r heddlu i ganolbwyntio eu hadnoddau ar amser penodol, gan helpu i olrhain asedau sydd wedi'u dwyn yn gyflym. Gallai defnyddio LoRaWAN yn y modd hwn fod yn arbennig o ddefnyddiol, yn enwedig yng ngoleuni canlyniadau Adroddiad yr NFU ar Drosedd 2020, a ddangosodd fod lladrata o ffermydd wedi costio £2.6m i ffermwyr Cymru yn 2019. Roedd hyn yn gynnydd o 11 y cant ar y flwyddyn flaenorol. |
| EIP41 - Cloffni | Bro Morgannwg | £39,914.40 | Chwefror 2023 | Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar weithredu rhaglen Healthy Feet Lite AHDB (HFLite) gan gynghorwyr hyfforddedig ac yn defnyddio grwpiau gweithredol ffermwyr fel gwahanol ddulliau o gyfnewid gwybodaeth. Mae'r canlyniadau'n cynnwys sgorio symudedd a chyfweliadau cyn ac ar ôl y prosiect i asesu gwybodaeth a newid ymddygiad. Bydd y cyllid yn talu am y cyfweliadau, gweithredu HFLite, grwpiau gweithredol ffermwyr, a sgorio symudedd. Disgwylir y bydd y prosiect nid yn unig yn lleihau nifer yr achosion o gloffni yn y buchesi dan sylw, ond hefyd yn llywio'r dulliau gorau posibl o gynnwys ffermwyr yn y gwaith o reoli cloffni. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP42 - Planhigion egsotig | Sir y Fflint | £40,000 | Mehefin 2022 | Mae'r galw am fwydydd newydd ac egsotig o bob rhan o'r byd bellach yn fwy cyffredin nag erioed o'r blaen. Mae hwn yn gyfle cryf i dyfwyr yng Nghymru sy'n ceisio amrywio'r hyn a gynigir ganddynt a chynyddu cynhyrchiant. Er bod y cnydau arbenigol hyn wedi’u tyfu’n llwyddiannus mewn gwahanol wledydd, nid oes cyngor agronomig ar gael sy’n benodol i hinsawdd Cymru. Mae'r prosiect hwn felly wedi'i ddylunio i greu pecynnau cymorth i dyfwyr sy'n ymdrin â phob agwedd ar gynhyrchu i gynorthwyo tyfwyr i ddatblygu cynhyrchion bwytadwy egsotig, gwerth uchel ac arbenigol. |
| EIP43 - Adar tir fferm | Sir Ddinbych | £39,727.36 | Mawrth 2023 | Bydd yn archwilio'r cwestiwn canlynol: I ba raddau y mae darparu cyfuniad o orsafoedd bwydo atodol a chnydau gorchudd arbenigol wedi’u lleoli ar ddwy fferm wahanol iawn yng Nghymru sydd fel arall wedi’u dominyddu gan laswelltir yn gwrthdroi dirywiad adar tir fferm dros ddau aeaf? Bydd yn ymchwilio ymhellach i’r potensial i ffermydd cynhyrchiol wrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth heb gael effaith andwyol ar eu systemau cynhyrchu er mwyn sicrhau budd cyhoeddus mewn cynlluniau yn y dyfodol. |
| EIP44 - Mapio llyngyr yr iau | Ceredigion | £40,000 | Mehefin 2022 | Bydd samplu eDNA a thechnegau meintiol seiliedig ar adwaith cadwynol polymerasau (qPCR) yn cael eu defnyddio i fapio nifer yr achosion o falwod / malwod wedi’u heintio â llyngyr yr iau ar y safleoedd. Mae grŵp o ffermwyr eidion a/neu ddefaid wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn prosiect mapio llyngyr yr iau gan ddefnyddio eDNA. Mae pob un o’r ffermwyr wedi nodi problemau llyngyr yr iau sydd wedi achosi colledion economaidd a phryderon o ran lles anifeiliaid. Bydd y canlyniadau yn llywio atebion cynaliadwy, cost-effeithiol ar gyfer lleihau baich llyngyr yr iau ar eu ffermydd. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP45 – Ymwrthedd gwrthficrobaidd buches sugno | Ceredigion | £39,508 | Mehefin 2022 | Nod y prosiect yw gwella rheolaeth a maeth buchesi sugno o amgylch adeg lloia er mwyn gwella iechyd a chynhyrchiant anifeiliaid tra'n lleihau'r defnydd o wrthfiotigau. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:<br>• Optimeiddio maeth buchod<br>• Optimeiddio maeth lloi trwy gynyddu ansawdd, maint ac amsugniad llaeth tor<br>• Datblygu a gweithredu rhaglen gadarn ar gyfer monitro iechyd anifeiliaid<br>• Ar sail y data monitro, paratoi cynlluniau iechyd sy'n<br>o Hyrwyddo dulliau rhagweithiol ac ataliol o fynd i'r afael ag unrhyw broblemau afiechyd sylfaenol<br>o Lleihau'r defnydd o wrthfiotigau ac osgoi triniaethau proffylactig. |

| Prosiect | Awdurdod lleol y ffermwr arweiniol | Cyllideb a ddyfarnwyd | Dyddiad cwblhau | Crynodeb o'r prosiect |
|---|---|---|---|---|
| EIP46 – Bio-olosg | Powys | £25,425 | Medi 2022 | Bydd bio-olosg gwellt y gweunydd a sarn anifeiliaid yn seiliedig ar wellt y gweinydd wedi'i gyd-gompostio â gwlân defaid yn cael eu treialu fel addasiadau pridd ar wahân a chyfunol mewn garddwriaeth er mwyn canfod eu heffaith ar gynnyrch ac ansawdd nifer o gnydau llysiau. Bydd gan y treial gysylltiadau uniongyrchol â phrosiectau 'Beacons' ac 'Economi Carbon Cylchol' Prifysgol Aberystwyth.<br>Mae manteision allweddol y prosiect yn cynnwys:<br>• Darparu marchnad gynaliadwy i wellt y gweunydd er mwyn annog ei waredu a gwella bioamrywiaeth yr ucheldir<br>• Datblygu dull (sy'n gynhyrchiol ynddo'i hun) i gynyddu faint o garbon sy'n cael ei atafaelu yn y pridd<br>• Darparu dewis arall yn lle compostau / cyflyrwyr pridd sy'n defnyddio mawn<br>• Dangos sut y gellir gwella cynnyrch llysiau gan ddefnyddio dewisiadau eraill, yn lle gwrtaith anorganig, sydd ag ôl troed carbon isel<br>• Datblygu marchnad ar gyfer gwlân cynffon (sydd heb unrhyw ddefnydd na gwerth ar hyn o bryd).<br><br>Bydd y cyllid yn cael ei wario ar:<br>• Amser ymchwilydd/arbenigwr<br>• Costau dadansoddi (bio-olosg, compost / cyfryngau tyfu, meinwe planhigion cnydau)<br>• Costau ardystio compost<br>• Costau danfon compost/bio-olosg. |